

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

57/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

28/09/2017

Dulliau awdurdodau lleol o ymdrin ag adennill dyledion y dreth gyngor yng Nghymru

Dulliau awdurdodau lleol o ymdrin ag adennill dyledion y dreth
gyngor yng Nghymru

Llywodraeth Cymru, Rhaglen Ymchwil Fewnol

Ceri Greenall, Nina Prosser a Hannah Thomas

Greenall, C., Prosser, N. (2017) *Dulliau awdurdodau lleol o ymdrin ag adennill
dyledion y dreth gyngor yng Nghymru* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif
Adroddiad GSR 57/2017
Ar gael yn: [http://gov.wales/statistics-and-research/local-authorities-approaches-
council-tax-debt-recovery/?lang=cy](http://gov.wales/statistics-and-research/local-authorities-approaches-council-tax-debt-recovery/?lang=cy)

Barn yr ymchwilydd ac nid Llywodraeth Cymru o reidwydd a fynegir yn yr
adroddiad hwn

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Ceri Greenall

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

0300 025 5634

e-bost: ceri.greenall@llyw.cymru

Mynegai

Rhestr Tablau	2
Rhestr Siartiau	3
Geirfa	4
Crynodeb Gweithredol	5
1. Cyflwyniad	16
2. Methodoleg	21
3. Adolygiad o'r dystiolaeth	25
4. Canfyddiadau	43
5. Meincnodi	105
6. Adolygiad o wefannau	123
7. Casgliadau	128
8. Argymhellion	133
Cyfeiriadau	137
Atodiad A - Canllaw Cyfweld	138

Rhestr Tablau

Tabl 4.1 - Nifer y Gwysion Traddodi a Gyhoeddwyd yn 2016-17	66
Tabl 5.1 - Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol	106
Tabl 5.2 - Casgliadau ac Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor 2016-17	110
Tabl 5.3 - Data Meincnodi Awdurdodau Lleol	114
Tabl 5.3 - Newid yn nifer yr awdurdodau sy'n mynd ar drywydd gwysion traddodi dros amser	118

Rhestr Siartiau

Siart 5.1 - Cyfraddau casglu'r dreth gyngor o gymharu ag amddifadedd incwm	107
Siart 5.2 - Y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D	108
Siart 5.3 - Cyfraddau casglu'r dreth gyngor o gymharu â Band D y dreth gyngor yn 2016-17	109
Siart 5.4 - Nifer yr Anheddau Trethadwy 2017-18	111
Siart 5.5 - Swm y dreth gyngor sy'n weddill fesul annedd drethadwy 2016-17	112
Siart 5.6 - Nifer yr awdurdodau a anfonodd wysion traddodi	118
Siart 5.7 - Nifer yr awdurdodau a gyhoeddodd orchmynion arwystlo	120

Geirfa

BDG	Budd-dal y Dreth Gyngor
CDG	Cymhorthdal y Dreth Gyngor
CGDG	Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
CIVEA	Y Gymdeithas Gorfodaeth Sifil
DAC	Datganiad Ariannol Cyffredin
DAS	Datganiad Ariannol Safonol
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
PIP	Taliad Annibyniaeth Personol

Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd y Rhaglen Ymchwil Fewnol (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) ym mis Medi 2016 gan y tîm polisi Trethu Lleol i gyflawni ymchwil mewn awdurdodau lleol er mwyn cael dealltwriaeth well o'r modd y maent yn casglu ac adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru. Mae'r dreth gyngor yn fater datganoledig, sy'n golygu bod gan Lywodraeth Cymru'r grym i wneud penderfyniadau ynghylch polisi'r dreth gyngor yng Nghymru. Awdurdodau lleol, fodd bynnag, sydd yn gyfrifol am bennu, casglu a gorfodi'r dreth gyngor. Mae'r dreth gyngor yn daladwy ar bob eiddo domestig onid yw wedi'i eithrio, ond dylid nodi bod amrywiaeth o ddisgowntiau, hepgoriadau a chynlluniau gostwng ar waith i leihau'r swm sy'n daladwy mewn rhai amgylchiadau. Pennir lefelau'r dreth gyngor yn flynyddol gan awdurdodau lleol, ac fe godir y dreth honno'n unol â bandiau prisio. Mae'r dreth gyngor yn cynnwys dwy gydran sylfaenol: mae'n seiliedig yn rhannol ar werth yr eiddo dan sylw, ac yn rhannol ar nifer yr oedolion sy'n agored i'r dreth ar yr aelwyd, a'u hamgylchiadau. Mae'r gydran gwerth eiddo yn seiliedig ar werth eiddo unigolyn o gymharu ag eiddo arall yn yr ardal leol.

Ym mis Ebrill 2013, penderfynodd Llywodraeth y DU ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor (BDG) a chyflwyno gostyngiad o 10 y cant i'r cyllid ar gyfer trefniadau yn lle'r budd-dal hwnnw. Trosglwyddodd Llywodraeth y DU y cyfrifoldeb dros ddatblygu cynlluniau newydd er mwyn helpu pobl i dalu biliau'r dreth gyngor i Awdurdodau Lleol yn Lloegr.

Ar gyfer Cymru, trosglwyddodd Llywodraeth y DU gyllideb sefydlog o £222 miliwn a neilltuodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn yn ychwanegol at hynny. Golygai hyn fod gan awdurdodau lleol £244 miliwn i gefnogi gweinyddiaeth y cynllun fyddai'n cael ei weithredu yng Nghymru yn lle'r budd-dal. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gynnal y trefniadau ariannu hyn ers 2013-14.

Yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru i gydweithio ag awdurdodau lleol i ddiogelu aelwydydd sy'n fregus, neu'n isel eu hincwm, sicrhawyd bod bron i 300,000 o aelwydydd yng Nghymru yn parhau i gael eu diogelu rhag unrhyw gynnydd yn swm y dreth gyngor y mae'n rhaid ei dalu. O blith y rhain, nid yw 220,000 o'r aelwydydd yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl. Roedd y Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen - 2016-2021*, yn cynnwys dyhead i sicrhau bod y dreth gyngor yn decach, fel bod pobl sy'n byw mewn eiddo isel neu gymedrol ei werth yn talu llai. Mae hyn yn cynnwys darparu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

I oleuo'n dealltwriaeth o'r hyn a fyddai'n ddull cymesur gan awdurdod lleol i adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor, anelai'r ymchwil i ddechrau i gyfosod canfyddiadau o'r dystiolaeth sydd ar gael eisoes. Wedyn, cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau ansoddol lled-strwythuredig dros y ffôn â Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau ar draws awdurdodau lleol. Recordiwyd y cyfweiliadau, ac fe gafodd trawsgrifiadau o'r recordiadau eu codio er mwyn canfod themâu allweddol. Mae'r adroddiad yn cyfysod canfyddiadau ansoddol o'r data cyfweiliadau ag ystadegau perfformiad blynyddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u casglu gan awdurdodau lleol. Gwneir rhywfaint o ddefnydd hefyd o ddata meincnodi a ddarparwyd yn wirfoddol gan yr awdurdodau, sydd yn galluogi iddynt ddadansoddi tueddiadau a chymharu perfformiad ar fetrigau casglu a gorfodi. Gan fod y data hyn yn cael eu darparu ar sail wirfoddol, mae'n bwysig nodi nad yw'r un gwiriadau sicrwydd ansawdd wedi cael eu cynnal arnynt ag ystadegau perfformiad cenedlaethol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn profi dilysrwydd y canfyddiadau o'r cyfweiliadau dros y ffôn, cyflwynodd ymchwilwyr y canfyddiadau oedd yn dod i'r amlwg gerbron y Fforwm Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau ym mis Mehefin 2017. Cynhaliodd ymchwilwyr a swyddogion polisi hefyd nifer o weithdai gyda'r staff Refeniw a Budd-daliadau ar themâu a oedd yn codi o'r gwaith ymchwil. Dyma oedd themâu'r gweithdai: (i) casglu a monitro data ar berfformiad; (ii) canllawiau, cyngor a gwybodaeth; (iii) addysgu ac ymgysylltu ag unigolion; a (iv) gorfodi, gyda golwg ar archwilio meysydd lle ceir arfer da yn fanylach.

Dyma oedd nodau'r ymchwil:

- archwilio'r broses a'r amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i gasglu'r dreth gyngor ac ôl-ddyledion y dreth gyngor;
- canfod dulliau effeithiol er mwyn ymdrin ag ôl-ddyledion y dreth gyngor (anelir drwy hyn i gynnwys dealltwriaeth o gost a budd y gwahanol ddulliau casglu ac adennill);
- deall y sail resymegol wrth wraidd y dulliau a ddefnyddiwyd (a'r ffactorau galluogi a'r rhwystrau canfyddedig a gwirioneddol)
- archwilio a oes unrhyw dystiolaeth y gellid defnyddio dull arall o dalu, fel bancio amser, er mwyn helpu i setlo dyledion y dreth gyngor;

- deall yr heriau a'r cyfleoedd yn y dyfodol wrth adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor;
- nodi enghreifftiau o arferion arloesol.

Y Prif Ganfyddiadau

I ddechrau, yr oedd cydnabyddiaeth gyffredin fod proffil a pherfformiad yr economi leol yn effeithio ar allu unigolion i dalu ac, yn sgil hynny, ar allu awdurdodau lleol i gasglu'r dreth gyngor. Mae hyn yn cyd-fynd 'r dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil a gynhaliwyd gan y sector cyngori, sy'n cyfeirio at effaith ffactorau economaidd lleol ar allu eu buddiolwyr i dalu. Yn gyson, nododd awdurdodau effaith amddifadedd ar allu unigolion i gyflawni eu hymrwymadau. Yr oedd teimlad bod marchnad lafur newidiol, a oedd yn aml yn cynnwys gwaith heb sicrwydd o natur afreolaidd neu ar gyflog isel, incymau sy'n gostwng a siociau ariannol oll yn effeithio ar allu unigolion i dalu ac ar allu awdurdodau i gasglu yn ystod y flwyddyn. Roedd awdurdodau wedi gweithredu sawl mesur i gefnogi unigolion sy'n profi anawsterau. Roedd y rhain yn cynnwys cynnig trefniadau talu hyblyg, debyd uniongyrchol wythnosol, amryw o ddyddiadau ar gyfer debyd uniongyrchol ac, mewn un awdurdod, defnyddio asiantau gorfodi i lleol i gynnig cyngor wedi'i gynllunio'n arbennig i rai sydd wedi colli eu swyddi yn dilyn cau diwydiant lleol.

Bydd awdurdodau'n wynebu heriau cyson wrth ymgysylltu ag unigolion a'u hannog i ymdrin ag ôl-ddyledion ar y cyfle cyntaf. Mae awdurdodau'n rhannu rhwystredigaeth a nodwyd gan asiantaethau cyngori ar ddyledion, sef nad yw unigolion yn tueddu i ymdrin â dyledion problemus nes bo'r sefyllfa wedi troi'n argyfwng. Soniai awdurdodau'n aml am brinder adnoddau, a dywedent y gellid bod wedi atal costau a straen diangen, a chynnydd mewn dyledion pe bai unigolion wedi cysylltu â'r awdurdod ynghynt. Adroddodd awdurdodau eu bod yn prosesu nifer fawr o gyfrifon gydag adnoddau prin, a chan hynny, nad oeddent yn gallu nodi a chysylltu ag unigolion mewn modd rhagweithiol wrth iddynt ddechrau profi anawsterau. Pwysleisiai'r awdurdodau ei bod hi bob amser yn well adnabod problemau'n gynnar a chymryd camau ataliol yn lle camau gorfodi, ond roeddent i raddau helaeth yn dibynnu ar unigolion i gysylltu â hwy i drafod eu sefyllfa.

Adroddodd yr awdurdodau nad oeddent ond wedi cyflwyno achosion dyled i asiantau gorfodi ar ôl mynd heibio trothwyon isafswm penodol, a phan nad oedd modd gweithredu mesurau eraill oherwydd diffyg gwybodaeth am gyfrifon. Ymddengys fod hyn yn anghyson â'r

pryder a godwyd gan y sector cyngori fod mân ddyledion yn cael eu hanfon i asiantaethau gorfodi, lle byddai casglu yn esgor ar ffioedd. Dywedodd yr holl awdurdodau fod ganddynt drothwyon isafswm, ac na fyddai dyled o dan y trothwyon hynny'n cael ei hanfon i asiantaeth orfodi. Teimlai awdurdodau y dylid cyfyngu ar y defnydd o asiantau gorfodi a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd dethol, gan nad oedd hi'n fuddiol i'r unigolyn na'r awdurdod ysgwyddo costau adennill ychwanegol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau hefyd fod ganddynt ryw fath o weithdrefn hidlo ar waith er mwyn canfod cyfrifon a allai fod yn anaddas i'w cyfeirio i sylw asiantau gorfodi. Siaradodd yr awdurdodau'n gadarnhaol ynghylch eu perthynas ag asiantaethau gorfodi, ac roeddent yn teimlo bod Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd) (2014) wedi arwain at welliannau, gan gynnwys creu proses fwy cyson a thryloyw. Roedd llawer o awdurdodau'n croesawu cyflwyno camerâu i asiantau gorfodi eu gwisgo, ac ystyriwyd y byddai hynny'n cyfrannu at leihau nifer y cwynion a gefnogir.

Roedd dull awdurdodau o ymdrin ag ailberchnogi dyledion y dreth gyngor yn amrywio. Mae tystiolaeth o'r sector cyngori'n awgrymu y gallai rhai awdurdodau fod yn amharod i ailberchnogi dyledion ar gais cyngorydd dyledion. Roedd rhai awdurdodau wedi datblygu a dilyn polisïau mewnol neu lawlyfrau gweithredu ar reoli dyledion, os oeddent yn parhau i fod yn gyfrifol am adennill dyledion. Fodd bynnag, yr oedd y trefniadau ar gyfer ailberchnogi dyledion yn amrywio yn dibynnu ar y cytundeb yr oedd yr awdurdod wedi'i sefydlu â'i asiantaethau gorfodi. Dywedai rhai awdurdodau y byddent yn ceisio ailberchnogi dyledion, llai unrhyw ffioedd gorfodi, o ganfod bod unigolion yn fregus. Disgrifiai eraill drefniadau llai hyblyg gyda'u hasiantaethau gorfodi, lle gellid bod angen talu ffi wrth wneud cais i ailberchnogi dyled, neu lle gallai'r ymateb i hynny fod yn anodd. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu, os ceir costau ychwanegol i'r awdurdod yn sgil ailberchnogi, fod hynny'n dylanwadu ar y penderfyniad i ailberchnogi'r ddyled ai peidio. Mewn nifer fach o achosion, ystyriai awdurdodau ffactorau eraill wrth benderfynu ailberchnogi dyled neu beidio, sef hanes cyfrif yr unigolyn a'i hanes o ryddhad rhag dyled, neu gytundeb gan yr unigolyn i sefydlu a chynnal debyd uniongyrchol.

Prin oedd y prosesau a'r mecanweithiau o fewn awdurdodau er mwyn adennill dyled a ddychwelwyd gan asiantaethau gorfodi. Am eu bod yn gyndyn o ddileu dyledion, mynegai awdurdodau eu bod yn aml yn methu canfod mwy o wybodaeth am unigolion neu ddulliau adennill a

fyddai'n cynnig dewis arall posib yn lle cymryd camau gorfodi fel dewis olaf. O ganlyniad i hyn, adroddodd rhai awdurdodau eu bod wedi ailgyflwyno dyled i asiantau gorfodi eraill, neu ei chyflwyno eilwaith i'r un asiant gorfodi. Dywedodd eraill eu bod yn defnyddio dulliau eraill, fel sianelau cyfryngau cymdeithasol neu ymchwiliadau preifat er mwyn canfod gwybodaeth am unigolion a allai olygu bod modd iddynt ddefnyddio dulliau eraill o gasglu'r ddyled, neu gyfiawnhau'r angen i weithredu camau gorfodi fel dewis olaf.

Roedd pob awdurdod yn ystyried bregusrwydd unigolion, ac yn ymdrechu rhywfaint i adnabod unigolion â nodweddion bregus. Yr oedd y graddau yr oedd awdurdodau yn ymdrechu i adnabod unigolion bregus mewn modd rhagweithiol, a'r adeg y byddai hynny'n digwydd yn y broses adennill, yn amrywio. Yn yr un modd, adroddodd y aelodau o'r sector cynghori fod llwyddiant awdurdodau wrth adnabod unigolion bregus cyn cymryd camau gorfodi yn amrywio yn eu tyb hwy. Cydnabu'r awdurdodau eu bod yn aml yn methu adnabod unigolion bregus cyn gwneud cais am orchymyn dyled, a hynny gan fod cynifer o gyfrifon i'w cael ac oherwydd dibyniaeth yr awdurdodau ar brosesau awtomataidd i reoli'r niferoedd mawr hyn. Ar ôl derbyn gorchymyn dyled, fodd bynnag, disgrifiodd yr holl awdurdodau pa gamau ymarferol y maent yn eu cymryd i wirio bregusrwydd unigolion. Nododd awdurdodau fod yn rhaid iddynt atgyfeirio achosion i asiant gorfodi oherwydd diffyg gwybodaeth am hanes cyfrifon a chudd-wybodaeth arall. Roedd yr asiant gorfodi yn aml yn ffynhonnell o wybodaeth gyfoethog a oedd wedi'u galluogi i adnabod unigolion bregus a chysylltu â hwy.

Adroddodd awdurdodau eu bod wedi cymryd camau i adnabod dangosyddion bregusrwydd neu unigolion â nodweddion bregus. Roedd ymchwil a gynhaliwyd gan y sector cynghori yn awgrymu bod effeithiolrwydd awdurdodau wrth adnabod a chefnogi unigolion bregus yn amrywio, ac argymhellai y dylai awdurdodau ddatblygu polisi bregusrwydd er mwyn gwella cysondeb. Roedd mwyafrif yr awdurdodau wedi peidio datblygu polisi bregusrwydd neu fabwysiadu dull arall rhagnodedig. Yn lle hynny, aethant ati i ddisgrifio'r sgysiau yr oeddent wedi'u cael ag unigolion, asiantaethau cynghori ac asiantaethau gorfodi er mwyn ystyried yr hyn sy'n arwydd o fregusrwydd y mhob achos, ac effaith hynny ar allu unigolion i dalu yn y tymor byr a'r tymor hir. Roedd dulliau awdurdodau o adnabod bregusrwydd wedi'u dylunio i fod yn hyblyg, fel bo modd rhoi'r sylw pennaf i farn a doethineb o fewn maes cymhleth. Dywedodd yr awdurdodau hefyd eu bod wedi elwa ar

hyfforddiant ar fregusrwydd a ddarparwyd gan amrywiaeth o asiantaethau cynghori ar ddyledion, cyrff o'r Trydydd Sector a chyirff proffesiynol, yn ogystal â rhai asiantaethau gorfodi.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau eu bod yn cyfeirio'r rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd talu eu treth gyngor at wasanaethau cynghori ar ddyledion a rheoli arian. Mae tystiolaeth o'r sector cynghori yn awgrymu y gall yr wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan awdurdodau fod yn brin. **Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth o anghysondeb ar draws awdurdodau lleol wrth ddarparu gwybodaeth a chyfeirio, yn enwedig ar-lein.** Disgrifiodd awdurdodau y camau y maent yn eu cymryd i ddarparu gwybodaeth am gyfeirio mewn gohebiaeth ag unigolion. Wrth adolygu cynnwys ar-lein awdurdodau, fodd bynnag, roedd yr wybodaeth ar gyfer cyfeirio pobl i asiantaethau cynghori ar ddyledion yn am yn annigonol neu'n aneglur.

Pwysleisiai rhai awdurdodau pa mor bwysig oedd ymdrechu'n benodol i gasglu proffil a gwybodaeth gyswllt gyfredol gan unigolion, er mwyn sicrhau bod y biliau a gyhoeddir yn flynyddol yn gywir, ac er mwyn prosesu disgowntiau ac esemptiadau yn y modd cywir. Roedd nifer llai o awdurdodau hefyd yn annog unigolion i ddiweddarau a rheoli eu cyfrif ar-lein. Disgrifiai awdurdodau eraill y pwysau ar adnoddau wrth reoli swmp y ffurflenni papur oedd yn dod i mewn ar adegau penodol yn y cylch adennill, ac i rai roedd hyn yn golygu eu bod yn anfon gohebiaeth allan yn llai aml.

Mae pob awdurdod yn cynnig opsiynau talu hyblyg a lluosog, a phob awdurdod hefyd yn cynnig trefniadau ad-dalu hyblyg os yw unigolyn wedi cysylltu â'r awdurdod, neu os oes ganddo hanes da o gyflawni ymrwymadau blaenorol. Debyd uniongyrchol yw'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o dalu, ac mae'r holl awdurdodau'n annog hynny. Dylid nodi na aethpwyd ati yn y gwaith ymchwil hwn i ymdrin â phryder a godwyd yn y deunydd darllen presennol, sef nad yw asiantaethau gorfodi yn ymdrechu'n ddigonol i gytuno ar drefniadau ad-dalu fforddiadwy a chymesur.

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau'n teimlo y byddai'n fuddiol gallu gweithredu proses atafaelu enillion neu fudd-daliadau, cyn gwneud cais am orchymyn dyled. Y teimlad oedd y

byddai'r gallu hwn, pe bai'r unigolyn yn gwneud cais amdano o'i wirfodd, yn fodd i osgoi costau diangen i'r unigolyn a'r awdurdod, yn lleihau'r swmp o orchmynion dyled i'w prosesu ac yn sicrhau bod dyled yn cael ei chasglu yn y modd mwyaf effeithlon. Yn dilyn y gorchymyn dyled, mae'r holl awdurdodau'n ceisio trefnu i atafaelu enillion neu fudd-daliadau cyn mynd ar drywydd unrhyw ddulliau eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar dderbyn gwybodaeth am gyflogaeth a budd-daliadau yn ôl gan unigolion; adroddodd awdurdodau fod cyfraddau dychwelyd yr wybodaeth hon yn amrywio, a bod cyfraddau dychwelyd isel yn aml yn golygu nad oedd yr opsiwn hwn yn ddichonadwy.

P'un a yw awdurdodau'n defnyddio traddodebau ar hyn o bryd ai peidio, roedd yr holl awdurdodau'n gwerthfawrogi eu gallu i ddefnyddio hynny fel bygythiad pan oedd angen, gyda'r bwriad o sbarduno cyswllt a thrafodaethau ag unigolion. Roedd yr awdurdodau hynny a ddefnyddiai draddodebau yn pwysleisio pa mor bwysig oedd mabwysiadu dull detholus o adnabod a chymeradwyo lleiafrif o achosion, a chanfod tystiolaeth ar eu cyfer. Roedd y rhai a ddewisai beidio mynd ar drywydd traddodeb naill ai'n troi at gamau gorfodi eraill fel cynnig olaf os oedd y symiau'n fach, neu'n parhau i weithio ar hen achosion. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt ryw lawer o ddewis yn y tymor hir ond dileu'r ddyled.

Yn ôl yr Awdurdodau, ychydig iawn o achosion traddodi a gyrhaeddai'r llys, ac roedd barn yr Awdurdodau yn gymysg ynghylch effeithiolrwydd hynny. Disgrifiai rhai awdurdodau amgylchiadau lle'r oedd unigolion, yn ystod y gwrandawriad yn y llys, wedi cynnig talu'r ddyled yn llawn gan olygu bod symiau sylweddol o arian yn cael eu hadennill. Disgrifiai awdurdodau eraill wrandawiadau llys a arweiniodd at drefniadau ad-dalu nad oeddent yn ddigonol i ad-dalu'r ddyled, neu weithrediadau traddodi lle cafwyd nad oedd modd adennill y ddyled, ac mai'r unig ddewis oedd ei dileu.

Argymhellion

Mae'r argymhellion hyn yn seiliedig ar safbwyntiau'r Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau o awdurdodau lleol. Gan hynny, fe'u lluniwyd ar sail y dystiolaeth a gafwyd gan un grŵp o randdeiliaid yn unig. Er gwaethaf ymdrechion i ddefnyddio canfyddiadau o waith ymchwil arall perthnasol (ee, y gwaith ymchwil a gyflawnwyd gan y sector cynghori), cwmpas y astudiaeth hon oed llenwi bwlch neilltuol yn y sylfaen o dystiolaeth ynghylch arferion awdurdodau lleol. Ni cheisiwyd cynnwys safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol eraill fel dinasyddion a chanddynt brofiad o orfodaeth dyledion awdurdod lleol, asiantaethau cynghori ar ddyledion neu asiantaethau gorfodi. Gellid dadlau bod safbwyntiau a phrofiadau'r rhanddeiliaid hyn wedi'u cynrychioli'n gymharol dda ymhlith y dystiolaeth a geir eisoes.

Mae'n bwysig cofio cwmpas cyfyngedig y gwaith ymchwil hwn wrth ystyried yr argymhellion hyn a chydabod nad yw ond yn rhoi golwg unochrog o'r materion.

Rhennir argymhellion yn feysydd i'w trafod gan awdurdodau, meysydd a ystyrir yn berthnasol i Lywodraeth Cymru, a meysydd y gellid ymdrin â hwy ar y cyd.

Awdurdodau lleol

1. Dylai awdurdodau lleol gael polisi cytunedig ar gyfer rheoli casgliadau ac ôl-ddyledion sy'n amlinellu'r safonau gofynnol y byddai disgwyl i awdurdodau eu bodloni wrth gasglu ac adennill y dreth gyngor. Dylai hyn gynnwys disgwyliadau ynghylch sut mae awdurdodau'n gweithio gyda'r sector cynghori am ddim, asiantaethau gorfodi allanol a thrydydd partïon eraill.

2. Dylai awdurdodau leol ofyn am wybodaeth a chanllawiau ar rannu a dal data, a sefydlu dull cytunedig a chyson sy'n cydymffurfio â rheoliadau. Yr oedd dulliau lleol awdurdodau o ymdrin â rhannu a dal data yn amrywio'n helaeth. Y gwahaniaethau hyn oedd i gyfrif am amrywiaeth o wahanol arferion a oedd gan gynghorau er mwyn rhannu data ar draws adrannau, a'r gwahanol ffyrdd o weithio gydag asiantaethau cynghori ar ddyledion. Byddai canllaw i awdurdodau yn cynghori ynghylch yr hyn a ganiateir a'r hyn sy'n ddichonadwy, ac ynghylch sut y bydd cyflwyno'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn effeithio ar eu harferion.

3. Dylai gwybodaeth a chyngor cyfeirio fod yn eglur, a dylid darparu'r wybodaeth honno mewn modd hygyrch a chyson ar draws yr holl sianelau cyfathrebu. Dylid adolygu cynnwys y we yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Yn rhan o hyn, dylid dangos yn glir beth yw diben casglu'r dreth gyngor a'r broses ar gyfer gwneud hynny, gwybodaeth am y modd y mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario, yr hyn sy'n digwydd os bydd unigolion yn mynd i ddyled a'r costau cysylltiedig. Dylai cynnwys y wefan hefyd fod yn addas i'r cwsmer, gan ofalu bod yr ieithwedd, y ffordd o fynd o amgylch y wefan a'r dogfennau ategol yn hygyrch ac yn rhesymegol i unigolion. Fel arfer gorau, argymhellir y dylai awdurdodau gynnwys cyfeiriad clir i asiantaethau cyngor ar ddyledion ar bob hysbysiad atgoffa a gorfodi, ar wefannau ac ar blatfformau eraill ar-lein, a phryd bynnag y bydd unigolyn sy'n ei chael hi'n anodd talu'r dreth gyngor yn cysylltu â hwy.

4. Dylai awdurdodau adolygu eu contractau ag asiantau gorfodi er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaeth gorau bosib. Yn benodol, dylai awdurdodau adolygu eu trefniadau ar gyfer ailberchnogi dyledion, a'r ffioedd yn gysylltiedig â hynny. Dylai awdurdodau hefyd adolygu arferion asiantaethau gorfodi er mwyn cytuno ar drefniadau ad-dalu fforddiadwy a chymesur ar gyfer y cyfrifon y maent yn gyfrifol amdanynt.

5. Dylai awdurdodau ymchwilio i'r amrywiaeth eang yng nghyfraddau dychwelyd ceisiadau am wybodaeth a gyhoeddir ar ôl sicrhau gorchymyn dyled. Archwilio a yw gwahanol arferion yn effeithio ar gyfraddau dychwelyd, a ellid gwella cyfraddau, ac a fyddai hyn yn amharu ar nifer y gorchmynion dyled a weithredir drwy atafaelu enillion neu fudd-daliadau.

Llywodraeth Cymru

6. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio pa mor ddichonadwy yw hyrwyddo mynediad awdurdodau lleol at ddata cyflogaeth CaThEM fel bo modd gweithredu atafaelebau enillion yn brydlon pan fo'n briodol. Dywedai awdurdodau lleol yn gyson fod angen mynediad gwell a chynharach at wybodaeth er mwyn gweithredu'r dull mwyaf effeithlon o adennill ac atal ffioedd rhag cynyddu o safbwynt yr unigolyn a'r cyngor.

7. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal adolygiad o brosesau Atafaelu Enillion/Atafaelu Budd-daliadau a chasglu a ellir mynd i'r afael ag unrhyw un o'r canlynol:

- Rhoi arweiniad ar drothwyon atafaelu enillion i roi cyfrif am natur newidiol gwaith (ee, contractau heb sicrwydd, cyflog isel, dim oriau)
- Adolygu trothwyon atafaelu enillion i roi cyfrif am dreuliau unigolion, yn hytrach nag incwm yn unig.
- Archwilio'r posibilrwydd o ganiatáu atafaelu enillion/budd-daliadau cyn gorchymyn dyled, os yw'r dyledwr yn gwneud cais am hynny o'i wirfodd
- Archwilio'r posibilrwydd o atafaelu drwy ddiwynnu o amrywiaeth ehangach o fudd-daliadau lles

8. Cyflawni gwaith pellach i archwilio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir yn syth cyn gweithredu dulliau gorfodi fel dewis olaf. Wrth wneud hyn, dylid ystyried a yw unrhyw ddulliau'n llwyddo i leihau'r defnydd o gamau gorfodi fel dewis olaf. Dylai archwilio'r ffyrdd amgen a ddefnyddir gan awdurdodau i gasglu gwybodaeth bellach am unigolion, fel sianelau'r cyfryngau cymdeithasol ac ymchwiliadau preifat, a cheisio cadarnhau pa gamau cyfreithlon y gellir eu cymryd.

9. Egluro'r broses o wneud penderfyniadau yn gysylltiedig â gweithredu camau gorfodi fel dewis olaf. Rhoi arweiniad ar y dulliau y gellid eu defnyddio ac ym mha amgylchiadau. Egluro unrhyw weithdrefnau y dylid cadw atynt ac, os oes modd, trothwyon penderfynu i'w sefydlu cyn bwrw ymlaen ag unrhyw benderfyniad ynghylch gweithredu camau gorfodi fel dewis olaf. Dylai hefyd geisio rhoi arweiniad ynghylch yr amgylchiadau lle gallai fod yn briodol defnyddio'r broses draddodi, methdaliad a gorchmynion arwystlo.

Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol

10. Ar y cyd ag awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu ymgyrch addysg sy'n anelu i wella'r ddealltwriaeth o'r hyn y mae'r dreth gyngor yn talu amdano, a goblygiadau peidio talu'r dreth gyngor. Ystyried a yw'n well cyflawni hyn yn rhan o'r agenda cynhwysiant ariannol neu ar ffurf ymgyrch ar wahân. Cyfeiriodd awdurdodau lleol yn gyson at yr angen i addysgu unigolion ynghylch diben y dreth gyngor, goblygiadau peidio talu'r dreth gyngor a'i statws fel dyled â blaenoriaeth. Gwelai'r holl gynghorau y byddai'n fuddiol addysgu ac ymgysylltu ag unigolion. Roeddent am wneud mwy o hynny, ond nid oedd ganddynt ddigon o adnoddau i wneud hynny'n effeithiol.

11. Ar y cyd ag awdurdodau lleol, dylai awdurdodau lleol gytuno ar ddull o gynyddu'r wybodaeth a rennir yn gysylltiedig ag arferion arloesol, gwaith ymchwil a threialon. Ystyried defnyddio cronfa Buddsoddi i Arbed i gefnogi arferion newydd os ydynt yn debygol o arbed costau.

12. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol adolygu eu trefniadau ar gyfer monitro perfformiad, eu dangosyddion a'u prosesau casglu data er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Cwestiynai'r awdurdodau a oedd y dangosyddion a'r cylch monitro perfformiad cyfredol yn ystod y flwyddyn yn rhoi adlewyrchiad llawn o'r ffiniau y mae awdurdodau'n gweithredu oddi mewn iddynt o ran demograffeg a'r sylfaen drethi, a'r swm o arian a gaiff ei adennill y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol.

13. Ar y cyd â'r Trydydd Sector, dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ystyried rhesymoli dull o weithio â'r sector cyngori, gan adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes, er mwyn paratoi i weithredu Credyd Cynhwysol. Mynegodd pob awdurdod bryder ynghylch cynyddu cyfraddau'r dreth gyngor a fforddiadwyedd y dreth gyngor yn y dyfodol. Mynegodd llawer ohonynt fod angen dull wedi'i gynllunio'n arbennig o weithio gydag asiantaethau cyngori a chymdeithasau tai i ymwreiddio prosesau newydd cyn gweithredu Credyd Cynhwysol. Mae rhai ohonynt eisoes wedi sefydlu gweithgorau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'u Canolfan Byd Gwaith, eu cynghorwyr dyledion a'u cymdeithasau tai lleol.

Ymchwil Bellach i Lywodraeth Cymru

14. Ystyried ystod y data y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio gan awdurdodau, ac a ellid ychwanegu at y rhain er mwyn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd. Dylid ystyried casglu a chyhoeddi data ar orfodi a dulliau casglu.

15. Ymchwilio i effaith cau llysoedd ar y gallu i adennill ôl-ddyledion treth. Nododd yr awdurdodau fod cau llysoedd wedi amharu ar hyblygrwydd eu proses adennill. Dylai'r gwaith ymchwil archwilio'r problemau a wynebir gan ddyledwyr yn ogystal ag awdurdodau.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Nod y gwaith ymchwil hwn yw dod â thystiolaeth sy'n bodoli eisoes ynghyd, a chynnal ymchwiliad pellach er mwyn deall: y dull o ymdrin ag adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor, a'r rheolaeth ar hynny yng Nghymru; y rhesymau wrth wraidd y dull hwnnw; ac a ellid gwella'r dull.
- 1.2 Yn sail ar gyfer manyleb y gwaith ymchwil, cyfarfu swyddogion o'r Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru, â swyddogion o'r Is-adran Gyllid Strategol Llywodraeth Leol i ddatblygu dealltwriaeth o ofynion y gwaith ymchwil. Penderfynwyd y byddai'r gwaith ymchwil yn cael ei gyflawni'n fewnol drwy ddefnyddio adnoddau'r Rhaglen Ymchwil Fewnol (RhYF). Dyma oedd y dull mwyaf amserol a chost-effeithiol, a byddai'n golygu bod modd meithrin arbenigedd o fewn Llywodraeth Cymru.
- 1.3 Nod y gwaith ymchwil hwn gydag awdurdodau lleol yw deall pam mai ôl-ddyledion y dreth gyngor oedd y broblem fwyaf gyffredin a adroddwyd wrth y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn 2014-15 yn gysylltiedig â dyledion, a hynny er gwaethaf ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal hawliadau o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cyngor ar Bopeth, 2016) Mae hyn yn dangos arwyddocâd dyled y dreth gyngor, a'r cyfiawnhad dros wneud gwaith ymchwil pellach i'r modd y gellid ymdrin â'r dreth honno.
- 1.4 Mae adroddiad Cyngor ar Bopeth, ynghyd â gwaith ymchwil arall ar raddfa'r DU, yn rhoi dealltwriaeth dda i ni o agweddau ar arferion adennill y dreth gyngor, a allai gael eu gwella ym marn dinasyddion a chynghorwyr, gan gynnwys: deall amgylchiadau'r unigolyn; cyfathrebu mewn modd cliriach ag unigolion; cynnig cynlluniau ad-dalu fforddiadwy; canfod anawsterau ynghynt; a monitro/newid y defnydd o asiantaethau casglu dyledion.
- 1.5 Ceir llai o sicrwydd ar hyn o bryd, fodd bynnag, ynghylch sut y mae awdurdodau'n ymdrin ag ôl-ddyledion y dreth gyngor yn ymarferol, a sut mae hyn yn amrywio rhwng y naill awdurdod a'r llall. Nid oes gennym ychwaith ddigon o dystiolaeth i ddeall a oes gan awdurdodau bolisiâu neu brosesau cyson i ymdrin ag achosion o ôl-ddyled; y rheswm dros fabwysiadu dulliau neilltuol; sut yr oeddent yn cael eu datblygu; ac i ba raddau y mae eu cymesuredd a'u heffeithiolrwydd yn cael ei fonitro a'i werthuso. Ceir hefyd ddiffyg data ystadegol ar raddfa Cymru a'r DU ar gasglu foliwmetrigau casglu a gorfodi, ar wahân i'r hyn a gipiwyd yn wirfoddol drwy rwydwaith Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru i ddibenion meincnodi.

- 1.6 Yn ogystal â hyn, mae'r dystiolaeth o'r dulliau mwyaf effeithiol o ymdrin ag ôl-ddyledion y dreth gyngor yn brin ar hyn o bryd. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn archwilio'r dystiolaeth hon ac yn ystyried ei goblygiadau lle bo modd. Mae cynlluniau peilot hefyd wedi cael eu cynnal yng Nghymru sy'n rhoi rhywfaint o dystiolaeth ynghylch a ellir defnyddio dulliau newid ymddygiad yn gysylltiedig â thalu'r dreth gyngor.
- 1.7 Mae'r gwaith ymchwil hwn yn mynd i'r afael â bwloch pwysig yn y dystiolaeth. Bydd yn gwella ein dealltwriaeth o'r dulliau amrywiol a geir ar hyn o bryd er mwyn datrys ôl-ddyledion y dreth gyngor, a'r sail resymegol ar gyfer eu defnyddio. Bydd hyn yn ein helpu i wella'r sylfaen o wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd ynghylch yr heriau cyfredol o flaen yr awdurdodau, yr arferion y maent wedi'u sefydlu er mwyn rheoli'r heriau hyn a pha gefnogaeth y gellid bod angen yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod polisiau ac arferion yn deg, yn gymesur ac yn gost-effeithiol i awdurdodau ac unigolion. Bydd yr wybodaeth hon, yn ei thro, cael ei defnyddio'n sail ar gyfer newidiadau a gwelliannau posibl, yn unol â'r dystiolaeth.
- 1.8 Diddymwyd Budd-dal y Dreth Gyngor gan Lywodraeth y DU o 1 Ebrill 2013 a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb dros ddatblygu cynlluniau newydd i gynorthwyo pobl i dalu biliau'r dreth gyngor i'r Awdurdodau Lleol yn Lloegr. Ar yr un pryd, trosglwyddodd Llywodraeth y DU gyllid, yn cynnwys gostyngiad o 10%, i'r Gweinyddiaethau Datganoledig gan ddisgwyl y byddent hwythau'n datblygu cynlluniau newydd. Ni chafodd y swyddogaethau perthnasol eu 'datganoli' i Lywodraethau Cymru neu'r Alban. Cafodd y cyllid hefyd ei drosglwyddo o Wariant a Reolir yn Flynyddol sy'n seiliedig ar alw i Derfynau Gwariant Adrannol sefydlog, gan olygu bod yn rhaid rheoli'r galw am gymorth o fewn cyllidebau sefydlog.
- 1.9 Yng Nghymru, darparwyd £244 miliwn yn y setliad llywodraeth leol ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2013-14. Trosglwyddwyd cyllideb sefydlog o £222 miliwn o Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo awdurdodau i barhau i ddarparu'r swm llawn o gymorth i'r holl ymgeiswyr cymwys, darparwyd £22 miliwn yn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal y trefniadau ariannu hyn. Ceir mwy o wybodaeth yma: <http://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/council-tax-wales/council-tax-support/?skip=1&lang=cy>

- 1.10 Mabwysiadwyd dull gwahanol yn Lloegr. Gofynnwyd i bob un o'r 326 o awdurdodau sy'n codi'r dreth gyngor ddatblygu eu cynlluniau eu hunain, yn amodo ar ofyniad i ddiogelu ymgeiswyr o oed pensiwn. Mae'r mwyafrif ohonynt, 289 o 326 (89 y cant) wedi torri'r swm o Gymhorthdal y Dreth Gyngor sydd ar gael i ymgeiswyr, yn bennaf drwy gyflwyno tâl isafswm neu fand uchaf.
- 1.11 Mae hyn wedi golygu bod y sefyllfa ar draws Lloegr yn amrywio'n helaeth. Mewn rhai awdurdodau, bydd aelwyd isel eu hincwm yn parhau i dderbyn 100 y cant o gymhorthdal, tra bo disgwyl i aelwydydd mewn awdurdodau eraill dalu hyd at 45 y cant o'u bil. Ym mhumed flwyddyn y cymhorthdal lleol, mae'r newid o fudd-dal y dreth gyngor wedi cael effaith niweidiol ar 2.2 miliwn o deuluoedd. Ar gyfartaledd, bu'n rhaid i'r teuluoedd hyn dalu £191 yn fwy o'r dreth gyngor yn 2017-18, o gymharu â'r hyn y byddent wedi'i dalu o dan fudd-dal y dreth gyngor.
- 1.12 Mae problemau'n gysylltiedig ag ôl-ddyledion y dreth gyngor yn debygol o barhau, a gallent waethgu wrth i'r Diwygiadau Lles fynd rhagddynt¹. Mae'n debygol y bydd y pwysau ariannol ar aelwydydd ac awdurdodau yn parhau. Gan gydnabod hyn, mae'r Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen - 2016-2021*, yn cynnwys dyhead i sicrhau bod y dreth gyngor yn decach, fel bod pobl sy'n byw mewn eiddo isel neu gymedrol ei werth yn talu llai.

Nod

- 1.13 Nod y gwaith ymchwil hwn yw gwella ein dealltwriaeth o'r gwahanol ddulliau presennol o ymdrin â datrys ôl-ddyledion y dreth gyngor, a'r sail resymegol dros eu defnyddio. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn helpu i gau'r bwlch yn y sylfaen dystiolaeth bresennol o ran yr heriau sydd o flaen awdurdodau ar hyn o bryd, yr arferion y maent wedi'u sefydlu er mwyn rheoli'r heriau hyn, a pha gymorth y gellid bod ei angen yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y dull o adennill y dreth gyngor yn deg, yn gymesur ac yn gost-effeithiol i awdurdodau ac unigolion.

¹Ceir mwy o wybodaeth am Ddiwygio Lles drwy'r ddolen ganlynol: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

Amcanion

1.14 O safbwynt y dinesydd, bydd yr ymchwil yn:

- Crynhoi'r deunydd darllen a geir ynghylch dulliau ataliol a rhagddulliau o ymdrin â ddyledion y dreth gyngor, gan gynnwys ffocws ar effeithiolrwydd y dulliau hynny wrth atal dyled rhag cynyddu'n barhaus;
- Canfod unrhyw dystiolaeth gyd-destunol sy'n ein helpu i ddeall y ffactorau sy'n cyfrannu at batrymau dyled y dreth gyngor, ee, ar bwy y mae'n effeithio, dosbarthiad daearyddol, y rhesymau sy'n rheoli talu neu beidio talu dyled yn llwyddiannus; a
- Defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael i adolygu y mha ffyrdd y byddai'n well gan ddinasyddion gael cymorth, ac i'r gwrthwyneb, adnabod yr arferion hynny y teimlir eu bod yn gwaethygu sefyllfaoedd negyddol.

1.15 O safbwynt yr awdurdod, bydd yr ymchwil yn sefydlu:

- Y dulliau mwyaf effeithiol o ymdrin ag ôl-ddyledion y dreth gyngor (gan anelu i gynnwys dealltwriaeth o'r costau a'r budd yn gysylltiedig â rhai o'r dulliau mwyaf cyffredin, fel cynlluniau ad-dalu ac asiantau gorfodi, yn ogystal ag unrhyw ganfyddiadau ynghylch dulliau sy'n bwrw golwg ar ymddygiad);
- Yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir gan awdurdodau yng Nghymru er mwyn ymdrin ag ôl-ddyledion;
- Y sail resymegol wrth wraidd y dulliau a ddefnyddir, a rhwystrau sy'n atal newid (rhai canfyddedig a gwirioneddol);
- A oes unrhyw dystiolaeth y gellid defnyddio dull arall o dalu, fel bancio amser, er mwyn helpu i setlo dyledion y dreth gyngor;
- Yr heriau a'r cyfleoedd yn y dyfodol wrth adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor;
- Meysydd lle ceir arferion arloesol.

1.16 Bydd yr ymchwil yn ceisio crynhoi tystiolaeth o'r dull(iau) mwyaf effeithiol o ymateb i ôl-ddyledion y dreth gyngor, o safbwynt dinasyddion a hefyd o safbwynt awdurdodau. Yn

ogystal, bydd yr ymchwil yn cyflwyno argymhellion i awdurdodau a Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid gwella dulliau o adennill ôl-ddyledion yng Nghymru.

2. Methodoleg

- 2.1 Pwrpas yr ymchwil oedd cael dealltwriaeth fanwl o safbwyntiau a phrofiadau awdurdodau lleol wrth adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru, ac wrth wneud hynny, ymdrin â'r bwlch yn y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch casglu dyledion y dreth gyngor. Gan hynny, penderfynwyd mai'r Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau mewn awdurdodau lleol fyddai'r ffynhonnell fwyaf hyfyw o wybodaeth, ac mai astudiaeth ansoddol fanwl fyddai'n esgor ar y dystiolaeth fwyaf cynhwysfawr a defnyddadwy.
- 2.2 Mae'n bwysig cydnabod bod y canfyddiadau a gynhyrchir drwy'r gwaith ymchwil hwn yn cyflwyno profiadau a safbwyntiau'r grŵp unigol hwn o randdeiliaid. Er gwaethaf ymdrechion i gasglu canfyddiadau o waith ymchwil perthnasol arall (ee, gwaith ymchwil a gyflawnwyd gan y sector cyngori), cwrpas yr astudiaeth hon oedd llenwi bwlch neilltuol yn y sylfaen o dystiolaeth ynghylch arferion awdurdodau lleol. Ni cheisiai gynrychioli safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid eraill allweddol fel dinasyddion â phrofiad o orfodaeth dyledion awdurdodau lleol, asiantaethau cyngori ar ddyledion neu asiantaethau gorfodi. Gellid dadlau bod cynrychiolaeth cymharol dda o safbwyntiau a phrofiadau'r rhanddeiliaid hyn i'w cael ymhlith y dystiolaeth sy'n bodoli eisoes.
- 2.3 Cynhaliwyd yr ymchwil mewn pum cam.
- 2.4 Y **cam cyntaf** oedd cynnal adolygiad o'r dystiolaeth mewn deunydd darllen yn gysylltiedig â chasglu ac ôl-ddyledion y dreth gyngor, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r defnydd o asiantau gorfodi. Edrychai'r adolygiad o dystiolaeth hefyd ar ddeunydd darllen ynghylch bancio amser. Esgorodd hyn ar 23 o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys dogfennau llywodraeth, erthyglau mewn cyfnodolion yn ogystal â deunydd darllen ehangach gan elusennau a grwpiau â buddiant. Ceir hyd i'r adolygiad o dystiolaeth ym Mhennod 3.
- 2.5 Gwaith maes oedd yr **ail gam**.
- 2.6 Penderfynwyd mai'r ffordd orau o gasglu data uniongyrchol oedd astudiaeth ansoddol a oedd yn cynnwys cyfres o gyfweiliadau lled-strwythuredig dros y ffôn â chynrychiolwyr o'r tîm Refeniw a Budd-daliadau ym mhob awdurdod lleol.
- 2.7 Mae cyfweiliadau ansoddol hefyd yn ddull defnyddiol wrth geisio cipio a chasglu data cynhwysfawr a chymaradwy ar destun penodol. Mae cyfweiliadau lled-strwythuredig, wedi'u hwyluso gan gyfweilydd ac yn seiliedig ar ganllaw i'r testunau dan sylw, yn rhoi cyfle i

gyfranogwyr fynegi barn a safbwyntiau ar eu telerau eu hunain ar destun manwl ac ar destunau eraill perthnasol. Gall hyn fod yn ffordd ddefnyddiol o ganfod agweddau a safbwyntiau newydd ar gwestiwn neu destun penodol. Ystyriwyd mai cyfweiliadau manwl fyddai orau er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o brofiadau arbenigwyr yn y maes sensitif hwn; mae'r dull yn hyblyg ac yn rhoi cyfle i'r cyfwelydd dreulio mwy o amser ar agweddau penodol ar y testun fel bo'r angen.

- 2.8 Ar y cyd â'r tîm Polisi Trethi Lleol, penderfynwyd y byddai canllaw'r cyfweiliadau lled-strwythuredig yn canolbwyntio'n bennaf ar gasglu profiadau cyfranogwyr o adennill dyledion y dreth gyngor. Byddai hefyd y canolbwyntio ar y nodweddion neilltuol y gellid eu disgrifio fel ffactorau sy'n galluogi neu'n rhwystro'r broses adennill, fel y berthynas â thrydydd partïon a'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu ag unigolion. Er mwyn mireinio strwythur a chynnwys y canllaw, fe'i profwyd mewn cyfweiliad arbrofol â Chadeirydd Gweithgor Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru a chynrychiolwyr o'r tîm Refeniw a Budd-daliadau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mabwysiadwyd y dull hwn er mwyn sicrhau y byddai'r canllaw yn casglu'r data angenrheidiol o fewn yr amser a neilltuwyd, a'i fod yn cynnwys cwestiynau dealladwy a pherthnasol, gan osgoi ailadrodd. Yn dilyn y cyfweiliad arbrofol, gwnaed mân ddiwygiadau i strwythur a chynnwys y canllaw er mwyn gwella llif y naratif. Ceir copi o'r canllaw yn Atodiad A.
- 2.9 Dechreuodd ymchwilwyr y Rhaglen Ymchwil Fewnol recriwtio cyfweleion ym mis Chwefror 2017, gan barhau am gyfnod o chwe wythnos. Er mwyn annog cynrychiolwyr i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil, drafftiodd tîm y Polisi Trethi Lleol lythyr i'w gefnogi a anfonwyd at yr holl Reolwyr Refeniw a Budd-daliadau ym mhob un o'r awdurdodau lleol.
- 2.10 Er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2017, lluniwyd deunyddiau recriwtio, gan gynnwys taflen ffeithiau ar ffurf cwestiwn ac ateb yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chynigiwyd cyfle i'r holl gyfranogwyr gymryd rhan yn eu dewis iaith. Drwy'r ohebiaeth gychwynnol hon, ysgogwyd nifer o gyfranogwyr i gofrestru am gyfweiliad, neu i anfon yr wybodaeth ymlaen at gydweithiwr os oeddent o'r farn fod rhywun arall mewn sefyllfa well i ymateb. Golyga hyn fod elfen o ogwydd i'r sampl gan fod yr ymatebwyr wedi'u dewis eu hunain. Gallai hyn fod yn broblemus gan fod yr ymatebwyr yn fwy tebygol o fod yn rhai a chanddynt fwy o wybodaeth am y testun neu'r mater dan sylw, neu ddiddordeb yn hynny, felly ni ellir dweud eu bod yn cynrychioli'r boblogaeth darged. Fodd bynnag, roedd gallu casglu gwybodaeth

gan rai a chanddynt y mwyaf o wybodaeth yn ddefnyddiol ar gyfer y gwaith ymchwil hwn. Yn dilyn y cam hwn, cysylltwyd â'r cyfranogwyr drwy e-bost a thros y ffôn i drefnu cyfweiliadau. Ar ôl cael cyfradd ymateb o 100%, cynhaliwyd 22 o gyfweiliadau ag arbenigwyr Refeniw a Budd-daliadau, gyda rhai o'r arbenigwr hynny yng nghwmni cydweithwyr o'u timau casglu a'u timau cyswllt llys, drwy gydol mis Mawrth a mis Ebrill 2017. Ni ddewisodd yr un cyfranogwr gymryd rhan yn Gymraeg.

- 2.11 Cafodd pob cyfweiliad dros y ffôn ei recordio. Cafodd trawsgrifiadau o'r recordiadau a'r nodiadau a gymerwyd yn ystod y cyfweiliadau eu casglu a'u codio er mwyn canfod themâu. Mae manylion y cyfranogwyr a'r awdurdod lleol y maent yn ei gynrychioli yn anhysbys, ac ymdrechwyd i'r eithaf i sicrhau nad oes modd adnabod yr un unigolyn o'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae'r adran ar arferion arloesol yn eithriad i hyn, lle caiff awdurdodau eu henwi fel bo modd rhannu'r gwersi a ddysgwyd.
- 2.12 Cafodd canfyddiadau o ddadansoddiad thematig o'r cyfweiliadau eu cyflwyno'n ôl i Weithgor Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru i brofi eu dilysrwydd. Roedd y **trydydd cam** hwn hefyd yn cynnwys cynnal pedwar gweithdy cydredol â'r grŵp i archwilio materion allweddol a oedd wedi codi o'r cyfweiliadau. Defnyddiwyd canfyddiadau o'r gweithdai hyn ochr yn ochr â data cyfweiliadau i ddarparu tystiolaeth bellach. Cyflwynir y canfyddiadau hyn ym Mhennod 4.
- 2.13 Yn y **pedwerydd cam** cynhaliwyd dadansoddiad eilaidd o'r data. Cynhaliwyd hyn ochr yn ochr â'r gwaith maes a'r adroddiadau. Casglwyd data o ffurflenni treth gyngor yr awdurdodau lleol ac o ffurflenni meincnodi heb eu cyhoeddi. Cyfarfu swyddogion ag arweinydd grŵp meincnodi'r awdurdod lleol i archwilio a deall y posibilïadau yr oedd y data yn eu cynnig. Cyflwynir y data ym Mhennod 5. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys adolygiad o dudalennau gwe'r awdurdodau ar gyfer y dreth gyngor, er mwyn canfod pa wybodaeth oedd yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd. Cyflwynir yr wybodaeth hon ym Mhennod 6.
- 2.14 Y pumed cam, a'r **cam olaf** oedd cyfuno ac adrodd ar y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.
- 2.15 Dylid ystyried y canlynol yn gysylltiedig â'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn:

- Dylid trin y ffigurau a gyflwynwyd o'r data meincnodi yn ofalus, a'u defnyddio fel ffigurau dangosol yn unig. Darparwyd y data gan yr awdurdodau i'w dibenion meincnodi eu hunain, ac nid ydynt wedi cael eu gwirio er cywirdeb.
- Mae canfyddiadau'r cyfweiliadau'n cynnwys sylwadau a safbwyntiau goddrychol yr ymgynghoreion. Dylid nodi mai safbwyntiau'r staff refeniw a budd-daliadau sydd wedi llywio'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, ac na ellir ond ystyried yr argymhellion hynny fel tystiolaeth ddangosol wedi'i chasglu gan un grŵp o randdeiliaid. Ni cheisiwyd cynnwys safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid eraill allweddol, fel dinasyddion neu asiantaethau cynghori, yng nghwmpas yr ymchwil hon, er bod modd casglu rhywfaint o wybodaeth o'r grwpiau hyn yn yr Adolygiad o'r dystiolaeth. Nod yr ymchwil yw ymdrin â bwloch yn y sylfaen o dystiolaeth, ac mae'n cynnwys y fethodoleg fwyaf addas i fodloni'r angen hwn.

3. Adolygiad o'r Dystiolaeth

Yn yr adran hon, adolygir rhai dogfennau academiaidd, ymchwil a pholisi perthnasol, a deunydd darllen arall gan elusennau a grwpiau buddiant arbennig er mwyn amlinellu'r materion sy'n berthnasol i'r ymchwil. Mae'n archwilio'r prif safbwyntiau yn gysylltiedig â chasglu ac adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor, ac effaith hynny, yng Nghymru ac ar raddfa ehangach yn y DU, ond nid yw'n cynnig adolygiad systematig o'r holl ddeunydd darllen sydd ar gael ynghylch hynny. Ymchwil o ffynonellau'r Trydydd Sector yw mwyafrif y deunydd darllen a drafodir yma, ac mae'n ymwneud ag effaith polisi ac arferion y dreth gyngor ar y rhai sy'n elwa ar gyngor a chefnogaeth rheoli dyledion. Mae'r ffynonellau academiaidd a amlinellir yn yr adolygiad hwn yn archwilio effaith y cyni ar alluedd ariannol ymhlith poblogaethau difreintiedig neu mewn ardaloedd o amddifadedd, a hefyd yn archwilio dyled genedlaethol ar raddfa ehangach.

- 3.1 Yn adran gyntaf yr adolygiad hwn, trafodir y tirlun gwleidyddol ac ariannol sydd ohoni o ran polisi Llywodraeth Cymru ar y dreth gyngor, a'r cysylltiad rhyngddo â pholisi cyfredol Llywodraeth y DU. Bydd yr adran hon hefyd yn disgrifio ymchwil sy'n archwilio effaith y prif newidiadau i gymhorthdal y dreth gyngor a weithredwyd ledled Lloegr. Yn yr adran ddilynol, edrychir yn fanwl ar rai enghreifftiau o ddeunydd darllen cyfredol sy'n archwilio safbwyntiau gwasanaethau cynghori ar ddyledion a rheoli arian a'u buddiolwyr ynghylch yr hyn sy'n achosi dyledion treth gyngor, profiadau unigolion o hynny ac effaith y dyledion arnynt. Bydd yr adran hon hefyd yn ystyried deunydd darllen sy'n amlinellu profiadau unigolion o arferion casglu dyledion awdurdodau lleol yng nghyd-destun y cynnydd parhaus yn lefelau'r dreth gyngor a phroblem gynyddol yn gysylltiedig â dyled genedlaethol. Yn olaf, bydd y drafodaeth yn troi at ddeunydd darllen sy'n trafod polisiâu arloesol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y modd y gellid bod wedi defnyddio mentrau bancio amser fel ffordd arall o ymdrin â phroblemau cymdeithasol fel dyledion.

Polisi'r Dreth Gyngor yng Nghymru a'r DU

- 3.2 Mae'r dreth gyngor yn fater datganoledig, gan olygu bod gan Lywodraeth Cymru'r grym i wneud penderfyniadau ynghylch polisi'r dreth gyngor yng Nghymru. Yr awdurdodau lleol, fodd bynnag, sydd yn gyfrifol am bennu, casglu a gorfodi'r dreth gyngor. Mae'r dreth gyngor yn daladwy ar bob eiddo domestig onid yw wedi'i eithrio. Mae amrywiaeth o gynlluniau disgownt, anwybyddu a gostwng ar waith i leihau'r swm sydd i'w dalu mewn rhai

amgylchiadau. Pennir lefelau'r dreth gyngor yn flynyddol gan awdurdodau lleol, ac fe'u codir yn unol â bandiau prisio. Mae'r dreth gyngor yn cynnwys dwy elfen sylfaenol: mae'n seiliedig yn rhannol ar werth yr eiddo dan sylw, ac yn rhannol ar nifer yr oedolion sy'n agored i'r dreth ar yr aelwyd, a'u hamgylchiadau. Mae'r gydran gwerth eiddo yn seiliedig ar werth eiddo unigolyn **o gymharu** ag eiddo arall yn yr ardal leol. Gweinyddir y dreth gyngor yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a nodir yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (1992 ac wedi hynny)

- 3.3 Ceir rhai pwerau'n gysylltiedig â gorfodi dyledion nad ydynt wedi'u datganoli. Cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth sy'n nodi safonau cenedlaethol ar gyfer gorfodi dyledion, gan gynnwys gorfodi'r dreth gyngor (Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd); Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2014). Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu y gellid bod angen defnyddio dangosyddion cytunedig ar gyfer amgylchiadau bregus, a darparu mecanweithiau clir a chyson er mwyn cyfeirio achosion yn ôl i sylw awdurdodau lleol.
- 3.4 Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi lunio canllawiau i gynghorau lleol ar arfer da wrth gasglu ôl-ddyledion y dreth gyngor yng nghyd-destun y dirwasgiad a'r hinsawdd ariannol anodd (Llywodraeth Cymru, 2009).² Datblygwyd y ddogfen arfer da mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Mae'n rhoi arweiniad ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth gydweithio i atgyfnerthu partneriaethau lleol. Mae'n argymhell y gudd-wybodaeth y dylai awdurdodau ei hystyried cyn cymryd camau gorfodi, fel amgylchiadau personol yr unigolyn. Mae'r canllaw yn cynghori y dylai strategaethau gorfodi gynnwys meini prawf ynghylch yr hyn a ystyrir yn achos bregus, a'r dulliau gorau ar gyfer ymdrin ag unigolion bregus.
- 3.5 Ym mis Ebrill 2013, penderfynodd Llywodraeth y DU ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor (BDG) a chyflwyno gostyngiad o 10 y cant i'r cyllid ar gyfer trefniadau yn lle'r budd-dal hwnnw. Trosglwyddodd Llywodraeth y DU y cyfrifoldeb dros ddatblygu cynlluniau newydd er mwyn helpu pobl i dalu biliau'r dreth gyngor i Awdurdodau Lleol yn Lloegr. Trosglwyddodd gyllid hefyd - yn cynnwys gostyngiad o 10% - i Weinyddiaethau Datganoledig Cymru a'r Alban, gan ddisgwyl y byddent hwythau'n datblygu cynlluniau newydd. Sicrhawyd

²Ar gael yn <http://gov.wales/topics/localgovernment/publications/ctrecession/?skip=1&lang=cy>

amddiffyniad llwyr i bensynwyr yn Lloegr (Y Sefydliad Polisi Newydd; Sefydliad Joseph Rowntree, 2016).

- 3.6 Darparodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn i awdurdodau lleol yn ychwanegol at y gyllideb sefydlog a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU, i ddarparu £244 miliwn i gefnogi gweinyddu CGDG ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithredu'r trefniadau ariannu hyn. Roedd y Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen - 2016-2021*, yn cynnwys dyhead i sicrhau bod y dreth gyngor yn decach, fel bod pobl sy'n byw mewn eiddo isel neu gymedrol ei werth yn talu llai. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o drefniadau CGDG.
- 3.7 Mabwysiadodd awdurdodau lleol yn Lloegr ddulliau gwahanol. O fis Ebrill 2017, mae 37 o awdurdodau (11%) yn parhau i ddarparu lefel y cymorth oed ar gael o dan system flaenorol Budd-dal y Dreth Gyngor (Cymhorthdal y Dreth Gyngor, 2017). Mae'r mwyafrif ohonynt, 264 o awdurdodau (80%) wedi cyflwyno tâl isafswm; cyfran o swm y dreth gyngor y mae'n rhaid i bob preswilydd oed gwaith ei thalu waeth beth fo'i incwm. Mae'r newidiadau hyn, a sawl newid arall i'r cymhorthdal, wedi cael effaith andwyol ar 2.2 miliwn o deuluoedd. O'r teuluoedd hyn, roedd 1.5 miliwn yn byw mewn tlodi (wedi'i fesur ar ôl costau tai) ac 1.8 miliwn yn aelwydydd heb waith (JRF, 2014). Dengys ymchwil mai'r effaith ariannol fwyaf cyffredin ar ymgeiswyr Cymhorthdal y Dreth Gyngor yn Lloegr o safbwynt arian, oedd wynebu cynnydd cyfartalog o £50-£100 yn swm y dreth gyngor yr oedd yn rhaid iddynt ei dalu yn 2013-14. Cododd y cynnydd hwn i £150-200 yn 2016-17, o gymharu â'r hyn y byddent wedi'i dalu drwy system Budd-dal y Dreth Gyngor. Mae ymchwil hefyd wedi dangos mai mewn ardaloedd yn Lloegr lle cyflwynwyd taliadau isafswm yn rhan o'u CGDG y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn ôl-ddyledion (JRF, 2014).

Mae'r sector cynghori ar ddyled a rheoli arian dielw hefyd wedi gweld niferoedd cynyddol o gleientiaid sy'n gofyn am gymorth ynghylch ôl-ddyledion y dreth gyngor. Mae StepChange yn amcangyfrif bod dyledion problemus yn costio £8.3 biliwn i economi'r DU, o ystyried y sgil-effeithiau ar unigolion a'u teuluoedd a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau gan lywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol, a'r ffordd y mae'n arafu cynhyrchiant sy'n amharu ar yr economi ehangach. Mewn ymchwil a gynhaliwyd gan yr elusen dyledion, StepChange, nodwyd bod gan 28 y cant o gleientiaid a geisiai eu gwasanaethau ôl-ddyledion treth gyngor yn 2014, o gymharu â 10 y cant yn unig o gleientiaid yn 2010

(StepChange 2016). Yng Nghymru, dywed Cyngor ar Bopeth mai dyledion y dreth gyngor oedd y broblem fwyaf yn gysylltiedig â dyled a gafwyd yn 2014-15 (Cyngor ar Bopeth 201[^]).

- 3.8 Mewn astudiaethau diweddar sy'n archwilio achosion a goblygiadau caledi ariannol mewn cymunedau amddifadus (Curl a Kearns, 2015), trafodir pensaernïaeth ariannol newidiol y DU yn dilyn y dirywiad economaidd a'r toriadau wedi hynny yn y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn ystod 2010-11 a 2014-15, yr oedd dros draean ohonynt yn doriadau i'r gyllideb les (Elliot a Wintour, 2010).
- 3.9 Mae ymchwil wedi cadarnhau mai awdurdodau amddifadus ar draws y DU fydd yn dioddef fwyaf yn sgil diwygiadau lles, sy'n cynrychioli colled sylweddol mewn incwm i economïau lleol ac yn cael effaith gronnus ar wasanaethau, busnesau a chymunedau (Beatty a Fothergill, 2011). Mewn ymchwil a gyflawnwyd gan Llywodraeth Cymru, gwelwyd bod dibyniaeth Cymru ar fudd-daliadau lles yn fwy na dibyniaeth Prydain yn ei chyfanrwydd, gydag 18.4 y cant o oedolion oed gwaith yn hawlio budd-daliadau lles o gymharu â chyfartaledd o 14.5 y cant ledled Prydain. Gwelwyd mai'r prif reswm dros gyfraddau hawlio budd-dal uwch yng Nghymru oedd y gyfran uwch o bobl a oedd yn hawlio budd-dal anabledd a salwch (Llywodraeth Cymru, 2012). Bydd effeithiau llawn y Diwygiadau Lles i raddau helaeth yn dibynnu ar gryfder a chydnerthedd yr economi ehangach, a'r graddau y bydd pobl yn newid eu hymddygiad mewn ymateb i ostyngiadau i'w budd-daliadau. Fodd bynnag, mewn dadansoddiad a gomisiynwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles, ac a gynhaliwyd gan yr IFS yng Nghymru (Adam a Phillips, 2013) amcangyfrifwyd y byddai aelwydydd yng Nghymru yn dioddef colledion incwm uniongyrchol o oddeutu £590 miliwn yn 2014-15. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu £7.26 fesul teulu, fesul wythnos ar gyfartaledd, a thua 1.5% o'u hincwm blyneddol net.
- 3.10 Mae Adam a Phillips hefyd yn awgrymu y bydd y newidiadau hyn i drethi a budd-daliadau yn annheg, gan y byddant yn cymryd mwy yn ôl cyfran o grwpiau incwm is nag o grwpiau incwm uwch (ar wahân i'r grŵp incwm uchaf un). Mae'n debygol y byddant hyd yn oed yn fwy annheg yng Nghymru. Credir mai'r rheswm am hyn yw'r gyfran o'r boblogaeth sy'n hawlio budd-daliadau i'r di-waith a dosbarthiad aelwydydd incwm isel yng Nghymru.
- 3.11 Nodir yn y canfyddiadau hefyd y bydd diwygiadau lles yn cael effaith bellgyrhaeddol ar hawlwr budd-daliadau ac, yn sgil hynny, ar y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig sy'n eu cefnogi. Canfu ymchwil flaenorol ar ran Llywodraeth Cymru fod y rhai a oedd yn derbyn

Budd-dal y Dreth Gyngor yn fwyaf tebygol o wario'r incwm hwnnw ar gostau byw beunyddiol a thanwydd, gan awgrymu bod yr arian yn cael ei wario'n lleol ac yn cyfrannu at economïau lleol (Llywodraeth Cymru, 2010). Gellid dadlau y gallai unrhyw doriadau yng Ngostyngiadau'r Dreth Gyngor gael effaith andwyol ar yr economi leol. Mae Adam a Phillips (2013) yn rhagweld effeithiau pellach posib ar iechyd y boblogaeth, ar fynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau tai, ar ddeilliannau addysgol ac ar ddatblygiad economaidd. Mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol ar dlodi, cynhwysiant ariannol, cyngor ar fudd-daliadau/ddyledion (yr effeithir arno hefyd gan newidiadau Llywodraeth y DU i gymorth cyfreithiol), trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig a chynhwysiant digidol yn effeithio ar wasanaethau a chyllidebau lleol.

- 3.12 Disgwylir i Lywodraeth Cymru brofi cynnydd yn y galw am wasanaethau fel gwybodaeth a hawliau lles, cymorth i hawlio ar-lein, cyngor ar ddyledion ac adennill dyledion, achosion o droi pobl allan o'u tai, cymorth wrth gyllidebu a cheisiadau am fudd-daliadau a chymorth arall ariannol. Ceir hefyd effeithiau uniongyrchol ar awdurdodau lleol yn deillio o'r newidiadau sydd i'w gweithredu i'r Budd-dal Tai o dan Gredyd Cynhwysol.
- 3.13 Mae'n bosibl y ceir effaith ddifrifol a chronnus yn yr awdurdodau mwyaf amddifadus, gyda gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu'r toriadau mwyaf (mewn termau absoliwt a chymharol) a llai o arian, neu ddiffyg cymorth amgen, gan gymunedau amddifadus sydd yn lleiaf abl i ymdopi. 2013). Mwy, nid llai, yw'r angen am wasanaethau cymorth mewn ardaloedd amddifadus, gydag astudiaethau'n canfod bod dros draean o grwpiau neilltuol o aelwydydd mewn ardaloedd amddifadus yn ei chael hi'n anodd talu costau sylfaenol y dreth gyngor, tanwydd a dillad. Gan hynny, mae angen targedu cymorth at ardaloedd neilltuol a grwpiau neilltuol er mwyn helpu pobl i reoli eu cyllideb ac ymdopi ag anawsterau ariannol a allai gael eu hachosi gan amddifadedd neu gan sioc economaidd, fel ton o ddiswyddiadau mewn sector neilltuol neu ddigwyddiad trawmatig ym mywyd teulu neilltuol.
- 3.14 Mae'r canfyddiadau a gafwyd o'r ymchwil a gomisiynwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles yn dangos yn glir bod effaith diwygiadau lles yn amrywio ar draws ardaloedd awdurdod lleol. Er y bydd colledion incwm cyfartalog yn amrywio'n helaeth yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, amcangyfrifir mai'r golled flynyddol gyfartalog fesul oedolyn oed gwaith yng Nghastell-nedd Port Talbot, Blaenau

Gwent a Merthyr Tudful, yw oddeutu £600 yn 2015-16 o gymharu â chyfartaledd o £500 i Gymru yn ei chyfanrwydd (IFS, 2013).

- 3.15 Mae bron i chwarter y boblogaeth 16-64 yn yr ardaloedd hyn yn hawlio budd-daliadau oed gwaith, sef y gyfran uchaf yng Nghymru. Ceir effaith negyddol anghymesur ar yr ardaloedd hyn, a hynny i raddau helaeth oherwydd y modd y caiff budd-daliadau a chredydau treth eu huwchraddio, y cyfyngiad amser ar y Lwfans Ceisio Gwaith cyfrannol, yn sgil cyflwyno Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) a'r meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol. Mae'r cyfraddau cymharol uchel o hawlwr budd-dal oed gwaith, yn enwedig hawlwr budd-dal anabledd a salwch, a'r gyfran uchel o stoc tai rhent cymdeithasol yn yr ardaloedd hyn yn peri eu bod yn arbennig o agored i effeithiau negyddol sy'n deillio o ddiwygiadau lles. Ar ben arall y raddfa, mae effaith y diwygiadau lles yn llai ar gyfartaledd ym Mhowys, Gwynedd a Cheredigion, sy'n adlewyrchu'r gyfran sylweddol is o hawlwr budd-dal 16-64 oed, ychydig dros ddeg y cant o'r boblogaeth, sydd yn byw yn yr ardaloedd hyn.
- 3.16 Mae'n bwysig nodi bod dadansoddiad arall o effaith Diwygiadau Lles yn cyfrifo colledion absoliwt mewn incwm fel cyfran o gyfanswm y colledion a ysgwyddwyd gan bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Y mae felly'n rhoi safbwynt gwahanol ynghylch effeithiau amcangyfrifedig y diwygiadau hyn. Mae'n debygol mai Caerdydd (£103 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£81 miliwn) ac Abertawe (£75 miliwn) yw'r awdurdodau lleol poblog iawn hynny yr amcangyfrifir eu bod yn dioddef y cyfanswm mwyaf o golledion mewn incwm, yn unol â'u cyfran o'r boblogaeth oed gwaith. O fabwysiadu'r dull hwn, mae Merthyr Tudful (£22 miliwn), Ynys Môn (£19 miliwn) a Cheredigion (£18 miliwn) ymhlith ardaloedd awdurdod lleol lleiaf Cymru ar sail eu cyfran o'r boblogaeth, gyda phob un yn cynrychioli 2-3 y cant o gyfanswm Cymru.

Effaith Diwygiadau Lles ar grwpiau bregus.

- 3.17 Hefyd, mae angen cefnogi mathau neilltuol o aelwydydd. Disgwylir mai teuluoedd ar incwm isel-canolig fydd yn dioddef y colledion cyfartalog mwyaf yn sgil diwygiadau lles. Yn ôl math o deulu, mae hyn yn golygu mai teuluoedd heb waith a chanddynt blant sydd yn debygol o brofi'r colledion cyfartalog mwyaf o gymharu ag aelwydydd sy'n cynnwys pensïynwyr ac aelwydydd oed gwaith heb blant (IFS, 2013). Ar ben hynny, amcangyfrifir mai'r aelwydydd

tlotaf ac ynddynt blant sy'n colli'r gyfran fwyaf o'u hincwm (Jenkins et al., 2011; CPAG, 2012). Dylid rhoi sylw arbennig i rieni unigol nad ydynt yn gweithio (Brewer et al., 2011) a chyplau heb waith a chanddynt blant, y mae disgwyl iddynt deimlo effaith ariannol anghymesur yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol. Bydd hyn hefyd yn debygol o gael effaith arbennig o wael ar deuluoedd â phlan dan bump a theuluoedd â mwy na dau o blant (Llywodraeth Cymru, 2012).

- 3.18 Mae ymchwil a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2016) yn ychwanegu at y darlun newidiol hwn. Mae'n dangos bod teuluoedd incwm canolig â phlant bellach yn debycach i deuluoedd tlawd nag yr oeddent yn y gorffennol. Y mae hanner ohonynt bellach yn rhentu eu cartrefi yn hytrach na bod yn berchen arnynt, ac er bod mwy o bobl mewn gwaith nag erioed o'r blaen, mae incymau aelwydydd tlawd yn fwyfwy sensitif i'r hyn sy'n digwydd yn y farchnad lafur. O ystyried y newidiadau i'r farchnad lafur, rhybuddiodd Cyngres y Undebau Llafur (TUC) y bydd teuluoedd â phlant sy'n cynnwys oedolyn sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus hefyd yn profi tlodi cynyddol rhwng 2010 a 2015 oherwydd newidiadau i gredydau treth, diwygiadau budd-dal a rhewi cyflogau'r sector cyhoeddus.
- 3.19 Canfu Curl a Kearns (2015) fod cyfraddau fforddiadwyedd uchel a chynyddol, anawsterau'n gysylltiedig â chostau tanwydd, y dreth gyngor a dillad, yn cael effaith neilltuol ar aelwydydd sy'n cynnwys oedolion anabl, tanfeddianwyr a theuluoedd sy'n cynnwys gweithwyr rhan-amser. Dengys astudiaethau hefyd fod argaeledd a chynaliadwyedd tai yn debygol o achosi problemau i deuluoedd mawr, oherwydd y cap ar fudd-daliadau, ynghyd â chyfres o newidiadau i reoliadau budd-dal tai (Shelter, 2011).
- 3.20 Mae ymchwilwyr hefyd wedi ceisio deall effaith diwygiadau lles ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. At ei gilydd, mae tystiolaeth yn awgrymu bod diwygiadau lles yn fwy tebygol o effeithio ar fenywod, gyda chapiau ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oed gwaith, credydau treth a budd-dal plant, ynghyd â sgil-effeithiau'r Lwfans Byw i'r Anabl, diwygiadau o ran hawlwr Lwfans Gofalwyr a'r estyniad ar Rwymedigaethau Rhieni Unigol yn cael effaith andwyol ar fwy o fenywod na dynion. Mae rhieni unigol nad ydynt yn gweithio (y mae oddeutu 90 y cant ohonynt yn fenywod) ymhlith un o'r grwpiau fydd yn ysgwyddo'r colledion mwyaf o ran incwm.
- 3.21 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi creu rhywfaint o amddiffyniad i grwpiau anabl drwy esemptiadau a thrwy gynyddu taliadau tai dewisol. Serch hynny, ceir effeithiau

sylweddol ar bobl anabl yng Nghymru. Os ystyried y lefel cymharol uchel o ddibyniaeth ar fudd-daliadau anabledd a salwch yng Nghymru, mae hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar nifer fawr o bobl anabl. Mae gofalwyr pobl anabl hefyd yn debygol o brofi colledion incwm yn sgil symud o'r Lwfans Byw i'r Anabl i'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), a chyflwyno Credyd Cynhwysol fydd yn golygu na fydd gofalwyr ond yn gallu derbyn budd-dal gofalwr neu fudd-dal anabledd, yn hytrach na'r ddau. At ei gilydd, bydd Credyd Cynhwysol yn golygu y bydd y cynnydd cymharol yn incwm aelwydydd pobl anabl yn llai na'r cynnydd ar gyfer yr holl aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

- 3.22 Mae diwygiadau lles yn cael effaith gymysg ar wahanol grwpiau oedran. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau o ran lles yn berthnasol i fudd-daliadau oed gwaith, gan olygu nad ydynt yn effeithio rhyw lawer ar bensiynwyr. Mae ymchwil yn awgrymu y bydd mwy o bobl ifanc o oed gwaith na phobl hŷn o oed gwaith yn dioddef yn sgil rhai o'r diwygiadau, fel diddymu amodau cymhwyso Yswiriant Gwladol ESA 'ieuenctid' dewisol, a chodi'r trothwy oedran ar gyfer y gyfradd rhannu llety. Fodd bynnag, bydd mwy o bobl hŷn o oed gwaith na phobl iau o oed gwaith yn dioddef yn sgil diwygiadau eraill, fel y diwygiadau Lwfans Byw i'r Anabl, Budd-dal Plant a chyfyngu ar hyd y Lwfans Cymorth Cyflogaeth. Ar gyfartaledd, pobl hŷn o oed gwaith fydd yn gweld eu hincwm yn gostwng o dan y Credyd Cynhwysol.
- 3.23 Mae rhai diwygiadau lles, fel y cap ar fudd-dal aelwydydd, yn debygol o gael effaith anghymesur ar rai hawlwr sy'n ddu neu o leiafrifoedd ethnig (BME) oherwydd nodweddion rhai o'r aelwydydd hynny (ee, ceir unedau teulu mwy ymhlith rhai grwpiau BME). Mae diwygiadau eraill, fel y newidiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl, yn fwy tebygol o gael effaith andwyol ar hawlwr gwyn.
- 3.24 Dadansoddiad ystadegol o effaith newidiadau Llywodraeth y DU i'r gyfundrefn sancsiynau budd-dal ers ei gweithredu yn hwyr yn 2012. Yn ystod 2012/13 gwelwyd cynnydd yn nifer y penderfyniadau anffafriol ynghylch cosbau'r Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) fel canran o nifer yr hawlwr (cynnydd o 1.9 y cant, o gymharu ag 1.5 y cant ledled Prydain). Dros yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd triphlyg bron yn nifer y penderfyniadau anffafriol ynghylch cosbau'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) (cynnydd o 77 i 301 o sancsiynau).
- 3.25 Ychydig o arwyddion a geir mewn gwaith ymchwil o ddiffyg cydymffurfio bwriadol â gwasanaethau neu raglenni cyflogaeth. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai gwybodaeth wael, diffyg dealltwriaeth ac ymddygiad anfwriadol, fel tuedd i anghofio, yw'r rhesymau mwyaf

tebygol dros roi sancsiwn. Yn ôl adroddiadau, rhwystrau personol ac ymarferol, fel problemau gyda thrafnidiaeth, gofal plant, ffyrdd o fyw caotig, digartrefedd, iechyd ac anabledd, camddefnydd o sylweddau a thrais domestig yw'r rhesymau eraill pam bod hawlwyd yn derbyn cosbau. Mae'r unigolion hynny, yn aml y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, yn arbennig o agored i sancsiynau.

- 3.26 Nid oes rhyw lawer o astudiaethau sy'n mesur canlyniadau hirdymor sancsiynau budd-dal, ond mae'r dystiolaeth brin sydd ar gael yn awgrymu bod y rhai sy'n gadael y gyfundrefn fudd-daliadau'n gynnwys oherwydd cosb yn aml yn cael swyddi o safon is o ran sefydlogrwydd. Gallai hawlwyd, er enghraifft, deimlo eu bod yn gorfod derbyn swydd ran-amser, dros dro neu ar gyflog is er mwn lliniaru effaith cosb, ac mae'r rhai sy'n derbyn y swyddi hynny yn fwy tebygol o'u gadael ac o ddychwelyd i fod yn ddi-waith.
- 3.27 Mae effeithiau negyddol cosbau yn y tymor hir hefyd yn cynnwys dyledion a chaledi ariannol, trosedd, diffyg lles emosiynol a chorfforol, a'r sgil-effeithiau ar berthnasau a ffrindiau. Dangoswyd hefyd fod cosbau'n cael effaith gymysg ar gymhelliant hawlwyd i geisio swydd, gan eu hannog i ganfod gwaith a bod yn rhwystr i hynny. Mynegai rhai hawlwyd, er enghraifft, eu bod yn fwy awyddus i ganfod swydd ynghynt fel na fyddai angen iddynt mwyach ddibynnu ar fudd-daliadau, na wynebu'r risg o gosbau. Roedd hyn yn gwrthannog rhai hawlwyd eraill, fodd bynnag, oherwydd eu bod yn ofni gwneud cais am swydd nad oedd yn addas, neu nad oeddent am ei gwneud. Pe baent wedyn yn terfynu'r swydd honno, byddent yn derbyn cosb gan leihau'r swm o arian yr oedd ganddynt i'w wario ar weithgarwch canfod swydd.

Dyled y dreth gyngor yng Nghymru a'r DU

- 3.28 Ceir cydberthynas glir rhwng lefelau Cymhorthdal y Dreth Gyngor a ddarperir mewn awdurdodau lleol yn Lloegr a lefel ôl-ddyledion y dreth gyngor yn yr ardaloedd hynny. Mewn ymchwil yn yr Alban â buddiolwyr gwasanaethau cyngori ar ddyledion, gwelwyd bod cleientiaid ag ôl-ddyledion y dreth Gyngor a oedd yn gofyn am gyngor ar ddyledion yn fwy tebygol o berthyn i grwpiau o bobl fregus, sef teuluoedd â phlant, menywod, teuluoedd un rhiant, rhai sy'n rhentu eu cartref ac yn gweithio'n rhan-amser. Canfu'r astudiaeth hefyd nad oedd rhyw lawer o wahaniaeth rhwng incymau cleientiaid ag ôl-ddyledion ac incymau'r rhai

heb ôl-ddyledion, ond ei bod hi'n debygol bod y rhai ag ôl-ddyledion fwy o alldaliadau. Credwyd bod hyn yn cael ei ysgogi gan ffactorau fel y ffaith bod cleientiaid yn fwy tebygol o fod â phlant ac o rentu gan landlord preifat, y mae'r naill a'r llall yn cael effaith sylweddol ar wariant aelwydydd (StepChange, 2016).

- 3.29 Yn ychwanegol at oblygiadau economaidd, mae ymchwilwyr wedi canfod bod polisi economaidd hefyd yn gallu cael effaith ddifrifol ac anfwriadol ar iechyd y cyhoedd, ac yn nodi bod diweithdra, colli incwm a dyledion cynyddol aelwydydd yn gallu achosi bygythiadau ychwanegol i iechyd a lles meddyliol unigolion (Karanikolos et al., 2013). Mae astudiaethau iechyd hydredol wedi dangos bod traean o rieni sengl sy'n gweithio'n rhan-amser, ymhlith grwpiau bregus neu grwpiau sy'n wynebu risg, yn ei chael hi'n anodd bodloni ymrwymïadau'r dreth gyngor, ac roedd teuluoedd lle'r oedd un oedolyn yn gweithio ac aelwydydd a oedd yn cynnwys gweithwyr rhan-amser yn ei chael hi'n anodd talu'r dreth gyngor (Curl a Kearns, 2015). Dros amser, ceir cysylltiad amlwg rhwng anhawster cynyddol i dalu'r dreth gyngor (yn ogystal â thanwydd a bwyd) a phroblem iechyd meddwl. Dengys ymchwil i effaith gronns toriadau i fudd-daliadau a gostyngiadau mewn gwasanaethau i bobl anabl (White, 2013), fod hynny'n achosi unigedd a dirywiad iechyd meddwl i bobl anabl yn ogystal â cholled i incwm a chynnydd yn y baich a ysgwyddir gan eu gofalwyr (Wood, 2012).
- 3.30 Mae ymchwil a gynhaliwyd â buddiolwyr gwasanaethau cyngori ar ddyledion yn yr Alban yn cadarnhau'r canfyddiadau hyn. Yn ôl Elusen Dyledion StepChange (2016), mae pwysau cynyddol dyledion yn aml yn gysylltiedig â phroblemau eraill personol ym mywydau cleientiaid, gyda mwy na thraean yn dioddef straen neu salwch meddwl. Roedd cleientiaid StepChange hefyd yn ymdopi â phwysau ariannol wrth ddelio â salwch corfforol neu anabledd, ac roedd rhai wedi profi digwyddiad trawmatig yn ddiweddar, fel profedigaeth o fewn y teulu. Er nad oes modd casglu ai achos ynteu ganlyniad sydd dan sylw, mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod anawsterau ariannol yn cyfrannu at waethygu salwch meddwl, hyd yn oed os yw hefyd yn wir fod pobl â salwch meddwl yn tueddu i brofi mwy o anawsterau ariannol (Curl a Kearns, 2015).
- 3.31 Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth, fodd bynnag, yn awgrymu y gallai'r sefyllfa yng Nghymru fod yn arbennig o gymhleth. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal hawliadau'n llawn o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, dywed Cyngor ar Bopeth fod

ceisiadau am gyngor dyledion yng Nghymru wedi cynyddu; yn ystod 2015-16 cawsant 7 y cant yn fwy o ymholiadau ynghylch ôl-ddyledion y dreth gyngor nag yn 2014-15 (Cyngor ar Bopeth Cymru, 2016). Maent yn nodi nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at gynydd yn nyledion y dreth gyngor, fel incwm isel buddiolwyr neu brofi 'siociau ariannol', fel profedigaeth o fewn y teulu neu golli swydd.

- 3.32 Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at nifer o ffactorau eraill cysylltiedig, fel gwaith sy'n afreolaidd, sydd heb sicrwydd neu ar gyflog isel, newid y Gostyngiad i'r Dreth Gyngor am eu bod yn gweithio ac yn ddi-waith am yn ail, oedi cyn talu budd-daliadau a chosbau, ansicrwydd a dryswch ynghylch y system fudd-daliadau a'r ffaith nad ydynt yn gallu rhoi'r flaenoriaeth i ad-dalu dyledion, yn ogystal â sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael. Cyfeiriodd cynghorwyr dyledion hefyd at y ffaith bod achosion yn fwyfwy cymhleth, gyda niferoedd cynyddol o gleientiaid yn gofyn am gyngor ynghylch hen ddyledion y dreth gyngor, yn ogystal ag ôl-ddyledion cyfredol. Yr oedd teimlad nad oedd cleientiaid ond fel arfer yn gofyn am gyngor a chefnogaeth ar ôl i'r sefyllfa droi'n argyfwng (yn dilyn camau gorfodi).
- 3.33 Mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru (2016), cyfeirir at ddau brif ffactor sy'n cyfrannu at gynyddu lefelau'r dreth gyngor. I ddechrau, yr oedd pryder eang ynghylch priodoldeb camau gorfodi i gasglu mân ddyledion, yn enwedig lle'r oedd buddiolwyr yn cyfeirio at waith ar gyflog isel, gwaith afreolaidd a gwaith heb sicrwydd fel y rhesymau mwyaf cyffredin dros ôl-ddyledion y dreth gyngor. Cyfeiriai cynghorwyr yn aml at y canfyddiad bod awdurdodau lleol yn dibynnu'n ormodol ar asiantau gorfodi, a bod hynny'n ffactor pwysig sy'n cyfrannu at gynyddu ôl-ddyledion y dreth gyngor, a mynegwyd pryder ynghylch y defnydd o asiantau gorfodi i adennill symiau cymharol fach o ddyled. Yn yr un modd, canfu Elusen Dyledion StepChange (2016) fod ffioedd yn cyfrannu at ddyledion problemus cleientiaid, er bod deddfwriaeth wedi gosod cap ar ffioedd gorfodi. Nododd rhai cynghorwyr welliannau ers cyflwyno'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Asiantau Gorfodi (2014) sy'n nodi strwythur safonedig i godi ffioedd am gamau gorfodi³. Fodd bynnag, mynegodd rhai a deimlai fod y sefyllfa wedi gwaethygu bryderon ynghylch amharodrwydd awdurdodau i ailberchnogi dyled ar ôl ei throsglwyddo i asiantau gorfodi. Mae ymchwil i arferion benthyca (Elusen Dyledion StepChange, 2016) yn awgrymu ei bod hi'n bosibl nad

³Ceir mwy o wybodaeth am y strwythur ffioedd yma: <https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/debt-and-money/action-your-creditor-can-take/bailiffs/bailiffs-fees-and-charges/fees-bailiffs-can-charge/>

yw asiantaethau gorfodi yn cydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Asiantau Gorfodi (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014) mewn rhai achosion, ac y gallai dyledion problemus fod yn waethygu yn sgil rhai arferion gorfodi.

- 3.34 Yn ail, mae cynghorwyr yn rhannu pryderon nad yw awdurdodau lleol yn ystyried nac yn rhoi ystyriaeth i unigolion a allai gael eu hystyried yn fregus. Yn ôl Cyngor ar Bopeth Cymru (2016), nid oedd 49 y cant o gynghorwyr dyledion yn cytuno bod eu hawdurdod lleol yn dda am adnabod cleifion a allai fod yn fregus *cyn* mynd ar drywydd camau gorfodi. Cyfeiriodd cyfran fawr o gynghorwyr (43 y cant) hefyd at ddiffyg parodrwydd ar ran eu hawdurdod lleol i ailberchnogi dyledion, hyd yn oed ar ôl canfod bod y cleient yn fregus. Ymhlith y cynghorwyr hynny a nodai fod prosesau ar waith, yr oedd teimlad bod y dulliau ar gyfer canfod ac ymdrin ag unigolion bregus yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Roedd cynghorwyr yn amlwg yn fwy beirniadol ynghylch dulliau asiantaethau gorfodi o ymdrin ag achosion bregus, gan ddweud bod eu polisïau yn fwy cul a'u bod yn llai parod i dderbyn tystiolaeth o fregusrwydd. Ymddengys fod ymchwil a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (2014) yn cefnogi'r pryderon hyn, gan ganfod bod dyledion y dreth gyngor yn cael effaith andwyol anghymesur ar bobl â nodweddion bregus, a bod y bobl hynny'n ei chael hi'n fwy anodd herio arferion gwael.
- 3.35 O ran y prosesau casglu ac adennill a weinyddir gan awdurdodau lleol, teimlai cynghorwyr dyledion fod dryswch cyffredinol ynghylch y broses o dalu'r dreth gyngor, a dealltwriaeth wael o oblygiadau peidio talu. Ystyriai cynghorwyr fod trefniadau awdurdodau lleol i ddarparu a hyrwyddo gwybodaeth a chynghor yn wael, a bod mynediad at gymorth mwy rhyngbersonol ac ymarferol yn anghyson. Mae'r farn yn amrywio ynghylch a yw prosesau casglu ac adennill y dreth gyngor wedi gwella yn sgil dylanwad deddfwriaeth a safonau cenedlaethol (Cyngor ar Bopeth, 2016). Ar y cyfan, teimlai cynghorwyr fod ymddygiad gwael asiantau gorfodi, yn enwedig o ran ystyried cynlluniau ad-dalu fforddiadwy, a diffyg eglurder ynghylch yr hyn a ystyrir yn amgylchiadau bregus, yn parhau i fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at hyn (StepChange, 2016).
- 3.36 Mae hyn yn groes i'r farn a gafwyd gan CIVEA (y Gymdeithas Gorfodi Sifil) a gynhaliodd arolwg o 104 o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr. Eu canfyddiad hwy oedd bod y diwygiadau o dan y rheoliadau *Cymryd Rheolaeth Dros Nwyddau (Ffioedd)* (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014) wedi achosi llai o gwynion (llai na 0.01 y cant o

orchmynion a atgyfeiriwyd a arweiniodd at gŵyn a gefnogwyd) a gwelliant o ran safonau a phroffesiynoldeb (adroddwyd gan 96 y cant o'r awdurdodau a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg).

Heriau

- 3.37 Yn 2012, comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad o Wasanaethau Cyngtori i edrych ar y sector cyngtori dielw ac ar y gwasanaethau gwybodaeth, cyngtori ac arwain a ddarperir gan y sectorau preifat a chyhoeddus. Gwnaed hynny yng nghyd-destun toriadau sylweddol Llywodraeth y DU mewn Cymorth Cyfreithiol ar gyfer y Gyfraith Lles Cymdeithasol o fis Ebrill 2013, dirywiad economaidd, a chynnydd yn y galw am wasanaethau. Cyhoeddwyd yr Adolygiad yn 2013. Mewn ymateb i'r argymhellion, sefydlodd Llywodraeth Cymru Rwydwaith Cyngtori Cenedlaethol (RhCC) ym mis Mawrth 2015. Mae'r RhCC yn rhoi arweiniad i Lywodraeth Cymru ar ofynion polisi er mwyn gwella mynediad at wasanaethau gwybodaeth a chynghori o ansawdd da ym maes cyfraith lles cymdeithasol.
- 3.38 Mae ymchwil ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, 2017)⁴, a gynigiwyd gan y RhCC, yn rhan o weledigaeth un dull strategol i ddarparu cyngor ynghylch lles cymdeithasol. Nod yr ymchwil yw amcangyfrif lefel yr angen yn lleol am gymorth cyffredinol ac arbenigol ynghylch chwe thestun lles cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod hi'n bwysig i'r amcangyfrifon fod yn annibynnol ar y ddarpariaeth gynghori gyfredol, ac i gynnwys anghenion cudd ac anghenion a fynegir. Mae ⁵tri maes traddodadwy lle ceir problemau yn uniongyrchol berthnasol i'r gwaith ymchwil hwn. Budd-daliadau Lles, Dyledion a Defnyddwyr a Chyllid (gan gynnwys canllawiau ariannol). Canfyddir yn yr ymchwil fod cyfraddau arbennig o uchel o broblemau dyledion i'w cael yn Wrecsam, tra bo cyfraddau uchel o broblemau yn gysylltiedig â budd-daliadau, cyflogaeth, dyledion a defnyddwyr a chyllid i'w cael yn Nhorfaen. Mae'n rhoi syniad ynghylch yr angen am gyngor ataliol ar ddyledion ac yn dangos mai yng Nghaerdydd, Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Wrecsam a Sir y Fflint y ceir yr angen mwyaf.

⁴Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/modelling-need-advice-social-welfare-topics/?skip=1&lang=cy>

⁵Mae problemau traddodadwy yn cyfeirio at faterion sy'n codi agweddau cyfreithiol neu a allai arwain at achos llys neu fath arall o weithdrefn gyfreithiol (ee, tribiwnlys) os na chânt eu datrys ynghynt (Genn, H & Paterson, A. 2001).

- 3.39 O dan agenda cynhwysiant ariannol gyfredol Llywodraeth Cymru⁶, mae prosiect Cyngor Da, Byw'n Well a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gynhelir gan Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor ar fudd-daliadau penodol i grwpiau targed neilltuol drwy amrywiaeth o ffyrdd. Y nod cyffredinol yw sicrhau cymaint o incwm budd-daliadau i bobl sy'n byw mewn ardaloedd amddifadus yng Nghymru. Nod maes Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Defnydd o Fudd-daliadau Tai (a ariannwyd ers 2012) yw annog mwy o bobl i fanteisio ar hawliadau Budd-dal, a lle bo'n gymwys, i wneud cais am ostyngiadau i'r dreth gyngor. Defnyddir sawl llwybr gwahanol i atgyfeirio cleientiaid: daw rhai ohonynt ar hyd llwybr y lleoliadau iechyd sylfaenol a chymunedol, neu o asiantaethau eraill, tra daw llawer ohonynt drwy atgyfeiriadau mewnol o'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth neu Adviceline Cymru.
- 3.40 Canfu gwerthusiad annibynnol fod dealltwriaeth cleientiaid o'r system fudd-daliadau ac ynghylch sut i gael cymorth yn wael ar y cyfan. Anhawster arall oedd fod cleientiaid fel arfer wedi profi newid diweddar i'w hamgylchiadau personol, fel profedigaeth, cyflwr iechyd a oedd wedi gwaethygu neu golli swydd. Wrth ddelio â'r sefyllfa o argyfwng a fodolai ar y pryd, roeddent yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio ar sicrhau eu hawliau o ran budd-dal. Gwelai cynghorwyr Cyngor ar Bopeth hefyd fod problemau iechyd meddwl yn gallu ei gwneud hi'n anodd rheoli arian a materion ariannol, ac y gallai hynny yn ei dro effeithio ar iechyd meddwl (cadarnhawyd drwy adolygu'r deunydd darllen) Dywedodd rhai aelodau staff Cyngor ar Bopeth fod cyfran fawr o'u cleientiaid yn dioddef problemau iechyd meddwl ac, yn rhai ardaloedd fod tîm BABL yn canolbwyntio ar gynghori cleientiaid â phroblemau iechyd meddwl yn unig.
- 3.41 Y pryderon y cyfeiriai'r cynghorwyr dyledion atynt amlaf oedd pryderon ynghylch newidiadau i'r system les a gweithredu Credyd Cynhwysol, sef ffactorau allweddol a fyddai'n amharu ar allu cleientiaid i dalu'r dreth gyngor yn y dyfodol (Cyngor ar Bopeth, 2016; Elusen Dyledion StepChange, 2016). Roedd y pryderon yn cynnwys oedi cyn i bobl dderbyn eu taliad Credyd Cynhwysol cyntaf, y ffaith bod y rhai a oedd yn gymwys i dderbyn Gostyngiad i'r Dreth Gyngor yn gorfod bod yn ymwybodol o hynny ac yn rhagweithiol a llunio cais ar wahân, terfyn uwch ar gyfer didyniadau uniongyrchol, asiantau gorfodi yn targedu pobl ar ddiwrnodiau talu ac effaith barhaus y tâl tanfeddiannu a'r cynnydd cysylltiedig mewn ôl-ddyledion rhent. Rhannai cynghorwyr hefyd bryderon ynghylch newidiadau posib i

⁶Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/debt/?skip=1&lang=cy>

Gymhorthdal y Dreth Gyngor yng Nghymru yn y dyfodol, a chyfeiriodd llawer at bwysigrwydd gwneud hynny yn y modd cywir er mwyn osgoi sefyllfa lle byddai awdurdodau lleol yn gweld cynnydd yn ôl-ddyledion y dreth gyngor (Cyngor ar Bopeth, 2016).

- 3.42 Pwysleisiodd cynghorwyr pa mor bwysig oedd rhoi addysg ariannol i unigolion cyn gweithredu Credyd Cynhwysol yn llawn, a darparu gwybodaeth ynghylch pwrpas a phwysigrwydd y dreth gyngor, yn fwy cyffredinol (Cyngor ar Bopeth, 2016). Teimlai'r cynghorwyr ei bod hi'n bwysig rhoi cymorth i bobl i'w helpu i gyllidebu a blaenoriaethu gwariant ar yr aelwyd.

Arferion arloesol

- 3.43 O ystyried pryderon cynghorwyr ynghylch fforddiadwyedd y dreth gyngor a gallu unigolion i dalu'r dreth gyngor yng nghyd-destun marchnad lafur mwyfwy heriol a lefelau cynyddol o ddyled defnyddwyr, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol yn rhannu diddordeb mewn arloesi ac arfer gorau. Mae a wnelo un cysyniad arloesol yr oedd yr ymchwil hon yn mynd ati i'w harchwilio â'r posibilrwydd o ddefnyddio banc amser, system dalu ategol sy'n galluogi aelodau gwirfoddol o fanc amser i gyfnewid eu credydau amser, eu gwybodaeth a'u harbenigedd, i'w gwario yn y gymuned leol fel dull o ymdrin â phroblemau cymdeithasol, fel dyled.
- 3.44 Mae banciau amser wedi'u seilio ar y syniad o gydweithio i greu gwerth cymdeithasol, yn bennaf drwy gyfnewid credydau banc amser yn wirfoddol, sydd yn cynrychioli'r oriau a weithiwyd, er budd aelodau'r banc amser. Mae banciau amser yn cynrychioli system sy'n ategol i'r economïau arian safonol. Fodd bynnag, nid oes digon o waith ymchwil sy'n canolbwyntio ar fanciau amser fel cysyniad economaidd.
- 3.45 Nid oes unrhyw ran o'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod cynlluniau amser wedi cael eu treialu fe ffordd o adennill a rhyddhau dyledion drwy gronni gwerth cymdeithasol. Yn lle hynny, mae banciau amser gan amlaf wedi cael eu defnyddio fel dull o ddatblygu cyfalaf cymdeithasol, yn enwedig ymhlith y di-waith a rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol (yr henoed a phobl anabl), fel ffordd o feithrin cynhwysiant, dwyochredd a chydaddoldeb. Yn ôl Valor et al (2017), mae amryw o awduron (Collom, 2008, Kimmel, 2008; Seyfang, 2006) yn cynghori bod bancio amser yn ceisio ymdrin â'r problemau cymdeithasol a gaiff eu creu gan

y system gyfredol: erydiad yr Economi Gofal gan ei bod hi'n amhosib cael swydd lawn a chan fod gwaith di-dâl yn cael ei ystyried yn drosedd ac yn destun dirmyg.

- 3.46 Canfu astudiaeth Seyfang o fanciau amser yn y DU (2003) fod pum prif ysgogiad dros ymuno â chynllun: cyrraedd nodau personol, adeiladu capasiti yn y gymuned, gwella sgiliau, helpu pobl eraill ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol. Ers hynny, mae astudiaethau wedi ceisio cael dealltwriaeth well o'r ffactorau sy'n ysgogi pobl i gymryd rhan yn weithredol ar ôl iddynt ddod yn aelodau.
- 3.47 Tybir bod tri phrif ffactor yn annog pobl i gymryd rhan yn y banc amser: cymhelliant personol, ffactorau economaidd-gymdeithasol fel addysg ac incwm a ffactorau strwythurol fel ymrwymadau eraill a diffyg amser (Garcia-Mainar a Marcuello, 2007). Canfu astudiaeth ansoddol o sefydliadau aelodaeth fod pobl yn ymuno er mwyn gwireddu pedwar math eang o nodau: nodau pwrpasol, cydgefnogol, diddordeb a materol. Roedd nodau pwrpasol yn gysylltiedig â gweithredu ar faterion byd-eang, fel hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol neu drechu tlodi. Mae a wnelo nodau cydgefnogol â gweithredu cymdeithasol a sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol. Mae nodau diddordeb yn cynnwys diddordeb cydol oes mewn pwnc neu safle a gefnogir gan y banc amser. Yn olaf, mae nodau materol yn cyfeirio at fuddion o natur fwy diriaethol, fel derbyn gostyngiadau. Canfu'r astudiaeth mai'r rhai â diddordeb oedd y cyfranogwyr mwyaf brwd, ond ni chynigiwyd unrhyw resymau pam.
- 3.48 Mae rhai astudiaethau, fodd bynnag, wedi dangos bod aelodau'n barod i gynnig gwasanaethau ond yn amharod i ofyn amdanynt (Papaoikonomou a Valor, 2016), a allai olygu nad yw cynlluniau'n llwyddo i sicrhau'r ddwyochredd y bwriedir i fanciau amser ei meithrin. Mae gwaith arall wedi dangos bod cydberthynas rhwng cyfraddau aelodaeth a chyfraddau diweithdra a bod y galw am wasanaethau yn fwy cysylltiedig â dymuniadau ac anghenion (Carnero, Martinez a Sanchez-Mangas, 2015). Canfu ymchwil gan Colum (2011) hefyd fod defnyddwyr ag anghenion economaidd yn cymryd rhan mewn mwy o drafodion.
- 3.49 Gall banciau amser gynnig cyfleoedd gwaith cynhwysol, gan alluogi holl aelodau'r gymuned, gan gynnwys rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, sy'n ddi-waith neu sydd o dan ryw anfantais arall, i gymryd rhan a chael budd ohonynt. Gall bancio amser effeithiol gael dylanwad cadarnhaol mewn meysydd fel economeg llafur, economeg rhanbarthol a chyfrannu at sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol cynaliadwy. Dengys ymchwil y gall

cynlluniau bancio amser fod yn ffordd arbennig o effeithiol o gynnwys aelodau o'r gymuned nad ydynt fel arfer yn gwirfoddoli, ac sydd wedi'u cynrychioli'n llai aml ymhlith y rhai sy'n dewis gwirfoddoli gyda sefydliad gwirfoddol neu o'r Trydydd Sector. Yn wahanol i'r ffurfiau mwy traddodiadol ar wirfoddoli, gall banciau amser gynnig cyfleoedd mwy ffurfiol sydd yn ymddangos yn debycach i gydgyhyrchiant (Tucnik et al., 2016).

- 3.50 Er nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod banciau amser wedi cael eu defnyddio fel dull amgen o ad-dalu dyledion y dreth gyngor, mae'r deunydd darllen yn awgrymu y gallai banciau amser gyfrannu mewn modd cadarnhaol at yr economi rannu leol drwy annog pobl sy'n llai tebygol o wirfoddoli drwy'r dulliau traddodiadol i gymryd rhan.
- 3.51 Mae dirnadaeth o ymddygiad yn faes arall lle ceir arferion arloesol posib. Mae technegau o'r fath wedi llwyddo i gynyddu'r gyfradd ar gyfer cydymffurfio â threthi ar raddfa ehangach. Dangosai treial ym Medway fod defnyddio dulliau marchnata normau cymdeithasol mewn llythyrau treth gyngor yn creu cynnydd o 22 y cant mewn taliadau, a gwelwyd cynnydd o 4 pwynt canran mewn arbrawf yn Lambeth lle defnyddiwyd negeseuon normau cymdeithasol ar filiau (Dirnadaeth o Ymddygiad, 2016; Cyngor Lambeth, 2015).
- 3.52 Fodd bynnag, ni chafwyd cymaint o lwyddiant mewn dau arbrawf rheoli a gynhaliwyd ar hap yng Nghyngor Casnewydd a Chyngor Merthyr Tudful er mwyn ceisio gwella cyfraddau casglu'r dreth gyngor a chynyddu cyfradd y preswylwyr a dalai drwy ddebyd uniongyrchol (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn rhan o'r arbrofion hyn, anfonwyd negeseuon testun i annog pobl i dalu. Mewn un arbrawf, cafwyd cynnydd sylweddol yn y gyfran a dalai drwy ddebyd uniongyrchol i ddechrau, ond dim cynnydd dros y cyfnod llawn. Yn yr arbrawf arall, roedd y rhai a dderbyniai neges destun i'w hannog i dalu yn llai tebygol o dalu nag eraill. Yn ddiddorol, roedd arbrawf negeseuon testun a gynhaliwyd gan Lambeth yn adlewyrchu'r canfyddiad hwn. Ni ddangosai unrhyw effaith yn gyffredinol, ond bod defnyddio negeseuon testun mewn pyllau byr yn creu'r canlyniadau gorau (mae eu heffeithiolrwydd yn lleihau dros amser).
- 3.53 Mae'r canlyniadau cymysg hyn yn amlygu'r anawsterau a geir wrth geisio cynyddu cyfraddau casglu, ac wrth ddeall pa ddulliau a allai fod yn effeithiol, ond yn dangos y gallai cynllunio llythyrau traddodiadol yn arbennig ar gyfer y derbynnydd fod yn fwy effeithiol na defnyddio negeseuon testun.

Crynodeb

- 3.54 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ffactorau sy'n dylanwadu ar fynychder a lefelau dyledion y dreth gyngor yng Nghymru yn amrywio, a gallant ymadweithio'r naill a'r llall mewn ffyrdd cymhleth. Dangoswyd bod diwygiadau lles eang Llywodraeth y DU yn cael effaith negyddol anghymesur ar ardaloedd o amddifadedd ac ar grwpiau o unigolion a allai eisoes gael eu hystyried yn fregus. Mae'r sector cyngor rhad ac am ddim wedi canfod niferoedd cynyddol o unigolion, wedi'u gorgynrychioli yn y grwpiau hyn, ymhlith eu llwythi achosion, ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi â dyledion mwy cymhleth. Er gwaethaf camau Llywodraeth Cymru i gynnal yr hawl am ostyngiadau i'r dreth gyngor yng Nghymru, dengys y dystiolaeth sydd ar gael fod angen gwneud ymchwil bellach i ddeall pa ffactorau lleol yn effeithio ar allu awdurdodau lleol i gasglu ac adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor, a sut mae hynny'n digwydd. Gan hynny, bydd yr ymchwil hon yn ceisio deall polisïau ac arferion awdurdodau lleol o ran adennill dyledion cyngor, gyda ffocws arbennig ar y modd y bydd awdurdodau'n ystyried natur fregus unigolion, ac yn cyfathrebu â rhanddeiliaid ac unigolion, a chydweithio â hwy i adennill ôl-ddyledion. Bydd hefyd yn ceisio barn a syniadau awdurdodau lleol ynghylch sut y mae'r sector yn parhau i ddysgu, ymaddasu ac arloesi er mwyn gwella ac ychwanegu at y trefniadau i gasglu dyledion y dreth gyngor yn y dyfodol.

4. Canfyddiadau

- 4.1 Yn yr adran hon, cyflwynir canfyddiadau o'r cyfweiliadau â'r arbenigwyr refeniw a budd-daliadau o fewn yr awdurdodau lleol. Yn gyntaf, disgrifir negeseuon cyffredinol yr ymatebwyr o fewn eu cyd-destun. Yn ail, eir ati i drafod y dulliau casglu a ddefnyddir gan awdurdodau - cyn cyflwyno gorchymyn dyled, cyn cyflwyno'r canfyddiadau ar gamau gorfodi - ar ôl cyflwyno gorchymyn dyled. Yn drydydd, trafodir y canfyddiadau fel y bônt yn berthnasol i berthnasoedd trydydd parti ag asiantaethau cynghori ar ddyledion ac asiantaethau gorfodi, cyn cloi drwy drafod arferion arloesol cyfredol a safbwyntiau awdurdodau ynghylch heriau'r dyfodol a'r cyfleoedd o'u blaen. Daw'r holl ddyfyniadau gan Staff Refeniw a Budd-daliadau oni nodir fel arall.
- 4.2 Pwysleisiodd yr awdurdodau fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn uchel ar y cyfan; mae'r gyfradd casglu gyfartalog ar gyfer Cymru yn ystod y flwyddyn wedi cynyddu o 96.6 y cant yn 2010/11 i 97.4 y cant yn 2016-17. Pwysleisiwyd hefyd fod mwyafrif yr adnoddau sydd ganddynt ar gael i adennill y dreth gyngor yn cael ei fuddsoddi mewn lleiafswm o achosion; y ganran fechan o unigolion nad ydynt yn talu'n brydlon. Rhannai'r awdurdodau'r farn y gallai'r broses adennill fod yn fwy effeithlon ac yn llai straenllyd, ac y gellid osgoi unrhyw gamau gorfodi, pe bai unigolion yn cysylltu â hwy pan oeddent yn ei chael hi'n anodd talu. Gan amlaf, disgrifiai cyfranogwyr broses a mecanweithiau adennill a oedd yn ddibynnol i raddau helaeth ar ymgysylltu a chyfathrebu cadarnhaol rhwng yr awdurdod ac unigolion. Rhannai'r awdurdodau rwystredigaeth ynghylch diffyg adnoddau i fynd ati'n rhagweithiol i adnabod unigolion a allai fod yn ei chael hi'n anodd talu, cysylltu ag unigolion a oedd wedi methu taliadau a chynnig cymorth ychwanegol i rai a oedd angen cefnogaeth i dalu. Roedd hyn yn aml yn llesteirio proses adennill effeithiol ac effeithlon. O ganlyniad i hyn, teimlent fod eu gallu i fod yn effeithiol yn aml yn ddibynnol ar barodrwydd unigolion i gysylltu â'r awdurdod i'w hysbysu am newidiadau i'w hamgylchiadau personol neu i ofyn am gymorth. Heb ystyried yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau, teimlai'r awdurdodau y gellid osgoi amser, cost a straen sylweddol pe gallai'r naill barti neu'r llall gychwyn ymgysylltu ynghynt yn y broses adennill. Byddai hynny o fudd i'r unigolyn ac i'r awdurdod.
- 4.3 Er bod awdurdodau'n pwysleisio eu bod yn buddsoddi mwyafrif eu hadnoddau i reoli lleiafrif o achosion cymhleth neu anodd eu cyrraedd, roeddent y broses gasglu ac adennill a ddisgrifiwyd ganddynt yn ddwys o safbwynt gweinyddol. Mewn ysgrifen ar bapur y gohebir

ag unigolion gan amlaf, felly mae anfon biliau blynyddol, nodynnau atgoffa a gwysion yn cynhyrchu swm sylweddol o waith papur. Byddai awdurdodau'n aml yn disgrifio'r straen yr oedd hyn yn ei gael ar adnoddau, ac roedd rhai wedi newid eu harferion er mwyn sicrhau bod tasgau gweinyddol yn llai beichus ac wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal. Roedd gan yr awdurdodau agweddau cadarnhaol ynghylch yr angen i goleddu technoleg newydd, ond roedd gallu'r awdurdodau a'u cyflymder wrth weithredu technolegau newydd, fel e-filiau neu nodynnau atgoffa ar ffurf negeseuon testun, yn amrywio. Trafodir y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan awdurdodau i ymgysylltu ag unigolion yn ddiweddarach yn y bennod hon.

- 4.4 Siaradai nifer o awdurdodau ynglŷn â'r angen am fwy o eglurder ynghylch y blaenoriaethau strategol sy'n llywio'r modd y maent yn casglu ac yn adennill y dreth gyngor; teimlai awdurdodau nad oedd hi bob amser yn hawdd cysoni'r angen i gasglu dyled â dyhead cynyddol i helpu'r unigolyn. Ymddengys fod llawer o awdurdodau wedi llwyddo i daro cydbwysedd rhwng y naill amcan a'r llall; mae awdurdodau'n ymdrechu i weithio gydag unigolion mewn ffordd gefnogol, ac i fod yn ymwybodol iawn o'r amgylchiadau anodd iawn a wynebwr gan rai pobl, gan anelu ar yr un pryd i sicrhau cymaint o incwm ag sy'n bosibl drwy gynyddu eu cyfraddau casglu. Fodd bynnag, gan mai cyfraddau casglu a ddefnyddir i fesur perfformiad awdurdodau, teimlai rhai awdurdodau fod eu hymdrechion i sicrhau bod pobl yn gallu talu, waeth beth fo'u hamgylchiadau personol, yn cael eu hanwybyddu, ac roedd awdurdodau eraill yn fwy penderfynol mai eu prif nod oedd casglu'r ddyled.
- 4.5 Gan fod y cyfraddau casglu eisoes yn uchel, mynegodd awdurdodau'n glir ei bod hi'n bwysig cydnabod y byddai'r symiau ychwanegol fyddai'n cael eu hennill yn lleihau o hyd wrth wella unrhyw arferion casglu ac adennill. Teimlai'r awdurdodau eisoes mai ychydig o le oedd ar ôl ennill mwy, a'u bod yn cyrraedd lefel ddigyfnewid o ran yr hyn yr oeddent yn teimlo eu bod yn gallu ei gasglu.
- 4.6 Nododd mwyafrif yr awdurdodau y modd yr adroddir data ar berfformiad awdurdodau lleol mewn cylchoedd diwedd blwyddyn, ac nad oedd hynny'n rhoi cynrychiolaeth lawn o'r holl gyfraddau casglu a sicrhawyd. Roedd yna farn fod y pwyslais ar gyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn yn rhoi pwysau ar gynghorau i sicrhau bod unrhyw ddyledion a oedd yn weddill wedi'u talu erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn golygu y gallai'r trefniadau ar gyfer unigolion sy'n ei chael hi'n anodd talu tua diwedd y flwyddyn fod yn llai hyblyg na'r trefniadau i rai a ofynnai am hyblygrwydd ar ddechrau'r flwyddyn.

- 4.7 Nododd y Cyngorau fod y dreth gyngor yn ddyled â blaenoriaeth (oherwydd gall peidio â'i dalu olygu bod y trethdalwr, yn y pen draw, yn derbyn dedfryd o garchar). Fodd bynnag, amlygai llawer ohonynt y gwahaniaethau rhwng unigolion o ran eu dealltwriaeth ynghylch diben y dreth gyngor, a phwysigrwydd blaenoriaethu eu hymrwymadau eu hunain o ran y dreth, a'r canlyniadau o beidio gwneud hynny. Nododd nifer o gynghorau fod yr unigolion hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu'r dreth gyngor, yn aml yn methu cyllidebu a blaenoriaethu'r gweddill o wariant yr aelwyd. Teimlai cynghorau mai canlyniad sawl ffactor oedd hyn: teimlai rhai y gallai unigolion fod yn brin o sgiliau er mwyn rheoli eu materion ariannol personol, awgrymai eraill fod ffactorau strwythurol fel newidiadau i'r farchnad lafur ac i batrymau gwaith unigolion yn ffactor a oedd yn dylanwadu ar allu pobl i dalu eu treth gyngor. Ymhlith yr unigolion a oedd yn ei chael hi'n anodd talu, sylwai nifer o gynghorau fod y dyledion a oedd yn cronni o natur fwy cymhleth. Dywedodd cynghorau eu bod yn gweithio gydag unigolion a oedd mewn dyled i amryw o ddarparwyr, ac a oedd yn ymdrechu i reoli cyfres gymhleth o ymrwymadau ariannol. Byddai'r rheiny weithiau'n ymrwymo i drefniadau benthyca ychwanegol er mwyn lliniaru pwysau ariannol ar y pryd, ond i hynny waethgu eu sefyllfa ariannol yn y tymor hir.
- 4.8 Teimlai rhai cynghorau fod eu gallu i adennill ôl-ddyledion yn israddol o gymharu â'r mesurau a oedd ar gael i ddarparwyr eraill, fel cwmnïau cyfleustodau preifat a all ddal gwasanaethau hanfodol yn ôl oddi wrth unigolion sydd mewn dyled. Yn aml, ni theimlai'r awdurdodau hyn ei bod hi'n briodol iddynt ddefnyddio'r holl bwerau oedd ar gael iddynt (fel traddodebau). Roedd gan gynghorau eraill farn wahanol ynglŷn â'r pwerau a oedd ar gael iddynt, gan nodi eu bod yn gallu manteisio ar amrywiaeth eang o ddulliau gorfodi, nad oeddent ar gael i fusnesau eraill a oedd yn casglu ffioedd/dyledion, er mwyn annog unigolion i dalu.
- 4.9 Roedd yr awdurdodau'n cydnabod eu bod yn wynebu heriau gwahanol oherwydd eu proffil demograffig unigryw. Roedd rhai ohonynt yn cynnwys lefelau uchel o amddifadedd a diweithdra. Daeth eraill ar draws problemau'n gysylltiedig â phoblogaethau a oedd yn heneiddio a lefelau uchel o dreth yn daladwy fesul eiddo. Roedd rhai'n wynebu heriau wrth gasglu ac adennill y dreth gyngor oddi wrth boblogaethau teithiol neu gymdeithasol symudol fel gweithwyr proffesiynol ifanc a theuluoedd ifanc, lle'r oedd angen adnoddau i fynd ar drywydd cyfrifon a chyhoeddi hysbysiadau addasu. Disgrifiodd eraill natur broblematig cael poblogaeth leol sy'n ddibynol iawn ar un diwydiant a allai wynebu anawsterau fyddai'n

arwain at siociau ariannol. Roedd yr heriau hyn yn effeithio ar awdurdodau mewn gwahanol ffyrdd, a derbyniwyd yn gyffredinol mai'r ffactor amddifadedd oedd yn cael yr effaith fwyaf ar gyfraddau casglu (gwelwyd hyn yn nata meincnodi 2016-17).

- 4.10 Waeth beth fo proffil demograffig unigryw pob ardal awdurdod lleol, byddai cyngorau'n aml yn cyfeirio at bryderon ynghylch gallu unigolion i dalu lefelau cynyddol o dreth gyngor yng nghyd-destun marchnad lafur newidiol. Siaradai'r cyngorau am effaith dybiedig cyfraddau diweithdra, gwaith heb sicrwydd neu waith ar gyflog isel a lefelau cynyddol o fenthyciadau gan ddefnyddwyr, ar allu unigolion i fforddio talu eu treth gyngor.
- 4.11 Roedd pob awdurdod yn ymwybodol o'r angen i ystyried bregusrwydd, ac yn disgrifio'r camau yr oeddent yn eu cymryd i adnabod a chefnogi unigolion mewn amgylchiadau bregus, neu a chanddynt nodweddion bregus. Byddai awdurdodau yn rhoi ystyriaeth i unigolion bregus ar amryw o adegau yn eu prosesau a'u harferion. Byddai'r ystyriaeth honno'n aml yn sail i'r perthnasoedd yr oeddent wedi'u datblygu â thrydydd partion, fel asiantaethau cynghori, elusennau ac asiantau gorfodi ac, i rai, wedi arwain at ddatblygu arferion neu bolisiâu rheoli dyledion wedi'u cynllunio'n arbennig. Trafodir bregusrwydd yn fanylach yn ddiweddarach yn y bennod hon.

Cyn gorchymyn dyled

Sut yr ymdrinnir â chasglu'r dreth gyngor, a dulliau o wneud hynny


- 4.12 Adborth cyffredinol yr awdurdodau oedd bod y fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli'r broses gasglu yn gweithio'n dda. Mae'n darparu fframwaith digonol i sicrhau bod y dull o ymdrin â chasglu ac adennill y dreth gyngor yn gyson ac unffurf i raddau. Teimlai awdurdodau fod y fframwaith deddfwriaethol yn rhoi sail resymegol iddynt esbonio eu prosesau a'u dulliau wrth unigolion. Nododd nifer o gyfranogwyr fod Rheoliadau Cymryd Rheolaeth dros Nwyddau (Ffioedd) (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014) wedi bod yn effeithiol wrth reoli lefel y ffioedd gorfodi a godir am gamau gorfodi ac wrth leihau nifer y cwynion a gafwyd ac a gefnogwyd ynghylch ffioedd gorfodi. Dywedodd yr awdurdodau fod llwyddiant y

ddeddfwriaeth yn ymwneud yn rhannol â'r hyblygrwydd y mae'n ei roi iddynt i addasu prosesau casglu ac adennill i gyd-fynd â'u hanghenion.

- 4.13 Mae Dangosyn 5.1 yn dangos y broses statudol ar gyfer adennill y dreth gyngor, gan gynnwys y camau y gall awdurdod eu cymryd i atgoffa unigolion ynglŷn â'u dyled cyn gwneud cais am orchymyn dyled, a'r opsiynau gorfodi sydd ar gael i'r awdurdod er mwyn adennill y ddyled ar ôl gorfodi'r gorchymyn dyled.
- 4.14 Fel y dangosir, gall awdurdod anfon dau hysbysiad atgoffa cyn anfon hysbysiad terfynol yn mynnu bod treth gyngor y flwyddyn honno'n cael ei thalu'n llawn os collir trydydd taliad. Os na chaiff y swm ei dalu, gall yr awdurdod wedyn gwneud cais am orchymyn dyled oddi wrth ynad. Gorchymyn cyfreithiol i dalu yw hwn, a bydd yn cynnwys ffi ychwanegol (uchafswm o £70 yng Nghymru). Cyn gynted ag y bydd gorchymyn dyled yn cael ei gyflwyno, caiff awdurdod ddidynnu'r swm yn uniongyrchol o fudd-daliadau penodol neu o enillion, yn amodol ar drothwyon penodol. Gall awdurdod hefyd anfon asiantau gorfodi i gasglu'r ddyled, gwneud cais am orchymyn traddodi, methdaliad neu arwystlo. Mewn rhai amgylchiadau, gall awdurdod hefyd ddileu dyled.
- 4.15 Os bydd y dyledwr ar unrhyw bryd yn dod i gytundeb â'r awdurdod i dalu'r ddyled yn ôl, daw'r broses orfodi i ben. Gall dyledwyr gael amryw o ddyledion ac amryw o orchymynion dyled os byddant yn mynd i ddyled fwy nag unwaith. Ceir mwy o wybodaeth yma: <https://www.gov.uk/guidance/council-tax-arrears>.

Dangosyn: 4.1 - Proses Orfodi'r Dreth Gyngor

Proses Orfodi'r Dreth Gyngor



- 4.16 Y tu hwnt i'r fframwaith statudol, mae awdurdodau lleol wedi cyflwyno elfen o hyblygrwydd i'w proses gasglu mewn sawl ffordd wahanol. Roedd un cyfwelai wedi symud yn ddiweddar o'r naill awdurdod i'r llall ac wedi canfod bod yr dulliau'n amrywio mewn sawl ffordd:

"er eich bod chi i gyd yn gweithredu'n unol â'r un ddeddfwriaeth, rydych chi i gyd yn gweithredu fymryn yn wahanol i'ch gilydd"

Cyfrifon a nodynnau atgoffa

- 4.17 Pwysleisiodd rhai cynghorau pa mor bwysig oedd cadw cyfrifon unigol cyfredol a gweinyddu biliau yn gywir ac mewn modd amserol wrth baratoi am y flwyddyn dreth newydd. Cyfeiriai awdurdodau at yr angen i ddiweddarau cyfrifon drwy gynnwys manylion cyswllt unigolion, newid cyfeiriad a newid mewn amgylchiadau. Roedd cyfranogwyr a bwysleisiai bwysigrwydd 'cadw tŷ' yn tueddu i dynnu sylw at yr angen i anfon nodynnau atgoffa prydlon a mynych at unigolion.

"... y man cychwyn yw sicrhau bod y bil yn gywir, achos dydych chi ddim am godi gormod o dreth ar bobl os oes ganddynt hawl i ddisgownt neu esemptiad, neu Ostyngiad yn y Dreth Gyngor, felly mae hi wir yn bwysig eich bod yn sicrhau bod eu bil yn gywir cyn i chi ddechrau mynd ar eu holau am symiau o arian nad ydynt yn gorfod eu talu, felly mae'n golygu gwneud yn siŵr fod yr holl wybodaeth yna'n glir hefyd - fod ganddynt yr wybodaeth yna wrth law. Wedyn, ar ôl inni wneud hynny, ar ôl inni anfon y biliau, y peth pwysig o safbwynt casglu yw eich bod yn cymryd camau prydlon i adennill taliadau, os nad yw'r taliadau hynny'n ein cyrraedd."

- 4.18 Roedd gan awdurdodau safbwyntiau amrywiol ynghylch anfon hysbysiadau atgoffa. Teimlai rhai awdurdodau ei bod hi'n fanteisiol anfon nodynnau atgoffa yn brydlon ac yn fynych, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r dyddiad talu fynd heibio, gan fod hynny'n rhoi cymaint o amser ag sy'n bosibl i'r unigolyn ymateb.

"Felly o'm rhan i, mae'n bwysig cael pethau'n iawn ar y pen blaen, ac wedyn fel arfer bydd y prosesau swyddfa gefn yn gadarn, ac mae hynny'n amhrisiadwy, sicrhau bod eich prosesau'n gywir ar y pen blaen, dyna'r rhan bwysicaf un, nid eich asiantau gorfodi"

Dywedodd rhai awdurdodau fod hyn hefyd yn llawer gwell i ddibenion llif arian y cyngor, ac yn helpu i atal dyledion rhag pentyrru ymhlith unigolion.

- 4.19 Datgelodd un awdurdod ei fod wedi newid ei system yn ddiweddar, gan symud tuag at system a oedd yn cynnwys anfon nodynnau atgoffa buan. Gwelsant fod oedi cyn anfon nodynnau atgoffa yn oedi'r broses ac yn caniatáu i unigolion fynd i fwy o ddyled, gan ei gwneud hi'n fwy anodd iddynt ennill tir yn y tymor hwy. Hefyd, nododd awdurdod arall fod system a oedd yn cynnwys nodynnau atgoffa buan nid yn unig o fantais i unigolion ond hefyd o fantais wrth reoli adnoddau a phwysau gweinyddol mewnol ar adegau prysur yn y cylch casglu.

"Roeddem yn arfer anfon [nodynnau atgoffa] allan bob mis neu ddau, ac roedd miloedd i'w hanfon mewn un swp. Wel, daeth hynny'n llawer rhy feichus wrth i'r holl ohebiaeth ddod i mewn - y galwadau ffôn ac ati. Felly yn hytrach na chael brigau a phantiau, gwasgarwyd y gwaith yn fwy cyfartal, ac mae'n gweithio'n llawer gwell. Mae pobl yn ymwybodol o'r broses yr ydym yn ei defnyddio, ac rydych chi'n gwybod, maen nhw'n gwybod, bod yn rhaid iddyn nhw dalu eu nodynnau atgoffa ar amser [...] os bydd rhywun yn methu [taliad] byddwn ni'n sylwi arnyn nhw ynghynt felly bydd y broses yn cychwyn ynghynt, ond yn y pen draw byddan nhw wedyn yn cael mwy o amser yn ystod y flwyddyn i dalu'r ddyled."

- 4.20 Ar y llaw arall, roedd rhai awdurdodau o'r farn y byddai mwyafrif y rhai a oedd yn hwyr yn talu, yn talu yn y pen draw, ac nid oedden nhw am gysylltu â phobl heb fod angen.

"Felly byddwn yn anfon y nodyn atgoffa pan fyddan nhw ddau fis ar eu hôl hi. Rydyn ni'n gwneud hynny yn yr ail fis yn lle'r wythnos gyntaf oherwydd, yn dibynnu pryd y bydd rhywun yn cael ei dalu yn y mis, gallai ei randaliad fod ar y cyntaf er nad ydyn nhw'n cael ei dalu tan yr 20^{fed}, felly'r gwir yw y byddan nhw'n talu ar ôl cael eu talu eu hunain, felly rydyn ni'n dangos ychydig bach o hyblygrwydd."

- 4.21 Mae'n bosibl mai trefn yr adran sydd i gyfrif yn rhannol am y gwahaniaethau a fynegwyd o ran y pwyslais a roddir ar swyddogaeth flaen y gwasanaeth. Dywedodd rhai awdurdodau fod ganddynt adran sy'n ymdrin ag ôl-ddyledion (hysbysiadau atgoffa, gwysion, gwrandawiadau llys, cysylltu ag asiantau gorfodi, gweinyddu atafaelebau), ac adran gynnal a oedd yn ymdrin â materion cyffredinol yn gysylltiedig â chyfrifon. Dywedodd awdurdodau eraill mai un adran oedd yn gwneud popeth.

- 4.22 Dywedodd tri awdurdod fod eu gallu i gysylltu ag unigolion mewn modd rhagweithiol yn dibynnu ar eu prysurdeb yng ngweddill y system ar y pryd, er enghraifft, ar ddechrau'r

flwyddyn ariannol pan anfonir biliau allan, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r awdurdodau hynny a chanddynt un adran yn unig ar gyfer y dreth gyngor yn gorfod gwyro eu holl adnoddau i gyflawni'r gwaith hwnnw. Dywedodd un awdurdod ei fod yn gwastatau'r brigau a'r pantiau yn y llwyth gwaith drwy anfon hysbysiadau atgoffa i blwyfi gwahanol ar wahanol ar adegau. Mae hyn yn sicrhau nad ydynt yn derbyn ton enfawr o ohebiaeth ar yr un pryd.

- 4.23 Yr oedd y gwerth isafswm y byddai awdurdodau'n anfon nodyn atgoffa ar ei gyfer hefyd yn amrywio. Roedd y gwerth isafswm hwn yn amrywio ar draws awdurdodau.⁷ Ni ymddengys fod y gwerthoedd isafswm yn cael unrhyw effaith ar ba mor aml y byddai nodynnau atgoffa'n cael eu hanfon, nac ar hyd yr amser rhwng methu'r taliad ac anfon y nodyn atgoffa cyntaf (hy, yn aml y rhai hynny a chanddynt yr isafswm dyled uchaf yw'r rhai sy'n anfon nodyn atgoffa yn gymharol fuan ar ôl methu taliad.)
- 4.24 Yr oedd rhywfaint o amrywio yn nifer y nodynnau atgoffa a oedd yn cael eu hanfon. Roedd hi'n ymddangos bod un awdurdod yn mabwysiadu proses fwy trugarog lle byddent yn anfon mwy o nodynnau atgoffa nag a oedd yn ofynnol yn y ddeddfwriaeth (dau nodyn atgoffa, wedyn hysbysiad terfynol i dalu'n llawn). Pe bai unigolyn yn cael nodyn atgoffa ac wedyn yn talu'r rhan-daliad hwyr, byddai'n gymwys i gael nodyn atgoffa pellach pe bai'n methu taliad arall. Teimlai'r awdurdod hwn fod cyhoeddi'r nodynnau atgoffa safonol yn golygu bod gormod o bobl yn cael eu cyfeirio'n gyflym i broses y llys, sy'n golygu mwy o gostau a phryder i'r unigolyn. Dywedodd yr awdurdod ei fod yn cyhoeddi llai o wysion ar gyfer gorchymyn dyled, ac roedd yn tybio ei fod yn trosglwyddo llai o achosion i asiantau gorfodi na'r awdurdod cyfartalog⁸.
- 4.25 Roedd sawl awdurdod wedi newid geiriad eu nodynnau atgoffa; roedd un wedi amlygu costau'r cam nesaf yn y broses, a rhai wedi profi gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd gan y Tîm Dirnadaeth o Ymddygiad (2017). Yn rhan o'r treialon hyn, cafwyd ymgais i gynyddu cyfran y bobl a oedd wedi ymrwymo i ddebyd uniongyrchol drwy anfon negeseuon testun, ac i wella'r cyfraddau casglu drwy newid y geiriad ar lythyrau atgoffa. Er nad oedd sicrwydd llwyr ynghylch canlyniadau'r treialon Dirnadaeth o Ymddygiad, dywedodd un awdurdod ei fod wedi defnyddio technegau ysgogi tebyg yng ngeiriad ei nodynnau atgoffa, fel 'beth am

⁷Daw'r data hyn o'r ffurflenni meincnodi. Ni wyddom i ba raddau y cedwir at y lefelau isafswm hyn, nac ychwaith a ydynt yn fwy o amcangyfrif na ffigurau pendant.

⁸Hunanadroddiadau yw'r rhain, ac ni ellir defnyddio'r data i'w dilysu.

ymuno â'r 75% o dalwyr treth gyngor sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol?'. Roedd awdurdod arall yn dylunio'r hysbysiadau atgoffa'n ddeallus, gan ystyried sgôr credyd yr unigolyn ac yn segmentu'r camau gweithredu yn unol â hynny.

Gwneud cais am orchymyn dyled

- 4.26 Cafwyd tystiolaeth fod y galw am wasanaeth y llysoedd yn fwy na'r capasiti, yn enwedig mewn rhai ardaloedd gwledig. Teimlai awdurdodau a oedd wedi gweld llysoedd yn cau yn yr ardaloedd fod hynny wedi amharu ar eu gallu i fod yn hyblyg wrth gynnal y broses adennill. Disgrifiai cyfranogwyr y straen ar adnoddau yn sgil prosesu sypiau mawr o orchmynion dyled drwy nifer lai o lysoedd Ynadon, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau yng nghyllidebau awdurdod lleol.

"[...] } O ran y llysoedd, roedden ni'n arfer cael gwahanol ddyddiadau llys mewn gwahanol leoliadau, un o'r trefi hynny ar ddydd Llun, wedyn mewn llys gwahanol ar ddydd Mercher, a llys arall ar y dydd Iau. Roedden ni'n gallu rheoli ein llwyth gwaith ychydig yn fwy effeithiol. Ond gan mai ond un llys sydd gennym ni bellach, mae hynny'n gwneud pethau gryn dipyn yn anoddach".

- 4.27 Nododd rhai awdurdodau fod eu system adennill i raddau helaeth yn ddibynnol ar argaeledd y llysoedd i brosesu ceisiadau am orchmynion dyled. Teimlwyd bod prinder capasiti yn y llysoedd i brosesu symiau mawr o orchmynion dyled yn cyfyngu ar y graddau y gallai'r awdurdod gynnwys elfen o hyblygrwydd wrth gymhwyso'r ddeddfwriaeth. Esboniodd un awdurdod fod angen iddo fod yn fwy rhagweithiol wrth gysylltu ag unigolion yn sgil ei gylch adennill o ofynion beunyddiol, hysbysiadau atgoffa misol a dyddiadau llys misol. Yr oedd teimlad bod hyn wedi achosi i gyfrifon fynd rhagddynt i gam y gorchymyn dyled ynghynt.

"Mae gennym lysoedd bob pedair wythnos, felly i ddechrau rydym yn llunio amserlen i weld pa hysbysiadau atgoffa sydd yn cael eu hanfon allan a pha ddyddiadau llys, felly rydym yn cynllunio ein hysbysiadau atgoffa o amgylch ein dyddiadau llys. Y llysoedd sydd yn pennu'r dyddiadau llys ar ein cyfer, felly does dim hyblygrwydd."

Bydd angen ymchwilio eto i archwilio sut, ac i ba raddau, y gallai pwysau ar y system lysoedd effeithio ar brosesau adennill dyledion awdurdodau, a ph'un a yw hynny'n amharu ar eu gallu i adennill dyledion y dreth gyngor.

4.28 Byddai awdurdodau'n aml yn gwahaniaethu rhwng y dull y gallai timau adennill ei ddefnyddio er mwyn cysylltu ag unigolion cyn ac ar ôl cam y gorchymyn dyled. Nododd cyfranogwyr fod angen proses fwy awtomataidd i reoli'r symiau mawr o gyfrifon yn y cyfnod cyn y gorchymyn dyled. Roedd hyn yn cynnwys cynhyrchu llythyrau'n systematig i'w hanfon at unigolion ar adegau penodol yn y cylch. Ar ôl y gorchymyn dyled, roedd y mwyafrif o awdurdodau'n gallu mabwysiadu dull wedi'i dargedu'n well ac, ar adegau, wedi'i bersonoli er mwyn cysylltu ag unigolion ar draws llwyth achosion llai. Amlygai data meincnodi fod y dulliau o ymdrin â gorchymynion dyled yn amrywio. Ar gyfartaledd yn 2016-17, arweiniodd 74 y cant o wysion at ganiatáu gorchymyn dyled. Fodd bynnag, roedd y gyfran hon yn llawer is mewn sawl awdurdod. Mae'n debygol bod hyn yn tarddu o ddull gweithredu lle codir gŵys, ond lle tynnir gorchymyn dyled yn ôl os yw'r dyledwr yn talu unrhyw dyledion cyfredol ar ei gyfrif, neu o ganiatáu mwy o hyblygrwydd drwy alluogi'r dyledwr i ddychwelyd i randaliadau statudol neu sefydlu trefniadau talu anffurfiol. Adroddodd y rhan fwyaf o awdurdodau y byddent yn dal i sicrhau'r gorchymyn dyled hyd yn oed pe bai trefniadau'n cael eu gwneud neu gyfrif yn cael ei setlo, fel bo modd iddynt allu ei ddefnyddio'n ddiweddarach pe bai angen⁹.

4.29 Fodd bynnag, disgrifiodd un awdurdod fath neilltuol o ddyledwr lle'r oedd angen mabwysiadu dull gwahanol o ymdrin ag adennill yn y cam hwn. Byddai awdurdodau'n aml yn sôn am leiafrif o unigolion fyddai'n osgoi unrhyw gyswllt gan yr awdurdod, gyda rhai'n parhau i wneud hynny nes cael gorchymyn dyled. Byddai awdurdodau'n amrywio eu dulliau:

"Rydym yn tueddu i gael cnewyllyn o ddyledwyr di-ildio sy'n tueddu i beidio talu nes iddynt dderbyn gŵys, neu nes i'r ddyled gael ei symud ymlaen. Y bwriad felly yw mynd â nhw gerbron llys cyn gynted ag sy'n bosibl, ar wahân i'r rhai sydd wedyn yn dod atom ni ac yn dweud eu bod yn cael anhawster gwirioneddol, neu fod angen iddyn nhw ddod i gytundeb. Yn amlwg, rydym yn gwrando arnyn nhw, ac efallai'n rhy barod i ymrwymo i drefniant arall cyn cael gorchymyn dyled. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych

⁹Yn yr achos hwn, ni amlygwyd gwahanol ddulliau wrth gaffael gorchymynion dyled yn y cyfweiliadau - nid yw hyn yn golygu nad oes gwahaniaethau'n bodoli, ond nid oes gennym y data i'w harchwilio.

ar y ffordd orau o ymdrin â'r rhai nad ydynt yn talu, p'un a ddylen ni ddweud y byddwn yn cael gorchymyn dyled yn gyntaf cyn ystyried trefniant y tu allan i'r cynllun statudol, ond wedyn mae hynny'n achosi anawsterau gan nad yw'r cwsmer bob amser yn fodlon bod gorchymyn dyled yn cael ei ganiatáu os yw'n mynd ati'n wirioneddol i gynnig ymrwymo i drefniant... Y cyfle yw cael y rhai nad ydynt yn talu'r dreth gerbron y llys cyn gynted ag sy'n bosibl fe bo modd inni benderfynu ar y ffordd ymlaen."

- 4.30 Soniodd rhai awdurdodau am y costau'n gysylltiedig â gorchmynion dyled. Mae'r gyfraith yn cyfyngu ar daliadau am wrys a gorchymyn dyled "i swm sydd yn gyfwerth â'r costau a ysgwyddir yn rhesymol" gan y cyngor (Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 OS 613¹⁰). Pennwyd uchafswm o £70 ar gyfer y ffi yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif o awdurdodau'n codi ffi o £70 ar unigolion. Adroddodd ambell awdurdod fod eu costau'n uwch, gan ddweud nad oedd yr uchafswm o £70 wedi codi ers iddo gael ei gyflwyno. Ar ben arall y raddfa, awgrymodd nifer fach o awdurdodau fod eu costau'n is, gyda dau ohonynt o leiaf yn codi llai na £70. Ymddengys nad oes methodoleg safonol ar yfer cyfrifo'r gost o godi gŵys a'r gorchymyn dyled, felly mae'n anodd cymharu costau. Bydd angen gwneud gwaith ymchwil pellach i ddeall sut mae awdurdodau'n darparu ar gyfer y costau hyn, eu methodoleg ar gyfer eu cyfrifo a'u hadolygu, ac a ellir cymhwyso dull gweithredu safonol yn y dyfodol.
- 4.31 Roedd mwyafrif yr awdurdodau yn cynnig trefniadau talu hyblyg pe bai unigolyn yn cysylltu â hwy i ddweud eu bod yn cael anhawster. Fodd bynnag, roedd barn yr awdurdodau ynghylch yr hyn a fyddai'n dderbyniol yn amrywio. Dywedodd un awdurdod y byddai'n annog unrhyw unigolion a fyddai'n cysylltu i sefydlu debyd uniongyrchol yn hytrach na sefydlu trefniant hyblyg, ac ni fyddai'n trefnu rhandaliadau pe bai'r trethdalwr eisoes wedi methu cadw atynt. Dywedai fod profiad yn dangos y byddai'r bobl hyn yn methu taliadau dro ar ôl tro, ac y byddai hynny'n oedi'r holl broses adennill.

"Rydym yn cadw'n llym at y gyfraith. Yn ystod y broses honno, pan fydd pobl yn derbyn yr hysbysiadau atgoffa hyn, byddwn yn ailsefydlu eu rhandaliadau os ydynt yn cytuno i dalu drwy ddebyd uniongyrchol. Fyddwn ni ddim, os nad ydyn nhw'n dewis yr opsiwn yna, yn ailsefydlu'r rhandaliadau, ac wedyn bydd yr achos yn symud ymlaen at

¹⁰ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/1992/613/regulation/34/made>

...gostau gorchymyn dyled...ac os byddant yn ffonio hyd at y pwynt yna ac yn cytuno i dalu drwy ddebyd uniongyrchol, byddwn yn ailsefydlu'r rhandaliadau."

- 4.32 Mynegodd awdurdodau eraill bryderon tebyg ynghylch trefniadau talu gohiriedig a fforddiadwyedd y trefniadau hynny, a dim ond un ohonynt oedd yn cynnig trefniadau talu gohiriedig mewn modd eglur. Fodd bynnag, yr oedd bron pob un ohonynt yn annog trefniadau hyblyg, gan deimlo eu bod yn helpu unigolion i dalu, a'u bod yn ffordd dda o ddatrys y sefyllfa yn hytrach na'r dewis arall arferol o orfod talu swm mawr o arian. Roedd yr awdurdodau a oedd yn ffafrio cynlluniau talu hyblyg i'r unigolion hynny a allai fod angen mwy o amser i dalu yn awyddus i bwysleisio nad oedd unigolion a oedd yn gyfyngedig o ran eu gallu i dalu wedi'u heithrio'n gyfan gwbl o orfod talu, ond bod angen dull wedi'i gynllunio'n arbennig i'w galluogi i wneud hynny. Gan amlaf, roedd awdurdodau'n fwy awyddus i negodi cynlluniau talu hyblyg gydag unigolion os oedd ganddynt gofnodion o ymgysylltu'n flaenorol, lle cadwyd at drefniadau a lle talwyd y balans dros gyfnod o amser, neu lle'r bu'r unigolyn yn rhagweithiol drwy gysylltu â'r awdurdod i rannu ei sefyllfa.
- 4.33 Yn aml, pwysleisiai awdurdodau eu dyhead i sefydlu taliadau a oedd mor rwydd â phosib i unigolion. Roedd yr awdurdodau'n cytuno'n unfryd mai debyd uniongyrchol oedd y dull talu mwyaf effeithlon. I gydnabod patrymau gwaith amrywiol, cynigiai'r holl awdurdodau fwy nag un dyddiad talu yn y mis. Roedd rhai ohonynt hefyd yn dechrau cynnig debyd uniongyrchol wythnosol fyddai'n cyd-fynd yn well â thaliadau cyflog unigolion. Roedd awdurdodau hefyd yn cynnig y dewis o dalu gydag aran parod neu siec, cardiau debyd neu gredyd, cardiau talu (ee, Allpay, Paypoint, Payzone) a thaliadau ar-lein, ac roedd bron bob un ohonynt yn cynnig llinell ffôn 24 awr ar gyfer taliadau awtomatig.

Ar ôl gorchymyn dyled

Defnyddio cofnodion o'r gorffennol yn sail er mwyn penderfynu ynghylch y llwybr gorfodi

- 4.34 Yn aml, nid oedd gan awdurdodau ddigon o wybodaeth am gyfrifon cwsmeriaid, ond pan oedd ganddynt yr wybodaeth honno, byddent yn aml yn defnyddio hanes talu'r unigolion i'w helpu i benderfynu sut i weithredu. Yn aml, dyma'r unig ffynhonnell o wybodaeth a oedd ar gael i'r awdurdodau. Byddai'r awdurdodau'n penderfynu a oedd gan yr unigolyn hanes o fynd i ddyled, ac yn ystyried hynny wrth wneud penderfyniadau. Nododd awdurdodau y byddai eu camau gweithredu'n amrywio wrth reoli cyfrifon; esboniai un awdurdod y gallai cynghorwyr gymryd mwy o reolaeth pe bai gan yr unigolyn hanes o ddyledion, ac esboniodd awdurdod arall y gallent fforddio mwy o hyfforddiant a chefnogaeth ar reoli arian i rai unigolion. Byddai awdurdodau hefyd yn defnyddio trafodaethau a threfniadau o'r gorffennol yn sail ar gyfer trefniadau talu'r dyfodol. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod pe bai rhywun yn ffonio ac yn dweud y byddai'n talu'r swm yn llawn ymhen ychydig fisoedd pan fyddai'n derbyn ei fonws blyneddol, a bod ganddo dystiolaeth iddo wneud hynny yn y blyneddodedd cynt, y byddai'r awdurdod yn caniatáu i'r trefniant barhau.
- 4.35 Roedd mwyafrif yr awdurdodau'n defnyddio nodiadau ychwanegol ar y cyfrifon i gofnodi'r hanes mewn 'dyddiaduron cyfrif', ond adroddodd rhai awdurdodau broblemau'n gysylltiedig â'r hyn yr oeddent yn gallu ei gofnodi oherwydd rheoliadau diogelu data (archwilir hyn yn yr adran ar heriau yn ddiweddarach yn y bennod hon). Teimlai un o'r awdurdodau llai fod ei faint yn fanteisiol oherwydd gallai wirio cyfran fwy o'i achosion â llaw, gan edrych ar eu hanes a'u nodiadau i benderfynu a allai ddefnyddio unrhyw wybodaeth i benderfynu ar y camau nesaf. Rhoddodd yr awdurdod hwn rai unigolion ar 'broffil sensitif'. Golygai hyn y byddai eu cyfrifon yn cael eu gwirio â llaw gan y staff, yn hytrach nag yn awtomatig ar y system gyfrifiadurol.
- 4.36 Defnyddiai awdurdodau drefniadau Atafaelu Enillion ac Atafaelu Budd-daliadau fel gwybodaeth werthfawr ar eu cyfrifon. Roedd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel dystiolaeth o'r hyn a weithiodd yn y gorffennol, a'r hyn a allai weithio i glirio ôl-ddyledion dilynol. Dywedodd rhai awdurdodau eu bod yn gwneud defnydd rhagweithiol o'r wybodaeth ar y cyfrifon pe bai unigolyn yn mynd i ddyled eto.

"wrth inni ymgysylltu â'r cwsmer yna a gwneud yn siŵr bod ei fanylion cyflogaeth gennym ni, ac mae hynny'n ddefnyddiol wrth negodi dyled yn y dyfodol, yn enwedig os bydd y cwsmer yna'n diflannu, yn peidio cysylltu â ni eto, yn ceisio osgoi unrhyw drafodaethau, mae gennym y manylion cyflogaeth, a gallwn sicrhau ein bod yn derbyn taliad drwy atafaelu enillion."

Dywedodd awdurdodau fod hyn yn cael ei ffafrio fel dull gorfodi amgen ar gyfer yr achosion hynny lle nad oedd dyledwyr yn cyfathrebu â'r awdurdod.

Atafaelu Enillion a Budd-daliadau

4.37 Ystyriwyd mai atafaelu enillion a budd-daliadau yw'r dull mwyaf effeithlon o ad-dalu yn dilyn gorchymyn dyled. Fodd bynnag, roedd problemau wedi codi yn gysylltiedig â'r swm y gall awdurdodau ei gasglu o enillion, a'r ffaith nad oedd y rheoliadau wedi cael eu diwygio i adlewyrchu natur newidiol y byd gwaith (ee, pobl a chanddynt fwy nag un swydd, contractau dim oriau ac ati).

4.38 Soniodd un awdurdod fod angen bod yn hyblyg wrth ddefnyddio atafaelebau gan eu bod yn seiliedig ar incwm yn hytrach na threuliau.

"os ydym wedi sefydlu atafaeleb enillion a bod rhywun yn ennill llawer o arian, wel dydi hynny ddim yn seiliedig ar dreuliau'r unigolyn, ond ei incwm yn unig. Nid yw'r ffaith bod gan rywun gyflog da yn golygu bod ganddo arian dros ben. Felly rydym yn hyblyg o ran hynny."

4.39 Dywedodd dau awdurdod y byddent yn ystyried sefydlu dwy atafaeleb enillion pe gallent weld bod yr atafaeleb gyntaf yn isel. Gwnaed hyn fel bo modd talu'r ddyled ynghynt ac osgoi'r costau'n gysylltiedig ag asiantau gorfodi. Fodd bynnag, roedd un awdurdod yn gwahardd hyn, gan ddweud na fyddai'n cynnal dwy atafaeleb pe bai'r amgylchiadau'n awgrymu y byddai hynny'n amhriodol, neu pe bai'r unigolyn wedi dweud wrth yr awdurdod ei fod yn profi anawsterau ariannol.

"wel, fel rheol fyddwn ni'n sefydlu dwy atafaeleb enillion. Os gallwn weld fod lefel yr atafaeleb gyntaf yn isel, yna bydd gennym dystiolaeth wedyn na fyddai'n briodol cael ail atafaeleb gan y byddai'n is na'r trothwy [enillion] ar gyfer ail atafaeleb. Ond hefyd, os yw cwsmer wedi cysylltu â ni ac wedi mynegi pryderon, gan ddangos ei fod yn profi

caledi ariannol, byddem yn parhau i weithredu un atafaeleb yn unig, neu efallai ond am gyfnod penodol o amser er mwyn addasu i'r hyn sy'n mynd i ddigwydd."

- 4.40 Mynegodd mwyafrif yr awdurdodau rwystredigaeth ynghylch y broses o wneud cais i atafaelu enillion neu fudd-daliadau yn gysylltiedig â chyfrifon unigol ar ôl gorchymyn dyled. Teimlai nifer o awdurdodau fod codi tâl ar unigolion am orchymyn dyled yn fesur diangen a oedd yn cosbi'r unigolyn ar ôl iddo fynd ati'n rhagweithiol i rannu gwybodaeth a gwneud cais o'i wirfodd i atafaelu enillion neu fudd-daliadau. Teimlwyd bod hyn, o bosib, yn atal yr awdurdod rhag meithrin perthynas gadarnhaol ag unigolion a oedd ymgysylltu ac yn ymroi i fodloni eu hymrwymiaidau.

"Rwy'n credu'n wirioneddol y byddai'n haws pe bai modd inni, er enghraifft, atafaelu budd-daliadau heb godi gŵys, oherwydd mae hynny'n creu cost, ond byddai'n rhaid iddyn nhw gytuno i hynny yn amlwg. Heb iddyn nhw gytuno, fydddech chi ddim yn gallu gwneud hynny, ond o leiaf wedyn gallech chi ddweud, cofiwch os gewch chi ŵys a gorchymyn dyled, bydd hynny'n creu cost."

- 4.41 Teimlwyd bod atafaelu budd-daliadau yn ddull effeithlon ac yn cynnig sicrwydd hirdymor i awdurdodau. Teimlwyd hefyd ei fod yn fuddiol i'r unigolion, gan ei fod yn rhoi'r tawelwch meddwl iddynt o wybod eu bod yn ad-dalu eu dyled ar lefel a oedd yn fforddiadwy iddynt. Nododd awdurdodau hefyd fod ad-daliadau'n cael eu pennu'n is na'r swm a'r ffioedd ychwanegol y byddai unigolion yn eu talu i'r asiantau gorfodi. Yr oedd rhai'n rhwystredig nad oedd rhyw lawer o fudd-daliadau y gellid atafaelu ohonynt, ac ynghylch lefelau'r didyniadau a oedd yn bosibl.

Asiantau Gorfodi / Cymryd Rheolaeth Dros Nwyddau

- 4.42 Byddai awdurdodau'n defnyddio asiantau gorfodi pan nad oedd unrhyw ddull arall posib, neu ar ôl i bob dull arall fethu.

"Dydyn ni ddim yn ceisio sicrhau taliad drwy fynd â nwyddau ymaith; does neb am gymryd nwyddau o eiddo, ond y nod ydi ceisio cael y cwsmer i wynebu ei gyfrifoldeb i dalu."

- 4.43 Un o'r rhesymau a nodwyd pam bod dulliau eraill wedi methu oedd y ffaith na chafwyd ymateb i'r cais am wybodaeth yn dilyn gorchymyn dyled. Byddai'r wybodaeth hon yn

galluogi awdurdodau i ffurfio barn ddeallus ynghylch y cam gorfodi mwyaf priodol i'w weithredu. Dywedodd awdurdodau nad oedd llawer o unigolion yn darparu'r wybodaeth ofynnol, er gwaethaf y bygythiad o ddirwy am beidio gwneud hynny (nid oedd pob awdurdod yn gorfodi dirwy). Datgelodd un awdurdod ei fod yn derbyn oddeutu 30-40 y cant o ffurflenni yn ôl, a oedd yn welliant o gymharu â'r 10 y cant oedd yn cael ei dderbyn cyn newid y rheoliadau a symleiddio'r ffurflenni. Tybiai awdurdod arall ei fod yn cael oddeutu 5 y cant o'r ffurflenni yn ôl. Mae'r gyfradd ddychwelyd isel hon yn golygu nad oes gan awdurdodau ryw lawer o ddewis ynghylch sut i weithredu er mwyn adennill yr arian, hy, os nad oes gan yr awdurdod unrhyw ddata hanesyddol ar amgylchiadau ariannol yr unigolyn, ni fydd modd defnyddio Gorchymyn Atafaelu.

- 4.44 Dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau eu bod yn ceisio cyfyngu ar yr achosion a anfonir at asiantau gorfodi drwy gymryd camau ychwanegol i geisio cysylltu ag unigolion cyn anfon yr achos. Rhoddodd awdurdodau enghreifftiau o alwadau, negeseuon e-bost neu lythyrau ychwanegol yn rhybuddio y byddai camau gorfodi'n cael eu gweithredu'n fuan. Er enghraifft, bydd system un awdurdod yn anfon llythyr yn awtomatig i rybuddio y bydd yr achos yn cael ei drosglwyddo i asiant gorfodi mewn 14 diwrnod os na fydd yr unigolyn yn cysylltu. Lle'r oedd y camau hyn yn cael eu cymryd, disgrifiai'r awdurdodau ganlyniadau cadarnhaol, oherwydd teimlwyd nad oedd pobl yn gallu cuddio'u pen yn y tywod i'r un graddau wrth siarad â rhywun. Fodd bynnag, mynegodd yr awdurdodau fod y camau hyn yn gyfyngedig ar sawl lefel. I ddechrau, nid oedd ganddynt rifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost yn aml ac, yn ail, roedd yr adnoddau yr oedd eu hangen er mwyn bod yn rhagweithiol fel hyn yn aml yn brin.
- 4.45 Bydd y rhan fwyaf o awdurdodau hefyd yn adolygu hanes yr achos i weld a all ddefnyddio unrhyw wybodaeth i greu cysylltiad ag enillion neu fudd-daliadau. Gellir hefyd ddefnyddio hanes yr achos i weld pa gamau a gymerwyd yn y gorffennol, a hefyd i chwilio am unrhyw gysylltiad diweddar a phroffil unigolion (fel oedran, dangosyddion problemau iechyd meddwl) a all fod o gymorth i benderfynu ynghylch y llwybr gorau ar gyfer y dyfodol. Mae rhai awdurdodau wedi prynu meddalwedd arbenigol sy'n gwirio hanes achosion yn awtomatig cyn anfon cyfrifon at asiantau gorfodi, tra bydd eraill yn cynnal gwiriadau â llaw.
- 4.46 Dywedodd yr hol awdurdodau fod ganddynt berthynas gadarnhaol ag asiantaethau gorfodi. Roedd awdurdodau'n gwerthfawrogi lefel yr wybodaeth yr oeddent yn gallu ei chasglu

ynghylch amgylchiadau unigolion yn sgil defnyddio asiantau gorfodi. Disgrifiodd pob un ohonynt y prosesau y maent wedi'u sefydlu i fonitro perfformiad ac ymddygiad asiantau gorfodi, a oedd fel arfer yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd i adolygu ffigurau perfformiad, cwynion wedi'u cadarnhau a materion a oedd yn codi.

"Mae gennym gytundebau lefel gwasanaeth, ond dim contract ffurfiol (fel sydd gan lawer o awdurdodau), felly pe bai yna unrhyw awgrym bod unrhyw gwmni yn gweithredu mewn unrhyw ffordd a oedd yn debygol o ddifetha enw da yr awdurdod leol ac/neu o achosi problemau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, byddai'r berthynas honno'n dod i ben, felly mae cael perthynas fwy hylifol yn gweithio'n dda. Felly, yn amlwg byddwn yn adolygu eu perfformiad yn wythnosol, ac yna'n cyfarfod â nhw, wel cysylltu â nhw bob dydd, ac wedyn yn cyfarfod â nhw'n ffurfio bob chwarter ac yn adolygu perfformiad ac ati, a dyna'r ffordd y mae'n cael ei reoli."

- 4.47 Ceir trafodaeth fanylach ar brofiadau awdurdodau o'r berthynas sydd ganddynt ag asiantaethau gorfodi yn ddiweddarach yn y bennod hon.
- 4.48 Roedd dau awdurdod, yn y gorffennol wedi anfon eu swyddogion adennill eu hunan i ymweld â dyledwyr nad oeddent wedi derbyn unrhyw ohebiaeth ar eu cyfer cyn cymryd camau gorfodi. Fodd bynnag, canfu'r ddau awdurdod mai ychydig iawn o lwyddiant a gafwyd drwy'r dull hwn, gan weld mai ychydig o bobl a atebai'r drws ac ychydig a ymatebai i'r ohebiaeth fyddai'n cael ei gadael. Gan hynny, nid yw'r naill awdurdod na'r llall yn mynd ati i ymweld ag unigolion cyn cymryd camau gorfodi, oni chaiff nodweddion bregus eu hadnabod (yn achos un o'r awdurdodau). Fodd bynnag, adroddodd dau awdurdod arall eu bod yn cynnal ymweliadau achlysurol. Dywedwyd y byddai'r ymweliadau hyn yn digwydd pan na fyddai ganddynt ryw lawer o wybodaeth am unigolyn, ond eu bod yn tybio bod yr unigolyn yn fregus. Mewn un awdurdod, roedd gan y staff hyblygrwydd i arfer eu doethineb eu hunain ac i ymweld ag unigolyn eu hunain, os oeddent yn tybio y byddai hynny'n fuddiol. Adroddodd awdurdodau eraill eu bod yn gweithio'n agos â'r timau Cymorth Tai, ac mai'r Swyddogion Tai yn y timau hynny fyddai yn y sefyllfa orau i gynnal ymweliadau cartref a chasglu gwybodaeth a fyddai o fudd i'r tîm casglu ac adennill.
- 4.49 Roedd un awdurdod wedi canfod bod anfon gohebiaeth gorfodi o dan frand gwahanol yn ddull effeithiol. Yr oedd teimlad y byddai unigolion yn fwy tebygol o ymateb pe baent yn tybio bod eu cyfrif wedi cael ei atgyfeirio i asiantau gorfodi o'r sector preifat.

- 4.50 Mae gan bob un o'r awdurdodau drothwy isafswm, ac ni fyddant yn anfon cyfrif at asiant gorfodi os yw'n is na'r trothwy hwnnw. Roedd yr awdurdodau i raddau helaeth yn gyson o ran gwerth isafswm dyled yr oeddent yn ei fabwysiadu fel y trothwy atgyfeirio. Bydd un awdurdod yn anfon achosion at asiantau gorfodi os ydynt yn uwch na throthwy isaf, ond nid yw'n caniatáu i'r asiantau gorfodi ymweld â'r unigolyn ond os yw'r ddyled yn uwch na throthwy uwch penodedig. O dan y trothwy hwn, ni chaiff asiantau ond ffonio neu ysgrifennu at unigolion.
- 4.51 Soniodd sawl awdurdod am drosglwyddo amryw o ddyledion o'r blynyddoedd cynt i asiantau gorfodi ar yr un pryd. Er bod ffi cydymffurfio o £75 yn cael ei hychwanegu at bob achos, golygai hyn mai ond un ffi gorfodi o £235 fyddai'n cael ei chodi pe bai'r achos yn mynd rhagddo, ac y byddai angen cynnal ymweliad. Mae hyn yn cadw'r gost mor isel ag sy'n bosib i'r dyledwr.
- 4.52 Roedd hi'n ymddangos bod cyfraddau casglu asiantau gorfodi yn amrywio, gyda rhai awdurdodau'n dweud bod 30 y cant, ac eraill yn dweud bod oddeutu 50 y cant o achosion a achosion a drosglwyddwyd i asiantau gorfodi wedi'u casglu¹¹. Bydd angen gwneud mwy o ymchwiliad i ddeall y rhesymau am bod cyfraddau casglu'r achosion a anfonir at asiantau gorfodi yn amrywio, a'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar effeithiolrwydd hynny fel dull o adennill dyledion.
- 4.53 Soniodd un awdurdod am asiantau gorfodi o ran eu gwerth am arian, a dywedodd nad oedd yr enillion yn dda iawn. Awgrymodd yr awdurdod y gallai ddechrau symud i ffwrdd oddi wrth asiantau gorfodi a dechrau mynd ar drywydd dyledion ei hunain. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr awdurdod hwn ymhlith yr awdurdodau llai a oedd eisoes yn cyflawni llawer o waith gwirio a llaw.

Camau gorfodi dewis olaf

- 4.54 Cyn defnyddio camau gorfodi dewis olaf, byddai awdurdodau'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwilio i raddau amrywiol. Roedd hi'n ymddangos nad oedd yr awdurdodau'n sicrhau ynghylch pa ddulliau oedd yn dderbyniol ac i ba ddiben. Crybwyllwyd y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn fwyaf aml fel dull o gasglu gwybodaeth ychwanegol am

¹¹Adroddwyd y ffigurau hyn yn y cyfweiliadau. Nid ydynt wedi'u dilysu ac ni wnaeth pob awdurdod eu darparu. Nid oedd sicrwydd a oedd awdurdodau'n cyfeirio at gyfran o'r ddyled a gasglwyd neu gyfran yr achosion.

unigolion, a allai fod o gymorth i sefydlu a oedd ganddynt y modd i dalu, neu a oeddent mewn swydd. Soniodd un awdurdod hefyd am ddefnyddio ymchwilydd preifat. Gellid defnyddio'r dulliau ymchwilio hyn i benderfynu sut fyddai orau i symud ymlaen â'r achos; mewn rhai achosion, gallai'r wybodaeth helpu i atal y camau gorfodi mwy difrifol (fel darparu gwybodaeth am gyflogaeth), ac mewn achosion eraill gallent ddarparu tystiolaeth o wrthod bwriadol neu esgeulustod beius.

- 4.55 Disgrifiai rhai awdurdodau broses gymeradwyo lle'r oedd yn rhaid iddynt lofnodi'r camau gorfodi mwyaf difrifol ar ôl defnyddio asiantau gorfodi, a phenderfyniadau dileu. Disgrifiai rhai baneli cymeradwyo mewnol a oedd yn cynnwys aelodau uwch o staff y rhoddwyd awdurdod iddynt gymeradwyo codi trothwyon dyled ar gyfer achosion traddodi a dileu. Gofynnwyd i'r paneli hyn hefyd gytuno ar y ffordd orau o weithredu mewn achosion neilltuol, lle gallai gweithredu mewn rhyw fodd neu'i gilydd achosi llawer o gostau ariannol i'r cyngor, a risg o enillion gwael. Dywedodd un awdurdod fod cytundeb fframwaith dileu dyledion yn sail i'r broes hon, a oedd yn cynnwys trothwyon dyledion yr oedd gan bob swyddog awdurdod dynodedig i'w dileu, a gofyniad i ystyried goblygiadau natur fregus yr unigolyn wrth wneud penderfyniad.
- 4.56 Mae awdurdod arall yn cynnwys profforma manwl sy'n amlinellu'r dulliau gwirio a gwrthbwysu y mae angen cyflwyno tystiolaeth ohonynt cyn y gellir rhestru achos ar gyfer cam gorfodi dewis olaf.

Traddodebau

- 4.57 Caiff awdurdodau wneud cais i draddodi i garchar am hyd at dri mis fel dewis olaf ar ôl i asiant gorfodi ddychwelyd y ddyled i'r awdurdod, heb ei chasglu. Yn ôl cyfraith achosion, dylid defnyddio camau traddodi fel mesur i orfodi'r unigolyn yn hytrach na'i gosbi, ac adroddwyd mai dyna oedd yn digwydd yn yr holl awdurdodau a ddefnyddiai'r camau hynny.
- 4.58 Nid yw pob awdurdod lleol yn cynnal achosion traddodi, ond bu modd inni drafod traddodebau mewn rhyw fodd, boed hynny drwy brofiad o'r gorffennol neu'r dulliau a ddefnyddir yn eu lle. Teimlai'r holl awdurdodau nad oedd achosion traddodi yn ffordd ddymunol o weithredu yn erbyn unigolyn. Pwysleisiwyd mai dewis olaf oedd achosion

traddodi, ac mai ond ar ôl treulio cryn amser ac ymdrech yn ceisio sefydlu cysylltiad ag unigolion neu'n archwilio dulliau adennill eraill, y byddent yn cael eu hystyried.

- 4.59 Os bydd awdurdodau yn galw unigolion i'r llys, bydd amllder hynny'n amrywio. Dengys data meincnodi fod cyfanswm y gwysion traddodi, sef cyfarwyddyd gan y llys i fod yn bresennol ar gyfer gwrandawriad wedi gostwng o 480 yn 2013-14 i 326 yn 2016-17¹².
- 4.60 Dywedodd yr holl awdurdodau fod angen traddodebau fel ffordd o orfodi'r lleiafrif sydd yn gwrthod talu, yn hytrach na'r rhai nad ydynt yn gallu talu, i wneud hynny. Yn y camau adennill olaf hyn, disgrifiai awdurdodau bobl a oedd wedi dod yn gyfarwydd â'r broses adennill ac, yn sgil hynny, a oedd yn osgoi ymgysylltu â'r cyngor. Yr oedd llawer yn mynegi rhwystredigaeth ynglŷn â'r ffaith ma ond drwy fygwth achos llys yr oeddent, o'r diwedd, yn llwyddo i ymgysylltu â rhai unigolion. O ganlyniad i hyn, mynegodd rhai awdurdod sydd ar hyn o bryd yn osgoi traddodeb neu fethdaliad eu bod yn ailystyried eu dulliau er mwyn ymdrin â nifer fach o gyfrifon uchel eu gwerth.
- 4.61 Mae pob awdurdod, p'un a yw'n defnyddio traddodebau ai peidio, yn gwerthfawrogi ei allu i fygwth traddodi er mwyn ysgogi unigolion i gymryd camau i dalu neu i ymgysylltu â'r awdurdod ac adennill arian cyhoeddus hanfodol. Roedd yr holl gyfranogwyr yn rhannu'r farn ei bod hi'n bwysig rhoi'r pŵer i awdurdodau ddefnyddio'r bygythiad o draddodeb pan oedd angen hynny, ac os oedd y weithred honno'n gymesur er mwyn adennill y ddyled. O gael gwared â'r pŵer i weithredu a chanlyn achos traddodi yn cael eu tynnu ymaith, roedd rhai yn pryderu y byddai angen ffordd arall o weithredu a oedd yn debyg o ran grym, fel canlyniadau i sgôr credyd yr unigolyn.

"mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud yn siŵr nad yw'r pŵer yma [drwy'r draddodeb] yn cael ei dynnu ymaith, gan mai ond mewn achosion dethol iawn y byddwn yn ei ddefnyddio, ac mae'n gwbl hanfodol cael ystod lawn o bwerau i gasglu'r dreth, oherwydd os nad oes gennym yr ystod lawn o bwerau, allwn ni ddim casglu'r ddyled, mae ein cyfraddau casglu'n dechrau gostwng, ac wedyn ceir mwy o bwysau ar wasanaethau yn sgil hynny."

- 4.62 Dywedodd rhai awdurdodau eu bod yn ymroi'n rhagweithiol i addysgu pobl ynghylch eu gallu i ddefnyddio traddodeb, os oes angen, yn fuan yn y broses o gyfathrebu â rhai

¹²Archwilir y ffigurau hyn ymhellach ym Mhennod 5 - Meincnodi.

unigolion. Teimlwyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu cyngorau i negodi a chynnal trefniadau addas â rhai unigolion.

- 4.63 Teimlwyd bod llythyrau gŵys traddodi o werth uchel, a chan gydnabod y gwerth o gyrraedd unigolion ychydig cyn y cam traddodi, mae rhai awdurdodau'n ystyried canolbwyntio eu hymdrechion ar y cam hwnnw; mae un yn penderfynu a ddylid gweithredu gweithdy lle gallai unigolion ymgysylltu â'r awdurdod cyn gwrandawriad llys, ac mae dau o leiaf yn annog Cyngor ar bopeth i fod yn bresennol yn y gwrandawriad llys er mwyn cynnig cyfle i unigolion gytuno ar drefniant heb fod angen cael gwrandawriad.
- 4.64 Dywedodd un awdurdod a oedd yn cynnal cytundeb o'r fath â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth fod y mwyafrif o achosion bellach yn arwain at geisiadau am orchmynion rhyddhau o ddyled neu gynlluniau ariannol sylweddol. Nid yw'r awdurdod hwn wedi dwyn unrhyw un gerbron llys ers sefydlu'r broses, ac mae'n teimlo bod hyn yn cynnig cyfle terfynol i wahaniaethu rhwng y rhai a all dalu, a'r rhai na all dalu.
- 4.65 Pwysleisiai awdurdodau bwysigrwydd adnabod achosion priodol, sicrhau ansawdd hanes cyfrifon a chasglu tystiolaeth gadarn i ddangos gwrthodiad bwriadol neu esgeulustod beius ar ran yr unigolyn. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu dilysu tystiolaeth bresennol a chasglu tystiolaeth newydd am amgylchiadau'r unigolion, lle bo angen, gan adolygu hanes achosion unrhyw wybodaeth newydd am broffil unigolion, neu ddefnyddio gwybodaeth leol a allai fwrw goleuni ar allu unigolion i dalu, ac ail-anfon ceisiadau am wybodaeth at unigolion, er mwyn iddynt ddarparu gwybodaeth am eu hincwm a'u gwariant.

"wrth gyflwyno achos gerbron gwrandawriad traddodi, mae'n rhaid inni fod yn gwbl fodlon. Fi yw'r un sy'n sefyll yn y llys yn rhoi tystiolaeth yn erbyn y cwsmer, felly mae'n rhaid i mi fod yn gwbl fodlon fy mod wedi gwneud popeth yn iawn, o'r adeg pan gyflwynir y bil hyd hynny."

Bydd proses y llys hefyd yn codi materion nad yw'r awdurdodau yn aml yn gwybod amdanynt.

"dim ond wrth i gwsmeriaid fynd i'r llys y byddwn yn sylweddoli bod ganddyn nhw broblemau eraill, sawl dyled arall, ac mae'n bosib mai ond un elfen o broblem enfawr y maent yn ei wynebu yw'r dreth gyngor."

- 4.66 Esboniodd rhai awdurdodau na fyddent yn cymryd camau traddodi pe na bai'r cwsmer yn ei gyflwyno ei hun gerbron llys, oherwydd bod hynny'n atal y llys rhag cynnal ymchwiliad llawn a phriodol o fodd yr unigolyn, ac mai'r unig opsiwn arall oedd gwneud cais am warant i arestio, sydd yn brofiad blinderus iawn i'r cwsmer.
- 4.67 Teimlai rhai cyfranogwyr nad oedd rhyw lawer o opsiynau ar gael er mwyn adennill dyledion o werth uchel gan gwsmeriaid hunangyflogedig. Os na fydd cwsmer hunangyflogedig yn cynnig unrhyw ffordd i'r awdurdod adennill dyled gan gyflogwr, nad yw'n berchen ar ryw lawer o asedau, a bod ganddo hanes o gredyd gwael, mae'n bosib mai achos traddodi fydd yr unig ffordd bosib o weithredu.
- 4.68 Ymddengys fod gwahaniaethau yn y safbwyntiau ynghylch traddodebau ar draws awdurdodau lleol. Dywedodd pob awdurdod mai dewis olaf yr oeddynt, ac y byddent yn cael eu hystyried ar ôl i ymdrechion eraill i ymgysylltu fethu. Fodd bynnag, yr oedd tri dull gwahanol o ymdrin â thraddodi.
- 4.69 Roedd gan ychydig llai na hanner yr awdurdodau ffordd systematig o brosesu traddodebau, ac roeddent yn cyflwyno traddodebau i'r llysoedd mewn sypiau. Roedd yr awdurdodau hyn yn tueddu i fod yn awdurdodau mwy, ac yn awdurdodau mwy trefol. Amlygodd amryw o'r awdurdodau hyn yr angen am berthynas waith dda â'r llys Ynadon er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal ymholiad modd llawn a phriodol cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Pwysleisiwyd hefyd y dylai swyddog llysoedd yr awdurdod roi cyfarwyddyd i'r ynadon ynghylch yr hyn y dylent, ac na ddylent, ei wneud.
- 4.70 Roedd sawl awdurdod yn mynd ar drywydd traddodebau ar raddfa lai, gan gyfleu'n glir eu bod yn ofalus iawn wrth ddethol achosion i'w traddodi. Fel y dywedodd un awdurdod:
- "... does dim diben gweithredu o gwbl os nad ydych chi'n mynd i ennill unrhyw arian".*
- 4.71 Waeth pa mor fynych yr oedd awdurdodau'n mynd ar drywydd traddodebau, roedd pob un ohonynt yn pwysleisio pwysigrwydd casglu tystiolaeth o allu'r cwsmer i dalu cyn mynd ar drywydd achos llys.
- "Y bobl hynny sydd yn penderfynu'n syml eu bod am wrthod talu, byddwn bob amser yn mynd ar eu trywydd nhw i'w traddodi." Mae traddodi'n ddrud y dyddiau hyn, a dydi hynny ddim yn beth drwg achos mae'n gwneud i'r awdurdod ganolbwyntio ar achosion*

neilltuol a pheidio ag ystyried y llysoedd fel peiriant ar eu cyfer, dydi'r un ateb ddim yn gweddu i bob sefyllfa lle na fydd rhywun wedi talu...mae angen adnabod dy gwsmer."

- 4.72 Nid oedd gweddill yr awdurdodau yn mynd ar drywydd traddodebau mewn modd gweithredol.

Tabl 4.1: Nifer y Gwysion Traddodi a Gyhoeddwyd yn 2016-17

	0 o Wysion Traddodi	Llai na 10 o Wysion Traddodi	10 neu fwy o Wysion Traddodi
Nifer yr Awdurdodau	6	6	9

Data a gymerwyd o Ddata Meincnodi Awdurdodau Lleol 2016-17

Nid oes data ar gael ar gyfer un awdurdod lleol, felly mae'r data yn creu cyfanswm o 21.

- 4.73 Nododd un awdurdod nad yw'n mynd ar drywydd achosion traddodi ar hyn o bryd ei bod hi'n anodd iddo adnabod achosion priodol i'w traddodi oherwydd ansawdd yr wybodaeth a oedd ganddynt ar gyfrifon cwsmeriaid. Disgrifiodd ambell awdurdod arall hefyd eu bod yn ei chael hi'n anodd casglu digon o dystiolaeth i fynd ar drywydd camau traddodi.

"weithiau mae'r achosion yn dod yn ôl gan yr asiantau gorfodi, da i ddim, amgylchiadau personol gwael, a bydd y ddyled bob tro yn cael ei dileu. Ond weithiau, bydd rhai yn dod yn ôl ac yn dweud - yr her yw adnabod y rhai sy'n gwrthod talu a'r rhai sy'n methu talu....Ceisio canfod a yw'r unigolyn yn gwrthod talu'n wirioneddol, a'r her yw casglu'r dystiolaeth i brofi hynny, oherwydd ein cofnodion mewnol...Mae methdalau yn iawn, gallwn ni edrych ar gofnodion y Gofrestrfa Tir, rydyn ni'n gwybod bod ganddyn nhw gartrefi. Ond yr hyn yr ydych yn edrych arno yw rhywun ar incwm uchel. Gallai fod yn rhentu, ond yn dal ar incwm uchel. Felly, mae'n golygu eu hadnabod nhw a gofyn pam bod yr unigolyn yna yn gwrthod talu?"

- 4.74 Er mwyn gwirio a chydbwyso'n derfynol, defnyddiai un awdurdod brofforma ar gyfer traddodi sy'n archwilio'r camau a gymerwyd yn flaenorol ac unrhyw faterion bregusrwydd, ac sy'n rhoi esboniad clir o'r sail resymegol dros draddodi'r achos. Byddai un awdurdod nad oedd yn traddodi rhyw lawer o achosion yn anfon llythyr wedi'i eirio'n gryfach na gohebiaeth adennill flaenorol. Dywedai'r llythyr y gallai'r unigolyn wynebu achos llys pe na bai'n ymdrechu i dalu'r ddyled.

4.75 Bu modd i rai awdurdodau roi enghreifftiau o achosion traddodi llwyddiannus a arweiniodd at daliad llawn neu drefniant addas gan gwsmeriaid nad oeddent cyn hynny wedi ymgysylltu â'r cyngor, naill ai yn ystod neu'n syth ar ôl yr achos llys Bu modd i'r awdurdodau roi enghreifftiau o sefyllfaoedd lle'r oedd cwsmeriaid wedi talu'r ddyled yn syth ar ôl achos traddodi. Nododd rhai cyfranogwyr fod y cyhoeddusrwydd yn sgil yr achosion traddodi, er ei fod yn anghymesur o ystyried nifer yr achosion traddodi sydd yn dwyn ffrwyth mewn gwirionedd, yn gallu bod yn sgil-gynnyrch cadarnhaol sy'n annog cwsmeriaid i ystyried y Dreth Gyngor yn ddyled â blaenoriaeth, ac i ymgysylltu â'r awdurdod.

- 4.76 Nododd mwyafrif yr awdurdodau hefyd fod agweddau newidiol llysoedd Ynadon yn ffactor pwysig. Yn benodol, soniai awdurdodau am amharodrwydd Ynadon i draddodi unigolion fel ffactor allweddol a oedd yn rheoli nifer yr achosion fyddai'n mynd rhagddynt i'r cam traddodi.
- 4.77 Dywedai awdurdodau fod angen cynnal amryw o wrandawiadau llys er mwyn sefydlu tystiolaeth o wrthodiad bwriadol neu esgeulustod beius a, chan hynny, yr oedd nifer o gyfleoedd i gwsmeriaid ymrwymo i drefniant dilynol. Esboniodd awdurdodau nad oedd traddodi unigolion yn eu helpu i adennill y ddyled, achos pe bai'r unigolyn yn gorfod mynd i'r carchar, efallai na fyddai'r awdurdod yn teimlo bod ganddo unrhyw ddewis ond dileu'r ddyled:

"Nid yw ynadon am eu hanfon i'r carchar p'run bynnag. Yn reit aml bydd amryw o wrandawiadau llys yn cael eu cynnal...Dydyn ni ddim am weld pobl yn mynd i'r carchar mewn gwirionedd gan nad ydym wedi casglu'r dreth, ac os byddant yn cwblhau'r ddedfryd honno, does yr un cam arall y gallwn ni ei gymryd yn eu herbyn i unioni'r sefyllfa. Yn dechnegol, does di m rhaid i chi ddileu'r ddyled, ond does dim ffordd arall o unioni'r sefyllfa os bydd yr unigolyn yn cwblhau ei ddedfryd yn llawn. Does na neb wedi bod yn y carchar yn [enw'r awdurdod] ers blynyddoedd. Anaml iawn y byddwn ni'n defnyddio'r opsiwn yna. Ond mae'n fygythiad. Wrth drafod â chwsmeriaid, gallwch gyfeirio at y ffaith bod y pwerau hyn yn bodoli os oes angen, ond gwneud hynny mewn ffordd fydd yn ysgogi pobl i ddechrau meddwl, oes mae angen i ni drin hyn fel...mae'r dreth Gyngor yn ddyled â blaenoriaeth;

- 4.78 Hefyd, disgrifiai rhai awdurdodau amgylchiadau lle'r oedd y llys wedi gorfodi trefniant ad-dalu a oedd annigonol i glirio'r ddyled, gan olygu y byddai sefyllfa'r unigolyn yn gwaethygu yn y tymor hir.

"mae barnwyr yn amharod iawn i anfon unrhyw un i'r carchar, ac yn tueddu i gymryd pob cam posib i osgoi hynny. Yn y pen draw, felly, dydw i ddim am weld unrhyw un yn y carchar. Rydyn ni am eu gweld nhw'n cytuno i dalu eu treth gyngor. Felly, mae'r achos diwethaf gawson ni, [x], wedi ymrwymo i drefniant - neu fe gafodd o gyfarwyddyd i dalu swm penodol, x bob mis, ond mae hynny'n llai na hanner y swm

sydd ei angen er mwyn clirio dyled eleni, felly hyd yn oed wrth dalu'r swm yna, mae'r dyledwr yn mynd i lithro i fwy o ddyled, a dydi o ddim yn cael yr effaith a ddymunir."

4.79 At ei gilydd, roedd gan awdurdodau nad oeddent yn mynd ar drywydd traddodebau un o dri safbwynt:

- ni fyddai yr un o'u hachosion cyfredol yn addas i'w traddodi, gan nad oedd gan bobl yr adnoddau i dalu
- ni fyddai'r enillion o'r broses yn ddigon i gyfiawnhau'r adnoddau o ran costau staff, costau'r llys a chostau i'r cwsmeriaid
- nid oeddent yn teimlo'n gyffyrddus yn bwrw ymlaen i draddodi, ond roeddent yn gwerthfawrogi'r gallu i ddefnyddio hynny fel bygythiad.

4.80 Cyfeiriodd un awdurdod at y ffaith ei fod wedi newid ei safbwynt ynghylch traddodebau yn y blynyddoedd diwethaf. Yn flaenorol, byddai'n defnyddio traddodebau ar ôl i bob cam arall fethu, a phan yr oedd y teimlo bod modd cyfiawnhau traddodeb er mwyn cyflawni ei ddyletswydd i sicrhau nad yw'r trethdalwyr hynny sydd yn talu ar amser yn cael eu cosbi gan eraill nad ydynt yn gwneud hynny, pan fo'n angenrheidiol a phriodol. Fodd bynnag, gan gydnabod bod achosion traddodi yn cymryd amser, yn hirfaith ac yn ddruod, ac o ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol, mae'r defnydd ohonynt wedi gostwng. Fe'u harchwilir bellach ar sail fwy masnachol yn yr awdurdod hwn, gan edrych ar gost traddodi yn erbyn yr enillion. Maent yn ceisio casglu mwy o wybodaeth ynghyd fel proffil o'r ardal, chwiliadau credyd ac unrhyw wybodaeth gefndir am bobl er mwyn gweld a oes unrhyw arwydd y gallant dalu ai peidio.

4.81 Dywedodd awdurdod arall fod newid llai bwriadol wedi digwydd o ran dull gweithredu, gan greu canlyniadau tebyg. Yr oedd yn arfer ymroi i fynd ar drywydd traddodebau, ond symudodd y swydd dynodedig i swydd arall felly mabwysiadodd yr awdurdod ddull gwahanol, gan fuddsoddi i geisio ymgysylltu â phobl ynghynt yn y broses yn lle traddodi, a gwelwyd gwelliant yn y cyfraddau casglu.

"rydyn ni'n casglu mwy o dreth gyngor yn ystod y flwyddyn bellach nag yr oedden ni wrth roi nifer gweddol fawr o achosion drwy'r broses draddodi. A dydw i ddim yn meddwl y gallaf roi esboniad gwell na'r ffaith ein bod ni'n canolbwyntio a cheisio

ymgysylltu mewn modd mwy rhagweithiol â phobl, a chyfeirio pobl yn well ynghynt yn y broses"

- 4.82 Dywedodd yr awdurdod fod achosion traddodi'n ddrud ac yn cymryd amser, a bod pobl yn aml yn methu taliad ac wedyn yn cael eu dwyn gerbron llys unwaith eto, gan ddefnyddio mwy o adnoddau. Fodd bynnag, maen nhw'n ychwanegu'r cafeat canlynol:

"Nid yw hynny'n golygu na fyddai gennym nifer fach o achosion a allai fod yn addas ar gyfer hynny [traddodi], pe baem yn ei chael hi'n amhosib casglu'r arian drwy unrhyw ddull arall.

Dyma bwynt a adleisiwyd gan lawer o'r awdurdodau nad oeddent ar hyn o bryd yn mynd ar drywydd traddodebau.

- 4.83 Dywedai rhai awdurdodau nad oedd ganddynt ryw lawer o opsiynau ar ôl i asiant gorfodi ddychwelyd dyled, os nad oeddent yn dymuno codi gŵys traddodi. O blith y rhai a drafododd hyn yn y cyfweiliad, siaradai rhai am ailadrodd gwiriadau cofnodion er mwyn canfod a oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol neu ddiweddariadau ar y cyfrifon a fyddai'n golygu bod dull adennill arall yn bosib. Yn dilyn y gwiriadau gweinyddol hyn, byddai awdurdodau'n cymryd sawl cam er mwyn osgoi dileu'r ddyled. Soniodd rhai am ailgyflwyno'r ddyled i asiant gorfodi er mwyn ceisio cysylltu â'r unigolyn unwaith eto:

"pe bai achos yn dod nôl atom ni, a'r rheswm arferol am hynny fyddai methiant i sicrhau unrhyw gyswllt gan y cwsmer o gwbl, bydden ni i ddechrau'n ysgrifennu llythyr at y cwsmer ac yn dweud, sylwch mae'r ddyled yma'n dal heb ei thalu. Byddem yn adolygu ein cofnodion eto ac yn gweld a yw'r amgylchiadau wedi newid, a oes gennym unrhyw wybodaeth newydd i atafaelu neu, os ydynt wedi symud i le arall, a ydym wedi canfod cyfeiriad newydd ar eu cyfer, wedyn bydden ni'n ysgrifennu atynt yn y cyfeiriad hwnnw i esbonio'r sefyllfa a mynd drwy'r holl broses eto. Os nad oes dull arall o adennill y ddyled, ond ein bod wedi canfod cyfeiriad newydd, gallai'r achos gael ei drosglwyddo'n ôl i'r asiant gorfodi... Ond os nad ydym yn gallu cael hyd i'r cyfeiriad newydd ac nad oes unrhyw ffordd o wybod ble mae'r bobl yma, mae'n bosibl y bydd angen inni wneud cais i ddileu'r ddyled. Fodd bynnag, os cawn hyd iddyn nhw'n ddiweddarach, bydd modd inni fynd ar drywydd y ddyled bryd hynny."

- 4.84 Yr oedd un awdurdod nad oedd wedi mynd ati'n weithredol i draddodi er sawl blwyddyn oherwydd y farn nad oeddent yn gost-effeithiol hefyd yn cyfeirio at yr angen ma ddull arall o adennill yn y cam hwn:

"gan nad ydym yn mynd ati'n rhagweithiol i draddodi os oes gennym gwsmer neu gwsmeriaid sy'n peidio talu dro ar ôl tro, dydyn nhw ddim yn cysylltu â ni, does gennym ni ddim tystiolaeth o fregusrwydd, dim byd felly - ar ôl i'r asiant gorfodi fynd yno, neu ar ôl inni gyhoeddi hysbysiad traddodi, neu ar ôl inni dderbyn yr achos yn ôl ac anfon llythyr traddodi, mae'n anodd iawn gwybod bryd hynny beth i'w wneud gyda'r unigolyn hwnnw. Felly'r hyn y byddwn ni'n ei wneud bob mis yw rhedeg y cofnod drwy ein system adennill i weld a allwn gael hyd i unrhyw fanylion enillion neu fudd-dal, gan obeithio bod eu hamgylchiadau wedi newid, ond yn aml iawn bydd hon yn broses hirfaith. Yn y pen draw rydyn ni'n rhedeg ar ôl y person - hynny yw, alla i ddim dweud bod gennym ni lawer ohonyn nhw - galla i feddwl am tua pump o bobl o dop fy mhen nad ydyn nhw'n talu ar hyn o bryd, ac nad ydyn nhw wedi talu ers pedair i bum mlynedd, ond rydyn ni wedi rhoi cynnig ar bob dim sy'n bosib hyd yma.... Y peth nesaf yw meddwl am yr hyn y gallwn ni ei wneud, ar wahân i draddodi, a dyna'r adeg lle byddai'n braf cael ffordd arall o adennill."

- 4.85 Dywedai eraill fod angen ailystyried eu safbwynt cyfredol ynghylch traddodi, am eu bod yn teimlo bod eu penderfyniad i beidio gwneud hynny yn golygu mai ychydig o ganlyniadau a wynebai'r rhai a oedd yn parhau i beidio talu. I'r gwrthwyneb, adroddodd un awdurdod nad oedd wedi mynd ar drywydd traddodebau ers sawl blwyddyn ac a oedd wedi tueddu i ddefnyddio methdaliad yn lle hynny, ei fod bellach yn ystyried mynd ar drywydd traddodebau yn weithredol oherwydd y dybiaeth y byddai'n gwella ei gyfraddau casglu. Mae nifer cynyddol o achosion hefyd yn anaddas ar gyfer methdaliad bellach, gyda'r trothwy uwch o £5,000¹³.

"Rydym yn ailystyried [y defnydd o draddodebau] gan fod rhai aelodau'n holi pam nad ydym yn eu defnyddio...oherwydd mae rhai unigolion yn gyfarwydd â'r gêm bellach. Maen nhw'n gwybod os na fyddant yn rhoi mynediad i'r asiant gorfodi, bydd yr achos yn dychwelyd atom ni ac ni fydd unrhyw beth yn cael ei wneud. Rydym yn edrych ar

¹³Cyflwynwyd ar 1 Hydref 2015

achosion nawr, a dydyn nhw ddim yn addas ar gyfer methdaliad, gan nad oes gan yr unigolion unrhyw asedau ac ati, ond maen nhw'n gweithio...mae ganddyn nhw incwm. Ond fyddwn ni ond yn targedu llond llaw o bobl gan fod o'n golygu cymaint o lafur."

- 4.86 Nid oes unrhyw gysylltiad i'w weld rhwng nifer y gwysion traddodi a'r gyfradd o'r dreth gyngor y llwyddir i'w chasglu. Nid yw hyn yn syndod, gan fod y gyfradd gasglu yn ddibynnol ar sawl ffactor, gan gynnwys amddifadedd yr ardal, lefelau'r dreth gyngor yn ogystal â'r ffyrdd eraill y gall awdurdodau deilwra eu systemau a'u dulliau.

Gorchmynion Arwystlo

- 4.87 Yn y cyfweiliadau prin lle cyfeiriodd awdurdodau at y defnydd o Orchmynion Arwystlo, siaradodd cyfranogwyr am bwysigrwydd asesu'r achosion a fyddai'n addas ar gyfer hynny. Dywedai'r awdurdodau y gallai gorchmynion arwystlo fod yn ffordd addas o weithredu yn yr achosion hynny lle nad oedd gan unigolion ryw lawer o incwm nac unrhyw asedau eraill, a lle'r oeddent wedi sicrhau cymaint o fudd-dal ag a oedd yn bosib ond yn dal yn methu talu'r ddyled o fewn ffrâm amser realistig. Bu canfod tystiolaeth ddigonol o berchnogaeth ar yr eiddo yn anodd ar adegau, a gallai'r math o eiddo y mae unigolion yn berchen arno hefyd atal y dull hwn o adennill os, er enghraifft, yw'r eiddo dan sylw yn fferm a heb ei chofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir. Yn debyg i fethdaliadau a thraddodebau, dywedodd yr awdurdodau fod y bygythiad o godi gorchymyn arwystlo yn aml y fodd i sicrhau bod unigolion yn ymgysylltu, hyd yn oed pan na chafwyd unrhyw ymgysylltu cyn hynny.
- 4.88 Yn ôl yr awdurdodau, gallai'r defnydd o orchmynion arwystlo gynyddu o hyn allan wrth gyflwyno pwerau dewiso i awdurdodau lleol godi premiwm y dreth gyngor ar eiddo sydd wedi bod yn wag ers tro ac ail gartrefi¹⁴. Fodd bynnag, dywedodd sawl awdurdod eu bod wedi profi problemau gyda gorchmynion arwystlo. Oherwydd y modd y mae gorchmynion arwystlo yn gweithio, mae'n anochel y bydd cyfnod o amser yn mynd heibio rhwng codi gorchymyn arwystlo a gwerthu eiddo. Yn ystod y cyfnod hwn, yn ôl yr awdurdodau, byddai unigolion yn aml yn rhoi'r gorau i dalu unrhyw daliadau treth gyngor pellach gan fod eu dyled eisoes wedi'i sicrhau yn erbyn gwerth yr eiddo. Fodd bynnag, nid yw'r ddyled sydd

¹⁴O 1 Ebrill 2017, gall awdurdodau godi hyd at 100% o'r gyfradd safonol o'r dreth gyngor ar eiddo sydd wedi bod yn wag ers cyfnod hir ac ail gartrefi - ceir eithriadau i hyn (am fwy o wybodaeth, gwelir: <http://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/council-tax-wales/long-term-empty-homes-second-homes/?skip=1&lang=cy>)

wedi'i sicrhau yn cynnwys dyledion ychwanegol sydd wedi cronni ar ôl codio'r gorchymyn arwystlo.

Methdaliad

- 4.89 Yn debyg i achosion traddodi, nid yw pob awdurdod yn dewis cymryd camau methdalau yn erbyn unigolion. Pwysleisiai'r rhai a ddewisai ddefnyddio methdaliad mai'r bwriad, wrth anfon gorchymyn statudol i fygwth methdaliad, oedd sefydlu cyswllt a dod i drefniant addas. Byddai awdurdodau'n bygwth methdaliad pan oedd angen gwneud hynny, a chan gydymffurfio â rheoliadau gorfodi, er mwyn sbarduno unigolion i weithredu. Pan oedd methdaliad yn cael ei ddefnyddio, dywedai'r awdurdodau na fyddai hynny ond yn digwydd mewn achosion lle'r oedd y ddyled yn uwch na £5,000, a lle'r oedd pob ymdrech i ymgysylltu â'r unigolyn wedi methu. Oherwydd natur y dystiolaeth yr oedd ei hangen er mwyn mynd ar drywydd methdaliad, esboniodd awdurdodau fod y dull hwnnw o adennill yn gostus a'i fod yn cymryd llawer o amser. Fodd bynnag, golygai hynny mai ychydig iawn o achosion methdalau fyddai'n cael eu gweithredu, ac na fyddai'r awdurdodau ond yn mynd ar drywydd methdaliad os oeddent yn hyderus bod gan unigolion yr ecwiti i dalu, ond nad oedd ganddynt yr ymrwymiad i wneud hynny. Nododd rhai awdurdodau fod y gost yr oedd yn rhaid i'r cyngor ei thalu er mwyn mynd ar drywydd methdaliad yn llawer mwy na'r gost o fynd ar drywydd gorchmynion arwystlo neu orchmynion traddodi, felly roedd angen i awdurdodau fod yn sicr y byddai digon o ecwiti neu asedau ar gael i adennill y ddyled a chostau cysylltiedig.
- 4.90 Roedd rhai awdurdodau'n gyndyn o ddefnyddio methdaliad am sawl rheswm, gan gynnwys diffyg hyblygrwydd awdurdodau i weithredu'r methdaliad eu hunain, pryderon nad oedd hynny wedi'i brofi'n wleidyddol ac y gallai unigolion ddioddef canlyniadau anfwriadol a hirdymor yn sgil methdaliad (ee, anhawster wrth geisio cael benthyciad neu agor cyfrif cyfredol). Byddai eraill, fodd bynnag, yn dewis defnyddio methdaliad yn lle achos traddodi. Yn yr achosion hynny, byddai awdurdodau'n pwysleisio pa mor bwysig oedd archwilio a chasglu tystiolaeth o asedau, amgylchiadau personol a bregusrwydd posibl unigolion.

Dileu

- 4.91 Pwysleisiodd awdurdodau mai ond mewn lleiafswm o achosion y byddai dileu dyledion y dreth gyngor dan ystyriaeth. Cyfeiriai rhai awdurdodau at amharodrwydd Llysoedd Ynadon i argymhell trefniadau talu sy'n ymestyn i'r tymor hir. Roedd hyn yn golygu bod gan awdurdodau fawr o ddewis ond dileu'r ddyled, os oedd unigolion yn dioddef caledi er eu bod yn derbyn yr holl fudd-dal yr oedd ganddynt hawl i'w dderbyn, a lle nad oedd ganddynt unrhyw asedau a'u incwm yn brin.
- 4.92 Mae'n anodd amcangyfrif y swm sy'n cael ei ddileu; gall achosion sy'n cynnwys dyled hanesyddol gael cryn effaith ar y ffigurau. Dywedodd un awdurdod mai'r uchafswm a gafodd ei ddileu yn eu blwyddyn orau oedd 0.5 y cant. Adroddodd awdurdod arall ei fod at ei gilydd yn dileu oddeutu 1 y cant. Yn 2016-17, cafodd 0.5 y cant o ddyled ei ddileu yng Nghymru (StatsCymru)

Materion cyffredin

Bregusrwydd

- 4.93 Roedd yr holl gynghorau'n gyfarwydd iawn â'r cysyniad o fregusrwydd (neu o fod yn agored i niwed), ac yn ymdrechu i adnabod unigolion a oedd yn fregus. Nid oedd gan y mwyafrif ohonynt bolisi penodol ar fregusrwydd, ond roeddent yn disgrifio ystod o ddangosyddion neu nodweddion y byddai swyddogion yn chwilio amdanynt. Penderfyniad bwriadol oedd peidio â chael diffiniad penodol o fregusrwydd fel arfer. Dywedai'r awdurdodau na fyddai dull rhy gul o ymdrin â bregusrwydd yn ystyriol o bob cyfres o amgylchiadau neu gyfuniad o ffactorau a allai olygu bod rhywun yn fregus, ac y gallai dull felly fod yn wrthgynhyrchol; gellid ystyried bod y naill unigolyn, a chanddo nodweddion penodol, yn fregus, a dod i gasgliad gwahanol ynghylch unigolyn arall. Mynegodd cyfran fawr o awdurdodau hefyd nad oedd bregusrwydd yn aml yn gyflwr parhaol, a rhoddwyd enghreifftiau lle gellid ystyried bregusrwydd yn gyflwr dros dro, ee yn dilyn profedigaeth ddiweddar.
- 4.94 Roedd cynghorwyr wedi dysgu am fregusrwydd, a dod i ddeall mwy ynghylch hynny, o'u profiad yn y rôl ac ar ôl derbyn hyfforddiant o wahanol ffynonellau. Dywedodd awdurdodau eu bod wedi derbyn hyfforddiant gan sefydliadau Trydydd Sector amrywiol, gan gynnwys asiantaethau cynghori ar ddyledion a chyrrff proffesiynol ac, yn ddiddorol, hyfforddiant

penodol gan asiantaethau gorfodi ynghylch sut i adnabod bregusrwydd. Roedd awdurdodau wedi derbyn hyfforddiant gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, gan Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, gan elusennau iechyd meddwl a chan elusennau eraill, a hefyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Mewn un awdurdod soniwyd eu bod hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ystyried yr heriau a wynebwr gan bobl â dementia wrth geisio rheoli eu hymrwymiaid ariannol.

- 4.95 Roedd pob awdurdod yn effro i'r angen i fod yn ymwybodol o unigolion bregus, ac yn disgrifio sut yr oeddent yn rhoi ystyriaeth i fregusrwydd yn eu prosesau a'u hymwneud ag unigolion, asiantaethau cynghori ac asiantau gorfodi. Cyfeiriodd rhai awdurdodau at *Reoliadau Cymryd Rheolaeth Dros Nwyddau (Ffioedd)* (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014)¹⁵ sy'n cynnwys adran ar fregusrwydd. Ychydig o awdurdodau a oedd yn gallu mynd ati'n rhagweithiol i adnabod unigolion a allai gael eu hystyried yn fregus cyn cyflwyno gorchymyn dyled. Nodai awdurdodau gan amlaf mai'r rheswm dros ddefnyddio asiantau gorfodi oedd diffyg gwybodaeth am broffil yr unigolyn. Roedd gan asiantau y fantais o allu taro ar ddrws yr unigolyn, casglu gwybodaeth amdano a allai fod heb ei gynnwys yng nghofnodion y cyngor a rhannu gwybodaeth a gaffaelwyd o'r newydd â'r awdurdod. Byddai awdurdodau'n aml yn dweud eu bod yn adnabod unigolion bregus drwy'r dull hwn a'u bod, yn yr achosion hyn, yn gallu cytuno naill ai i ailberchnogi'r cyfrifon neu ddileu'r ffioedd gorfodi.
- 4.96 Dywedodd ambell awdurdod eu bod wedi profi anhawster wrth negodi i ailberchnogi cyfrifon gan asiantau gorfodi. Mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd bod asiantaethau gorfodi yn herio eu penderfyniadau; dro arall byddai anghytundeb yn codi ynghylch y ffioedd dan sylw. Roedd yn rhaid i un awdurdod dalu ffioedd i'r asiantaeth gorfodi bob tro y byddai'n dymuno ailberchnogi cyfrif. O ran hyn, roedd yr arferion yn amrywio gyda threfniadau ailberchnogi o fewn yr un awdurdod hyd yn oed yn cael eu penderfynu fesul achos. Roedd yr amrywio yn deillio'n rhannol o'r perthnasoedd amrywiol rhwng awdurdodau a'r asiantaethau gorfodi. Roedd gan rai awdurdodau gytundeb na fyddai asiantaethau gorfodi yn codi ffi pe bai'r ddyled yn cael ei hailberchnogi gan yr awdurdod oherwydd bregusrwydd, tra adroddai eraill y byddai'r awdurdod neu'r unigolyn yn cael talu'r ffi. Dywedodd un

¹⁵ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/353396/taking-control-of-goods-national-standards.pdf

awdurdod o leiaf, os oedd yn rhaid iddynt dalu ffi p'run bynnag, y byddai hynny'n anochel yn cael ei ystyried wrth benderfynu ynghylch achosion:

"Mae'n rhaid inni dalu costau ar adegau, os ydym yn dymuno derbyn achos yn ôl beth bynnag fo'r rheswm, er enghraifft, does dim byd o'i le â'r achos ei hun, ond o ystyried amgylchiadau'r dyledwr, digwyddiadau neilltuol neu beth bynnag fo ei amgylchiadau, a'n bod ni'n meddwl ei bod hi'n rhesymol derbyn yr achos hwnnw yn ôl. Efallai y bydd materion neu amgylchiadau neilltuol yn codi sy'n golygu y dylem dderbyn yr achos yn ôl a gadael iddyn nhw ein talu ni yn lle'r asiant. Wedyn, bydd yn rhaid inni dalu ein hasiant gorfodi i'n galluog ni i wneud hynny".

4.97 Adroddodd rhai awdurdodau eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n honni eu bod yn fregus, gan obeithio y bydd y cyngor yn ystyried nad oes rhaid iddynt dalu'r dreth gyngor na'r ffioedd gorfodi yn sgil hynny. Yn aml, yr oedd teimlad bod hyn yn digwydd pan fyddai unigolion yn mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â'r cyngor i ddatgelu eu bod yn 'fregus', yn hytrach na'u bod yn dangos arwyddion neu nodweddion yn gysylltiedig â hynny. Wrth gysylltu, byddai'r unigolion yn aml yn anfon llythyr templed safonol yr oeddent wedi'i argraffu o'r rhyngwrwyd. Ar adegau, teimlai'r awdurdodau fod hunanadrodd ynghylch bregusrwydd yn arwydd bod unigolion wedi cael eu camarwain i feddwl y byddai datgeliad o'r natur hwn yn helpu eu hachos. Ym mhob achos lle gwneir honiad o'r fath, esboniodd yr awdurdodau eu bod yn oedi unrhyw gamau i adennill dyledion dros dro, bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r wybodaeth ar y cyfrif, a'u bod yn gofyn i'r unigolion ddarparu tystiolaeth o fregusrwydd.

4.98 Un o'r anawsterau cyffredin a nodwyd oedd mai'r rhai a oedd yn fregus, yn enwedig os oeddent â phroblemau iechyd meddwl, oedd yn aml yn lleiaf tebygol o gysylltu â'r awdurdod lleol. Efallai nad oedd ganddynt yr wybodaeth, yr hyder na'r capasiti i gyrchu gwasanaethau neu ofyn am gymorth.

"y broblem gyda phobl sydd yn wirioneddol fregus yw na fyddant yn cysylltu o gwbl nes bo'r beili yno'n sefyll ar garreg y drws yn llythrennol, a dim ond bryd hynny y byddwn ni'n gwybod bod yna broblem...mae hynny'n ymddangos yn andros o annheg, ond os nad ydym yn gwybod unrhyw beth am y cwsmer yma, beth arall yn y byd y gallwn ni ei wneud?"

4.99 Wrth ymdrin â bregusrwydd, byddai awdurdodau'n cymryd sawl cam, yn dibynnu ar amgylchiadau personol yr unigolyn. Pwysleisiai'r awdurdodau nad oedd unigolion bregus

wedi'u heithrio rhag gorfod talu, ond gallai fod angen mwy o gefnogaeth, arweiniad a hyblygrwydd arnynt i dalu. Fel y dywedodd un awdurdod:

"A yw'r bregusrwydd yna'n golygu nad ydyn nhw'n gallu talu, neu a yw'n golygu bod angen ychydig o hyblygrwydd ac arweiniad i'w helpu i gyrraedd y nod?"

- 4.100 I ddechrau, bydd awdurdodau'n gofyn am wybodaeth gan unigolion am eu hamgylchiadau personol, eu hincwm a'u gwariant ac yn ceisio sicrhau eu bod yn cael cymaint o incwm ag sy'n bosibl drwy ganfod budd-daliadau eraill y gallent fod yn gymwys i'w derbyn. Byddai awdurdodau hefyd yn cynnig trefniadau i wneud y taliadau'n haws i'r unigolyn. Yn aml, byddent yn cyfeirio pobl at wasanaethau cynghori, yn enwedig gwasanaethau cynghori ar ddyledion ac yn oedi'r cyfrif (am 28 diwrnod i ddechrau fel arfer) nes i'r unigolyn gael cyngor, a nes bod trefniant wedi'i gynnig.
- 4.101 Dywedodd dau awdurdod y byddent yn ymdrechu unwaith neu ddwy i ymweld ag unigolyn a nodwyd yn fregus er mwyn ceisio sefydlu cyswllt, os nad oedd ganddynt rif ffôn ar ei gyfer. Fodd bynnag, roedd hyn yn eithriad i'r arferion safonol, ac ni adroddodd unrhyw awdurdodau eraill eu bod yn gwneud hynny.
- 4.102 Roedd awdurdod arall wedi cychwyn system goleuadau traffig gyda'i asiantau gorfodi, lle byddai achosion a oedd angen cefnogaeth ychwanegol yn cael eu nodi a'r awdurdod yn mentora'r rhai a oedd yn ei chael hi'n wirioneddol anodd ymdopi â dyledion hyd ddiwedd y trefniant.
- 4.103 Adroddodd un awdurdod a oedd yn cynnwys tîm gorfodi mewnol y byddai, o weld unrhyw arwydd o fregusrwydd, yn sicrhau bod ei asiantau gorfodi yn mabwysiadu dull corfforaethol o ymdrin â dyled ac yn defnyddio'r wybodaeth hon am yr unigolyn yn sail ar gyfer eu dull o adennill unrhyw ddyledion eraill sy'n weddill (fel mân ddyledion, hysbysiadau cosb sefydlog yn gysylltiedig â pharcio ac ati).
- 4.104 Er na thrafodwyd hyn yn fanwl yn ystod y cyfweiliadau, roedd nifer fach o awdurdodau yn cyfeirio at y posibilrwydd o brosesu ceisiadau o dan adran 13a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ar gyfer unigolion sy'n profi caledi ariannol difrifol, a fyddai'n achosi i'r swm gael ei ddileu. Pan grybwyllwyd hynny, roedd hi'n ymddangos bod ceisiadau'n cael eu hargymell yn ôl doethineb yr awdurdod lleol.

Cyfathrebu

- 4.105 Roedd awdurdodau'n darparu gwybodaeth addysgiadol sylfaenol am ddiben a phwysigrwydd y dreth gyngor a'i chyfraniad at gyllideb yr awdurdod lleol. Fel arfer, byddai awdurdodau'n cyfeirio at yr wybodaeth sylfaenol fyddai'n cael ei darparu ar ohebiaeth statudol, ac roedd rhai yn cyhoeddi taflen esboniadol ychwanegol neu'n cyfeirio at wybodaeth ar wefan yr awdurdod. Dywedai'r rhan fwyaf o awdurdodau yr hoffent wneud mwy i addysgu unigolion ynghylch diben a phwysigrwydd y dreth gyngor, pe bai'r adnoddau presennol yn caniatáu hynny.
- 4.106 Roedd awdurdodau'n cynnig llawer o sianelau i unigolion gyfathrebu â hwy. Roedd pob un ohonynt yn cynnig cyfeiriadau post, cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn. Roedd rhai awdurdodau yn darparu manylion cyswllt ar gyfer canolfan alwadau cwsmeriaid lle'r oedd staff wedi'u hyfforddi i dderbyn ceisiadau sylfaenol, fel derbyn taliadau neu sefydlu debyd uniongyrchol. Roedd eraill yn darparu manylion cyswllt uniongyrchol i unigolion ar gyfer y tîm casgliadau ac adennill. Defnyddiai awdurdodau ohebiaeth ysgrifenedig a gwefannau'r cyngor i ddarparu manylion cyswllt y tîm casgliadau ac adennill.
- 4.107 Byddai rhai awdurdodau, os oeddent yn teimlo y byddai unigolion yn llai tebygol o fod â'r modd neu'r gallu i ohebu â'r awdurdod lleol drwy lythyr, ffôn neu e-bost, wedi canfod ffyrdd eraill o ymgysylltu â hwy. Disgrifiai nifer o awdurdodau pa mor bwysig oedd gallu darparu rhyw fath o wasanaeth galw heibio neu wasanaeth i ymgysylltu wyneb yn wyneb ag unigolion. I rai, roedd hyn wedi golygu cynnal darpariaeth galw heibio a fodolai eisoes ar draws yr awdurdod lleol lle'r oedd unigolion yn gallu cael cymorth a chynghor, negodi cynlluniau talu a rhoi'r newyddion diweddaraf i gynghorwyr ynglŷn â'u hamgylchiadau personol. I eraill, roedd hyn yn golygu cydweithio'n agos ag adrannau eraill o'r cyngor, fel cynghorwyr budd-daliadau'r cyngor neu swyddogion cymorth tai i ymgysylltu ag unigolion ar garreg y drws. Teimlwyd bod y dulliau wyneb yn wyneb hyn yn ffordd arbennig o bwysig o feithrin perthnasoedd ag unigolion a allai gael eu hystyried yn fregus ac yn llai tebygol o gysylltu â'r awdurdod lleol ohonynt eu hunain.
- 4.108 Byddai rhai awdurdodau'n defnyddio negeseuon testun i atgoffa unigolion, ac roedd rhai'n dechrau archwilio hyn fel dull posib. Gobeithiwyd y byddai hyn yn achosi gostyngiad mewn costau post yn y pen draw, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyn hyd yn oed ar ôl cyfnod hir o ddefnyddio negeseuon testun. Cafwyd tystiolaeth gymysg o dreialon a brofai effaith

defnyddio negeseuon testun i anfon nodynnau atgoffa a chynyddu'r nifer sy'n ymrwymo i drefniadau debyd uniongyrchol. Teimlai un awdurdod nad oedd rhyw lawer o fudd i negeseuon testun, gan fod yn rhaid i'r negeseuon hynny fod yn gyffredinol, heb y gallu i'w cynllunio'n arbennig. Yn amlwg, nid yw'r dull hwn ychwaith ond yn addas i'r unigolion hynny sydd wedi darparu rhifau ffôn symudol, oherwydd cyfyngiadau a osodwyd yn sgil Deddf Diogelu Data (1998).

- 4.109 Roedd nifer o awdurdodau yn cynnig y dewis i unigolion sefydlu a rheoli eu cyfrifon ar-lein eu hunain, fel y gallent dalu ar-lein, sefydlu debyd uniongyrchol ar-lein a hysbysu'r awdurdodau am unrhyw newid i'w hamgylchiadau.

Hyfforddiant ac arweiniad

- 4.110 Dywedodd y mwyafrif o awdurdodau fod yr adnoddau a oedd ar gael ar gyfer hyfforddiant wedi gostwng, felly roedd llawer ohonynt yn defnyddio hyfforddiant mewn gwaith. Dywedodd rhai awdurdodau eu bod yn defnyddio recordiadau o alwadau ffôn ag unigolion yn rheolaidd er mwyn hyfforddi'r staff, i roi cyfle iddynt ystyried sut y gallent fod wedi ymdrin â'r alwad yn well. Roedd eraill yn paru aelodau newydd o staff â chydweithwyr mwy profiadol i'w galluogi i rannu gwybodaeth. Er gwaethaf gostyngiadau mewn cyllidebau hyfforddi, llwyddodd yr awdurdodau i gynnal hyfforddiant ar y cyd ag awdurdodau eraill er mwyn rhannu'r costau, a derbyn hyfforddiant am ddim gan asiantau gorfodi neu asiantaethau cynghori. Hyfforddiant ar fregusrwydd oedd llawer o'r hyfforddiant a grybwyllwyd gan awdurdodau, ynghyd â chynhwysiant ariannol a dementia.
- 4.111 Nid oedd y Datganiad Ariannol Cyffredin (DAC)¹⁶ yn cael ei ddefnyddio'n eang, ond roedd y rhan fwyaf o awdurdodau wedi dylunio eu fersiwn eu hunain o'r datganiad hwnnw a oedd, yn eu tyb hwy, yn bodloni eu hanghenion yn well. Dywedodd cynrychiolydd o un awdurdod nad oedd y Datganiad yn cynrychioli costau lleol, felly ni fyddai'n berthnasol yn ei ardal. Mae Datganiad Ariannol Safonol (DAS)¹⁷ bellach wedi cael ei gyflwyno i ddisodli'r DAC, ond ni chyfeiriodd yr un o'r awdurdodau at hynny.

¹⁶ Dull unfurf o nodi datganiadau ariannol yw'r Datganiad Ariannol Cyffredin <http://www.cfs.moneyadvicetrust.org/>

¹⁷ Ceir hyd i fanylion y Datganiad Ariannol Safonol yma: <https://sfs.moneyadvice.service.org.uk/en/>

- 4.112 Adroddodd sawl awdurdod eu bod wedi hyrwyddo Polisi Teg ar Ddyledion neu ar Adennill Dyledion. Roedd mwyafrif yr awdurdodau a chanddynt bolisi fel hyn yn ei gadw fel dogfen fewnol, lle'r oedd yn cael ei defnyddio fel llawlyfr gweithredu ac yn aml yn ategu neu'n trosi canllawiau statudol yn gyngor neu'n arweiniad ymarferol, gan ddefnyddio hanes achosion enghreifftiol. Yn rhai awdurdodau, yr oedd hefyd yn cynnwys Cod Ymddygiad a nodai'r safonau y dylai staff gadw atynt wrth weithredu ar ran yr awdurdod a rhyngweithio â'r cyhoedd. Roedd dau awdurdod wedi dewis cyhoeddi eu Polisi Adennill a'u Cod Ymddygiad a'u Polisi Dyledion Teg ar wefan y cyngor.
- 4.113 Roedd gan nifer fach o awdurdodau bolisi dyledion corfforaethol, a dywedai rhai awdurdodau eu bod dechrau sefydlu dull corfforaethol o ymdrin â dyledion a oedd yn ceisio rhesymoli'r modd yr oedd yr awdurdod yn adennill ôl-ddyledion rhent, y dreth gyngor, ardrethi busnes a mân ddyledion. Nododd un awdurdod fod cytundeb wedi'i sefydlu i drefnu pob dyled yn ôl blaenoriaeth er mwyn cynorthwyo tîm y dreth gyngor a'r tîm tai i gasglu dyledion corfforaethol. Nododd ambell awdurdod hefyd fod ganddynt gynlluniau ar waith i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu dull corfforaethol o ymdrin ag adennill dyledion. Teimlent y byddai hynny'n galluogi dull mwy cyfannol o gasglu dyledion a chynorthwyo unigolion i reoli eu dyled.
- 4.114 Roedd dau awdurdod hefyd wedi cychwyn datblygu siarter gwasanaeth cwsmeriaid yr oedd wedi'i darparu i'r cyhoedd ar wefan y cyngor. Roedd y siarter naill ai wedi'i hymgorffori ym mholisi Dyledion Teg y cyngor neu wedi'i chyhoeddi fel dogfen ar wahân ar-lein. Teimlwyd bod hyn yn gam pwysig er mwyn cadarnhau ymrwymiad yr awdurdod tuag at unigolion.

"Mae gennym bolisi dyledion corfforaethol, mewn rhai ffyrdd gallech chi ddweud bod y polisi dyledion corfforaethol a'r polisi dyledion teg yr un peth â'i gilydd. Y rheswm dros eu gwahanu oedd mai llawlyfr ar sut y byddwn yn adennill dyledion, yn ei hanfod, yw'r Polisi Dyledion Corfforaethol. Dyma weithdrefnau'r Cyngor i bob pwrpas, sy'n esbonio'r hyn y byddwn yn ei wneud er mwyn sicrhau bod cymaint o incwm ag sy'n bosibl yn cael ei gasglu, a'i warchod, ar ran trethdalwyr. Ar y llaw arall, mae ein Polisi Dyledion Teg bron â bod yn Siarter i gwsmeriaid sydd angen cymorth neu sy'n fregus, ac mae'n disgrifio sut y bydd y cyngor yn ymdrin â'r amgylchiadau hynny, a'r mathau o amgylchiadau lle bydd y cyngor yn dangos cydymdeimlad. Mae hwnnw ar gael ar-lein."

- 4.115 Wrth baratoi am newidiadau diwygio lles ac i weithredu Credyd Cynhwysol, roedd un awdurdod hefyd wedi sefydlu grŵp Trechu Tlodi gweithredol a strategol a oedd yn cynnwys Cyngor ar Bopeth a'r gymdeithas dai leol, ac yn ymroi'n rhagweithiol i ganfod sefyllfaoedd lle gallai amryw o asiantaethau gydweithio.
- 4.116 Crybwyllodd sawl awdurdod eu bod yn dysgu gwersi yn sgil cyfraith achosion, a oedd yn ganllaw defnyddiol o ran yr hyn a ganiateir o fewn y fframwaith rheoleiddio, a'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn arfer da. Cyfeiriai awdurdodau hefyd at achosion a oedd wedi cael eu cefnogi gan yr Ombwdsmon, gan ddisgrifio'n fanwl sut yr oedd eu harferion yn cydfynd â'r penderfyniadau hynny.
- 4.117 Soniodd awdurdodau am aelodaeth o gyrff penodol, fel y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw, ac am fod yn effro i newidiadau mewn gweithdrefnau, canllawiau ac arfer da drwy'r fforymau hyn.
- 4.118 Nododd un awdurdod fod cael mynediad at wersi a ddysgwyd mewn awdurdodau lleol yn Lloegr yn fuddiol, lle gallai'r awdurdodau fanteisio ar brofiadau'r naill a'r llall wrth weithredu cynlluniau Cymhorthdal y Dreth Gyngor a bod yn ymwybodol o unrhyw arferion da a heriau presennol.

Cydgysylltu

- 4.119 Roedd awdurdodau'n creu cydgysylltiadau mewnol drwy sawl ffordd. Aeth dau ati i greu cysylltiadau â'u hadrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Defnyddiai un o'r rhain y cysylltiadau i gynnal gwiriadau er mwyn gweld a ellid tybio bod unigolyn yn fregus os nad oedd wedi cysylltu â'r awdurdod. Yn yr awdurdod arall, byddai gwaith bilio y gwasanaeth Cymdeithasol yn cae ei gyflawni yn yr un adran â'r dreth gyngor. Golygai hyn fod modd edrych ar ddata'r Gwasanaethau Cymdeithasol pan oedd angen, ac yn ogystal â hynny byddai Swyddogion Ymweld yn hysbysu pobl a allai fod â hawl i dderbyn gostyngiad, ac yn cyfeirio'r unigolyn i siarad â staff o'r dreth gyngor.
- 4.120 Roedd gan nifer o awdurdodau dîm penodol/adran benodol a ganolbwyntiai ar adennill dyledion. Teimlwyd bod hyn yn fodd i leihau'r gystadleuaeth am ddyledion rhwng adrannau gwahanol ac yn galluogi datrysiadau talu realistig. Mae'r gudd-wybodaeth a gesglir mewn

un maes yn aml yn berthnasol i faes arall hefyd; adroddai awdurdodau'n aml eu bod yn cysylltu ag adrannau tai ac yn rhannu gwybodaeth (er enghraifft, gwybodaeth am daliadau rhent a thaliadau'r dreth gyngor). Ceir budd ychwanegol i hyn o ran hwyluso ymweliadau personol, gan y bydd swyddogion tai yn mynd allan i ymweld ag unigolion. Dylid nodi fodd bynnag nad yw'r holl awdurdod yn cadw eu stoc tai eu hunain. Mae 50 y cant o awdurdodau wedi trosglwyddo'r swyddogaeth.

- 4.121 Gan mai cymorth gyda budd-daliadau yw un o'r prif feysydd cymorth, adroddodd llawer o awdurdodau eu bod wedi creu cysylltiadau ag adrannau budd-dal. Yr oedd nifer ohonynt wedi'u cydleoli â'u cydweithwyr budd-dal, a'r mwyafrif yn rhannu'r un system TG. Yr oedd teimlad bod cydleoli a modelau gwaith eraill oedd yn ei gwneud hi'n haws i rannu cuddwybodaeth yn gwella'r broses gasglu. Teimlai sawl awdurdod eu bod, o ganlyniad i hynny, fod ganddynt adnabyddiaeth well o unigolion a oedd yn derbyn budd-daliadau ac a allai fod yn fregus, a'i bod yn haws iddynt gyfeirio unigolyn a allai fod â hawl i dderbyn disgownt neu fudd-dal i gael cymorth yn syth. Bu hyn o gymorth i gynyddu incymau unigolion hyd yr eithaf, ac un o sgil-effeithiau hynny oedd lleihau'r swm o dreth gyngor yr oedd yn rhaid iddynt ei dalu, neu gynyddu eu gallu i dalu. Dywedodd un awdurdod hefyd fod y trefniant hwn yn eu galluogi i fod yn fwy hyblyg gydag adnoddau staff, felly os oedd gwaith wedi ôl-gronni yn y naill adran neu'r llall, gallai rhai aelodau o staff droi eu sylw at y gwaith hwnnw nes bo'r ôl-groniad wedi'i glirio.
- 4.122 Siaradai un awdurdod hefyd am werth sefydlu perthnasoedd ac ennyn ymddiriedaeth cyrff eraill fel y Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol, Safonau Masnach Cymru a Rhentu Doeth Cymru (cofrestru a thrwyddedu landlordiaid). Roedd y perthnasoedd hyn yn galluogi awdurdodau i geisio a dilysu gwybodaeth bersonol, a gwybodaeth am gredyd a busnes yr unigolion, yr aelwydydd a'r eiddo busnes. Gallai hynny fod yn sail ar gyfer eu benderfyniadau ym mhob agwedd ar reoli dyledion.

Perthnasoedd â Thrydydd Partïon

Perthnasoedd ag asiantaethau cyngori

- 4.123 Roedd dulliau'r awdurdodau o ymdrin â chynghori yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf o gynghorau'n cyfeirio unigolion i dderbyn gwasanaethau cyngori ar ddyledion a rheoli arian

rhad ac am ddim, yn enwedig os oedd unigolion yn barod i ddatgelu eu bod yn ei chael hi'n anodd talu eu treth gyngor. Yn ôl pob golwg, roedd gan rai cynghorau brosesau atgyfeirio mwy sefydledig rhyngddynt hwy eu hunain ac asiantaethau cynghori ar ddyledion, fel Cyngor ar Bopeth. Lle'r oedd hynny'n wir, teimlai cynghorau fod ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â staff Cyngor ar Bopeth a bod hynny wedi'i hwyluso gan gyd-ddealltwriaeth o amcanion a dulliau'r naill a'r llall o weithio. Roedd un awdurdod wedi sefydlu nifer o ganolfannau gwybodaeth a chyngor lle gallai unigolion dderbyn cyngor ar reoli arian a dyledion gan nifer o ddarparwyr o'r trydydd sector, a darparwyr gwirfoddol. Un o'r amodau wrth negodi trefniant hyblyg â'r cyngor oedd ymgysylltu â chynghorwyr y canolfannau hyn, ac ym mwyafrif yr achosion, ystyriwyd bod y dystiolaeth a ddarparwyd gan gynghorwyr yn y canolfannau hyn yn briodol i ganiatáu trefniant o'r fath. Roedd fersiynau llai o'r model hwn a oedd yn cynnwys rhoi gwybodaeth a chyngor hefyd yn bresennol mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill. Os oedd gwasanaethau neu amryw o ddarparwyr wedi'u cydleoli, boed hynny'n fewnol o fewn y Cyngor neu'n allanol mewn gwasanaeth galw heibio, byddai'r awdurdodau yn ddieithriad yn disgrifio trefniadau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth a defnyddio adnoddau.

- 4.124 Dewisai nifer lai o gynghorau beidio cyfeirio pobl i dderbyn gwasanaethau cynghori ar ddyledion neu reoli arian rhad ac am ddim. Teimlai un awdurdod y byddai gwneud hynny'n golygu croesi ffin broffesiynol, ac y byddai peryg i hynny greu dryswch rhwng swyddogaeth yr awdurdod fel casglwr dyledion a swyddogaeth y sector cynghori ariannol. Fodd bynnag, nodwyd eu bod yn rhoi cyngor ynghylch budd-daliadau, gan mai hwy yw'r bobl fwyaf cymwys i wneud hynny. Dewisai awdurdod arall beidio cyfeirio pobl i'w Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol am ei fod wedi ymrwymo i drefniant i ariannu darpariaeth arall rhad ac am ddim i gynghori ar ddyledion. Effaith hyn oedd creu llinell glir rhwng rôl y cyngor a rôl y sector cynghori, gan alluogi iddynt symleiddio eu prosesau. Dewisai nifer fach o awdurdodau ddarparu cyngor a chymorth mewnol ynghylch cynghori ar ddyledion a rheoli arian. Yr oedd hyn yn aml yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â chyngor a chymorth ynghylch budd-daliadau unigolion neu eu hawl i dderbyn disgownt, yn rhan o ymgyrch i gael trosolwg gyfannol o ymrwymadau a galluoedd ariannol unigolion.
- 4.125 Roedd dulliau'r awdurdodau o ymdrin â darparu gwybodaeth gyfeirio yn amrywio. Yr oedd rhai yn rhestru asiantaethau cynghori ar eu holl ohebiaeth, ac eraill ond yn eu rhestru yng ngham y Gorchymyn Dyled ac wedi hynny. Roedd yr wybodaeth gyfeirio hefyd yn amrywio

ar wefannau'r awdurdod. Roedd rhai awdurdodau'n cydnabod bod llawer o bobl yn wynebu amryw o broblemau'n gysylltiedig â dyledion, yn hytrach na dyledion y dreth gyngor yn unig, felly asiantaethau cynghori a sefydliadau elusennol eraill yn aml oedd yn y sefyllfa orau i'w ymdrin â hwy. Fel y disgrifiodd un awdurdod:

"Fel arfer, y rheswm ydi bod ganddyn nhw ddyled arall hefyd, ac maen nhw'n mynd i fwy a mwy o drybini, ac weithiau bydd cael rhywun arall yn edrych ar y sefyllfa ac yn eu helpu i gael trefn, yn eu helpu nhw."

4.126 Roedd y rhai a benderfynai beidio rhestru gwybodaeth gyfeirio ar ohebiaeth ysgrifenedig yn gwneud hynny i arbed lle, neu i gadw'r negeseuon a'u cynnwys yn syml.

4.127 Roedd un awdurdod nad oedd yn cyfeirio pobl at asiantaethau cynghori wedi cydnabod y byddai'n fuddiol gwneud hynny, ac yn bwriadu ystyried sut y gallai wneud hynny yn y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, nid oedd yn teimlo ei bod hi'n briodol iddo gyfeirio unigolion at asiantaethau cynghori os nad oeddent hwy eu hunain yn mynegi eu bod am gael cymorth. Teimlai'r awdurdod hwn y gallai cyfeirio at asiantaethau cynghori ar ddyledion greu achos o wrthdaro buddiannau, gan mai prif rôl yr awdurdod oedd casglu'r ddyled yn hytrach na rhoi cyngor ar reoli dyledion.

"Fydden ni ddim yn ymgysylltu ag asiantaeth gynghori allanol, fel Cyngor ar Bopeth. Fydden ni ddim fel arfer yn cysylltu â nhw, os nad oedd y cwsmer wedi mynd atyn nhw i ddechrau, bryd hynny bydden ni'n delio gyda nhw. Fydden ni ddim yn siarad â Cyngor ar Bopeth cyn hynny oherwydd gofynion diogelu data, ond ar ôl i'r cwsmer siarad â Chyngor ar Bopeth a dweud, drychwch, mae angen help arna i. Bryd hynny byddwn yn cysylltu â nhw ym mha ffordd bynnag y gallwn. Un o'r pethau yr ydyn ni'n bwriadu gwneud ar hyn o bryd yw cryfhau ein cysylltiadau a'r ganolfan CAB leol."

4.128 Cyfeiriwyd yn aml at Gyngor ar Bopeth, a hefyd at StepChange a'r Undebau Credyd, ond roedd nifer o awdurdodau hefyd yn cyfeirio pobl at elusennau ac asiantaethau cynghori lleol. Soniai nifer o ymatebwyr ei bod hi'n bwysig cyfeirio pobl at asiantaethau cynghori rhad ac am ddim, yn hytrach nag at gwmnïau cyfuno dyledion sy'n codi ffi, neu at gwmnïau benthyca diwrnod cyflog. Pe bai'n derbyn gohebiaeth ar ran cwmni rheoli dyledion ar ran unigolyn, dywedodd un awdurdod y byddai, yn ogystal â chyfeirio pobl i dderbyn cyngor am ddim, yn ceisio cysylltu â'r unigolyn hwnnw i'w atgoffa fod sefydliadau ar gael sy'n cynnig cyngor ar ddyledion yn rhad ac am ddim. Dywedodd awdurdod arall ei fod yn cymryd camau

i addysgu unigolion yr oeddent eisoes mewn cysylltiad â hwy ynghylch y risg o ddefnyddio benthycwyr diwrnod cyflog.

- 4.129 Roedd y berthynas a adroddwyd ag asiantaethau cynghori yn amrywio. Roedd rhai awdurdodau'n cydnabod nad oedd ganddynt yr un genhadaeth ac ethos â Chyngor ar Bopeth, ac y gallai'r gwahaniaeth o ran safbwynt olygu bod eu blaenoriaethau yn wahanol wrth fynd ati i ymdrin â materion. Pwysleisiai awdurdodau pa mor bwysig oedd cael cyd-ddealltwriaeth a oedd yn seiliedig ar werthfawrogiad o rôl a chyfrifoldebau'r naill a'r llall, ac o'r cyfyngiadau sy'n rheoli pryd y gellir, neu na ellir, arfer doethineb a hyblygrwydd. Codwyd mater hanes yr unigolyn; teimlai awdurdodau weithiau nad oedd asiantaethau cynghori yn gwybod yr holl hanes yn gysylltiedig ag achos a'i bod hi'n bosib felly nad oeddent yn gwerthfawrogi pam bod yr awdurdod yn dewis gweithredu mewn ffordd neilltuol. Dywedodd ambell awdurdod fod trosiant y staff a'r gwirfoddolwyr yn debygol o fod yn uchel yn y Trydydd sector, a'i bod hi weithiau'n her gorfod gweithio gyda chynghorwyr newydd a oedd yn fwy tebygol o fod eisiau amddiffyn y cleient. Roedd hi felly'n bwysig meithrin cyd-ddealltwriaeth wrth gyfarfod ac addysgu aelodau newydd o staff a gwirfoddolwyr.

"... rydym yn cadw hyd braich rhyngom, ond mae'n berthynas sy'n gweithio. Ein swyddogaeth ni fel awdurdod lleol yw casglu'r dreth gyngor, a'u swyddogaeth nhw yw cynghori a chynrychioli'r unigolyn ei hun. Rydym yn cyflawni swyddogaethau gwahanol ond mae ein hamcan yr un peth, sef sicrhau bod tegwch a chyfiawnder o fewn y system".

- 4.130 Nododd nifer o awdurdodau ei bod hi'n ymddangos bod gan Cyngor ar Bopeth lai a llai o'r adnoddau angenrheidiol i fynd ar drywydd achosion o fewn y ffrâm amser gofynnol. Roedd cyfyngiadau ar gapasiti'r sector cynghori am ddim weithiau'n achosi oedi i'r broses adennill.

"Po fwyaf effeithiol yw'r sector cynghori am ddim, y gorau oll yw hynny i ni i gyd"

- 4.131 Yr oedd teimlad bod prinder adnoddau yn y sector cynghori am ddim yn amharu ar ansawdd y berthynas y gallai'r naill barti ei chynnal â'r llall, ac ar y math o wasanaeth cydgysylltiedig y byddai unigolion yn gobeithio ei brofi:

"Does gennym ni ddim cyfarfodydd ffurfiol ag unrhyw un. Flynyddoedd yn ôl roedd gennym broses ar gyfer atgyfeirio i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, ond torrwyd eu cyllid a doedden nhw ddim yn gallu gweinyddu'r cynllun fel yr oeddem am iddyn nhw ei

wneud, felly er ein bod yn cyfeirio cwsmeriaid atyn nhw, anaml iawn yr ydym yn cysylltu â'r asiantaethau ar ran y cwsmer. Rydym yn dibynnu amyn nhw i ofyn am gyngor gan yr asiantaethau eu hunain.

- 4.132 Gwelodd un awdurdod fod amseroedd a lleoliadau'r apwyntiadau i unigolion a oedd yn chwilio am cyngor a chymorth dyledion yn rhy brin, ac nad oed llawer yn manteisio arnynt o'r herwydd. Roeddent yn teimlo bod unigolion am ymdrin â phroblemau yn y fan a'r lle, yn hytrach na gwneud apwyntiad ar gyfer y dyfodol.
- 4.133 O ran sut y gellid gwella perthnasoedd, roedd sawl awdurdod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd a oedd yn cynnwys Cyngor ar Bopeth ac asiantau gorfodi. Dywedodd un awdurdod fod yr awdurdod a'r asiantaeth orfodi yn rhoi cyflwyniad ar faterion cyfredol yn eu cyfarfod chwe-misol, a bod sesiwn holi ac ateb yn cael ei chynnal ar ôl hynny. Teimlwyd bod hyn yn rhoi cyfle i drafod materion yn agored, ac i staff rannu gwybodaeth a meithrin cyd-ddealltwriaeth o waith y naill a'r llall. Teimlai awdurdod arall fod ei berthynas â Chyngor ar Bopeth wedi gwella ers ymgysylltu â'r ganolfan yn weithredol, a'i gwahodd i gyfarfod â'i dîm gorfodi. Yr oedd teimlad bod hyn wedi galluogi Cyngor ar Bopeth i weld eu gwahanol ddulliau o weithio, a bod hynny yn ei dro wedi llacio'r feddylfryd 'ni a nhw'.
- 4.134 Disgrifiodd un awdurdod broses 'fforwm agored' a gynhaliwyd â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, lle gwrandawyd ar ei holl feirniadaethau, gan ystyried y rhai dilys a gweithio i wella'r berthynas. Yn ôl yr awdurdod, mae ei berthynas â Chyngor ar Bopeth yn dda iawn bellach, a bydd yn siarad â'r Ganolfan yn uniongyrchol os cyfyd unrhyw bryderon.
- 4.135 Dywedodd y mwyafrif o awdurdodau y byddent yn derbyn tystiolaeth oddi wrth asiantaethau cynghori pe bai unigolyn wedi rhoi awdurdod i'r asiantaeth weithredu ar ei ran, ond y byddent yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol os oeddent yn teimlo bod angen hynny. Gellid bod angen tystiolaeth ychwanegol i brofi bregusrwydd, neu i ddarparu mwy o fanylion am incwm a gwariant yr unigolyn, er mwyn sefydlu trefniant ad-dalu. Roedd gan nifer o awdurdodau drefniant ffurfiol ar waith â Chyngor ar Bopeth neu broses i gyfeirio a derbyn tystiolaeth gan unigolion drwy hwb aml-asiantaeth. Siaradai un awdurdod ynghylch pwysigrwydd monitro ansawdd tystiolaeth a'r trefniadau y byddai asiantaethau cynghori yn eu cynnig. Teimlwyd bod hyn yn cyfrannu at y berthynas gadarnhaol a llyfn yr oeddent wedi'i sefydlu â Chyngor ar Bopeth a sefydliadau eraill lleol i ddarparu cyngor ynghylch problemau ariannol mwy cymhleth.

"Felly rydyn ni'n cynnal trafodaethau rheolaidd â'r asiantaethau hynny ynghylch a oes angen hyfforddiant arnyn nhw, ac rydyn ni'n monitro'r holl drefniadau maen nhw'n eu hanfon draw atom ni ac yn cadw golwg ar ansawdd yr hyn sy'n cael ei anfon, ac os oes unrhyw bryderon byddwn yn tynnu sylw at hynny'n syth, oherwydd dydyn ni ddim am sylweddoli'n sydyn chwe mis yn ddiweddarach mai ond 50 y cant o'r trefniadau sy'n dderbyniol bellach, oherwydd yr hyn y byddwn i'n ei ddweud fyddai, pam aros chwe mis i ddweud hynny wrtha i? Rydw i'n cael crynodeb bob mis o'r holl drefniadau sy'n cael eu trosglwyddo. Yr hyn sy'n bwysig ydi cadw'r cyfan yn berthnasol ac yn gyfredol, ac os oes problem, canfod hynny'n gyflym ac unioni pethau."

- 4.136 Roedd un awdurdod wedi ariannu swydd ar y cyd â Macmillan i roi gwasanaethau cymorth a chynghor i unigolion a theuluoedd yn yr ardal oedd yn rheoli cyflwr iechyd hirdymor. Roedd y cyfle wedi codi gan fod y cynghor yn tybio bod bwlch yn y ddarpariaeth ac wedi cychwyn trafodaethau â'r elusen ynghylch ariannu swydd ar y cyd yn y tîm casglu ac adennill i ddarparu cymorth arbenigol. Dywedodd awdurdod arall ei fod yn cyfeirio pobl at swyddog cyllidebu personol yn eu his-adran budd-dal tai. Er bod y swyddog hwnnw wedi bod yn canolbwyntio i raddau helaeth ar faterion budd-dal tai, gall hefyd roi rhywfaint o gymorth cyllidebu.

Perthynas ag asiantau gorfodi

- 4.137 Yn ddieithriad, teimlai awdurdodau fod ganddynt berthynas dda ag asiantau gorfodi. Roedd pob awdurdod ond un yn defnyddio asiantau allanol, ac roedd rhai'n defnyddio asiantau 'mewnol' hefyd. Roedd rhai a ddefnyddiai asiantau gorfodi mewnol ac allanol yn defnyddio'r asiantau allanol i adennill dyled gan unigolion a oedd wedi gadael yr ardal yn y cyfamser, ac i roi cefnogaeth ychwanegol i'r timau gorfodi mewnol yn ystod cyfnodau prysur.
- 4.138 Roedd y rhai a ddefnyddiai asiantau mewnol yn teimlo eu bod yn gallu ymdrin ag achosion mewn modd mwy cyfannol a chydgyssylltiedig. Dywedodd un awdurdod ei fod hefyd yn ei alluogi i gydweithio'n agosach â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn lleol i gefnogi ac annog unigolion i gysylltu'n gynnar. Yn aml, byddai'r asiantau gorfodi hefyd yn ymdrin â dyledion

eraill i'r cyngorau, gan gyfyngu ar y gost i'r unigolyn yn sgil hynny (un ymweliad ar gyfer amryw o ddyledion). Roedd un awdurdod wedi penderfynu defnyddio asiantau mewnol pan ddaeth cwmni lleol i ben. Dyma oedd ffordd yr awdurdod o gynorthwyo unigolion, o feithrin hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd, a hefyd o darfu ar effaith caseg eira dyledion cynyddol.

"Yn aml iawn, yr hyn y bydden ni'n ei ganfod fyddai pobl a oedd eisiau talu ond a oedd wedi colli eu swydd neu yr oedd eu hincwm wedi gostwng, felly roedd cael ein hasiantau gorfodi ein hunain yn golygu bod modd inni godi materion, ee efallai fod gan ddinasyddion hawl i dderyn Budd-dal y Dreth Gyngor, a gallai ein hasiantau eu helpu i lenwi ffurflenni cais budd-dal, gwneud cais am ddisgowntiau."

- 4.139 Amlygodd un awdurdod a ddefnyddiai gyfuniad o asiantau gorfodi mewnol ac allanol gyfleoedd pwysig ac enillion posibl eraill yn gysylltiedig â chael tîm gorfodi mewnol. Nodai ei fod yn allu cadw presenoldeb gweladwy a phroffesiynol yn y gymuned leol. Roedd y cyhoedd yn gallu adnabod asiantau gorfodi yn rhwydd, ac roedd hi'n glir bod yr asiantau hynny'n atebol i'r awdurdod lleol:

"Mae'n bwysig iawn i'n tîm mewnol fod gennym y brand [awdurdod lleol] yn weithredol, ar gyfer y tîm yna. Mae gennym ni faniau gyda'r logo [awdurdod lleol] arnyn nhw ar gyfer y tîm yna. Rydyn ni'n rhoi....mae gan yr asiantau gorfodi iwnifform [awdurdod leol] gyda'r logos arnynt. Mae gennym y camerâu, y camerâu diogelwch ar eu cyfer nhw, y camerâu yr ydych chi'n eu gwisgo. Rydyn ni am i'r asiantau gorfodi arddangos delwedd broffesiynol iawn [o'r awdurdod leol]."

- 4.140 Dywedwyd bod asiantau gorfodi allanol yn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd o ran eu gallu i weithio ar oriau gwahano ac ar benwythnosau. Yr oedd teimlad bod asiantau allanol yn broffesiynol ac yn deg. Crybwyllodd un awdurdod nad oedd angen iddo boeni am weithwyr absennol (oherwydd salwch) wrth ymdrin ag asiantau allanol, gan fod y gwasanaeth wedi'i sicrhau. Soniodd amryw o awdurdodau ei bod hi'n well gan asiantau gorfodi ddatrys problemau heb orfod ymweld ag unigolion, gan fod hynny'n elfen gostus o'u gwaith. Soniwyd hefyd nad oedd hi o unrhyw fudd i'r asiantau wrthdaro â'r trethdalwr, gan fod angen iddynt gynnal perthynas gadarnhaol â'r gymuned a'r cyngor.
- 4.141 Roedd awdurdodau'n fodlon iawn â safon yr asiantau gorfodi. Adroddwyd bod cyflwyno deddfwriaeth (Rheoliadau Cymryd Rheolaeth Dros Nwyddau 2013) a Rheoliadau Cymryd Rheolaeth Dros Nwyddau (Ffioedd), 2014) wedi esgor ar ganlyniadau cadarnhaol, gyda llawer o adroddiadau'n dweud bod cwynion wedi gostwng, prosesau'n symlach a chostau'n

gliriach. O ganlyniad i hyn, mae mwy o adnoddau ar gael i ymdrin â materion eraill (yn hytrach na chwynion).

- 4.142 Soniodd y rhan fwyaf o awdurdodau eu bod yn teimlo bod camerâu corff wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion gorfodi, yn enwedig wrth ddatrys unrhyw anghydfod sy'n codi. Adroddodd awdurdodau mai ychydig a gwynion a gafodd eu cefnogi ynghylch asiantau gorfodi, ond lle'r oedd angen cadarnhau neu ddatrys cwyn, teimlwyd bod camerâu corff, os oeddent ar gael, yn ased gwerthfawr. Teimlai awdurdodau hefyd fod camerâu corff yn cyfrannu at ymddygiad da ymhlith asiantau gorfodi. Dywedodd yr awdurdodau fod prosesau ar waith i gynnal ymchwiliad llawn pe bai cwyn yn cael ei gwneud yn erbyn asiant gorfodi. Gellid gwneud cwyn yn uniongyrchol i'r asiantau gorfodi (a fydda'n cynnal ymchwiliad iddynt hwy eu hunain) neu i'r awdurdod, ond byddai'r awdurdod yn cael gwybod am unrhyw gwynion fyddai'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr asiantau gorfodi.
- 4.143 Yn aml, byddai awdurdodau a oedd heb asiantau gorfodi mewnol yn defnyddio gwasanaethau mwy nag un o asiant allanol. Teimlwyd bod hyn yn ffordd o sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal a thelerau da yn cael eu negodi. Byddai awdurdodau yn aml yn sôn am yr wybodaeth sydd gan asiantau ynghylch bregusrwydd. Un o'r enghreifftiau o berfformiad da a roddwyd, oedd asiant gorfodi a ymwelai ag unigolion ar wahanol amseroedd o'r dydd, ac a luniai adroddiadau manwl yn hytrach na chynnal tri ymweliad yn syth ar ôl ei gilydd, a dychwelyd yr achos i'r awdurdod. Yr oedd teimlad bod defnyddio mwy nag un asiantaeth allanol yn cymell perfformiad da ac adroddodd rhai awdurdodau eu bod yn cymharu perfformiad rhwng asiantau, monitro casgliadau, cwynion, ymatebion i gwynion ac ansawdd.
- 4.144 Dywedodd rhai awdurdodau fod ganddynt borthol rhyngweithiol y maent yn ei rannu â'r asiantau gorfodi, sy'n golygu y gallant fewngofnodi, diweddarau a monitro gweithgarwch ar gyfrifon. Teimlwyd bod hyn yn galluogi deialog cyson rhwng asiantau gorfodi a'r awdurdod lleol, gan alluogi penderfyniadau cyflym wrth gytuno ar drefniadau talu neu ailberchnogi dyled, yn ogystal â mynediad at wybodaeth am ymweliadau gorfodi er mwyn gwirio neu herio unrhyw gwynion.
- 4.145 Dywedodd un awdurdod a ddefnyddiai asiantau gorfodi allanol fod yr asiantaeth yn ddiweddar wedi datblygu tîm lles fel bo modd i unigolion gael cymorth a chynghor yn uniongyrchol oddi wth y cwmni gorfodi.

- 4.146 O ran monitro, roedd y rhai a ddefnyddiai'r cwmnïau mwy yn tueddu i gael cyfarfodydd chwarterol, tra'r oedd y cwmnïau llai yn ymddangos fel pe baent yn cynnig galwadau ffôn rheolaidd o natur fwy anffurfiol. Tybiwyd mai adlewyrchu'r hyn a oedd yn cael ei ystyried yn gymesur ac yn ymarferol i asiantaethau o wahanol faint yr oedd yr arferion amrywiol.
- 4.147 Yr oedd yn ymddangos bod cytundebau ag asiantau yn amrywio, ee a fyddai'n rhaid i'r cyngor dalu ffi ai peidio wrth ailberchnogi dyled.

Perthnasoedd eraill

- 4.148 Soniodd un awdurdod fod ganddo linellau cyfathrebu cymharol agored ag ACau ac ASau leol a allai godi materion ar ran etholwyr. Teimlwyd ei bod hi'n hanfodol meithrin cyd-ddealltwriaeth ynghylch safbwyntiau awdurdodau a'r etholwyr ynddynt (yn debyg i faterion allweddol asiantaethau cynghori - llinellau cyfathrebu agored er mwyn meithrin dealltwriaeth) Dywedodd yr awdurdod hwn eu bod yn gweithio i feithrin y perthnasoedd â chynghorwyr er mwyn datblygu ymddiriedaeth a hygyrddedd. Pe bai'n derbyn ymholiad gan gynghorydd, byddai'r awdurdod hwn yn ymchwilio i'w gamau gweithredu ac yn darparu gwybodaeth am y camau a gymerodd a'r dogfennau a anfonwyd. Byddai hyn yn rhoi dealltwriaeth well i'r cynghorydd o'r achos.

Heriau a Chyfleoedd y Dyfodol

Heriau a phryderon

- 4.149 Mae a wnelo'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adran hon â heriau a phryderon a godwyd gan awdurdodau ynghylch y problemau a wynebwr gan yr awdurdodau a'r timau casglu oddi mewn iddynt. Trefnir yr heriau gan gychwyn gyda'r heriau pwysicaf, a'r heriau cyntaf yw'r rhai sy'n gysylltiedig â heriau a gydnabyddir gan bob awdurdod.
- 4.150 Byddai awdurdodau'n aml yn cydnabod bod incymau isel a'r ffaith bod incymau'n gostwng yn her allweddol. Dyma'r broblem y cyfeiriwyd ati'n fwyaf aml, ynghyd â'r ffaith bod biliau'r dreth gyngor yn cynyddu. Cyfeiriai rhai awdurdodau hefyd at batrymau gwaith newidiol fel contractau dim oriau a'r diffyg sicrwydd a rheoleidd-dra ynghylch y cyflogau y byddai'r rhain yn eu cynhyrchu.

- 4.151 Cyfeiriwyd yn aml at y newidiadau i'r System Les. Pan fydd unigolion yn derbyn Credyd Cynhwysol, gallent fod yn gymwys i dderbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor (CGDG), ond yn aml ni fydd Canolfannau Gwaith Lleol yn eu cyfeirio i gyflwyno cais i'r awdurdod lleol. Mae'r broses hon yn wahanol i'r system gyfredol, lle caiff ceisiadau a brosesir ar gyfer budd-dal tai eu prosesu'n awtomatig ar gyfer CGDG hefyd. Yn ogystal â hyn, mae gostyngiadau mewn budd-daliadau wedi cynyddu'r pwysau ariannol ar rai grwpiau o bobl (y gostyngiad mewn lwfansau dibynyddion ar gyfer plant ychwanegol, colli premiwm teulu ar gyfer hawliadau newydd, a gostyngiad yng nghyfradd y lwfans tai lleol), ac o bosib wedi peri bod grwpiau neilltuol yn fwy bregus.
- 4.152 Cyfeiriodd sawl awdurdod at newidiadau polisi. Yr oedd teimlad bod Premiwm y Dreth Gyngor ar eiddo a oedd wedi bod yn wag ers tro ac ail gartrefi yn ffactor a oedd yn cynyddu llwyth gwaith yr awdurdodau. Mae rhai awdurdodau hefyd wedi gweld bod nifer cynyddol o ail gartrefi yn cael eu hail gategoreiddio fel busnesau bach er mwyn bod yn gymwys i dderyn rhyddhad Ardrethi Annomestig yn hytrach na gorfod talu Premiwm y Dreth Gyngor.
- 4.153 Roedd awdurdodau'n pryderu am y system yn Lloegr ac yn ofni beth fyddai effaith bosibl system debyg yng Nghymru. Os oedd yr hawl i dderbyn CGDG wedi gostwng, amlygai'r awdurdod fod angen addysgu pobl ynghylch yr effaith bosib ar gyfraddau casglu, a hefyd a fyddai unrhyw ddulliau sydd ar gael i awdurdodau ar hyn o bryd yn addas er mwyn adennill dyledion llai (o ystyried y ffioedd sy'n gysylltiedig â llawer o opsiynau).
- 4.154 Yn aml, byddai'r awdurdodau'n amlygu'r angen i addysgu unigolion yn well ynghylch diben a phwysigrwydd y dreth gyngor, a'u haddysgu'n fwy cyffredinol ynghylch llythrennedd ariannol. Crybwyllwyd hyn yn nhermau cyngor ariannol a chyllidebu, o ran cydnabod bod y dreth gyngor yn ddyled â blaenoriaeth, ond hefyd yn nhermau cydnabod lefelau amrywiol y gallu a'r cymhwysedd sydd gan unigolion.
- 4.155 Mynegodd y mwyafrif o awdurdodau ddyhead i weithredu mewn modd mwy cydgysylltiedig, ac roedd rhai ar eu hennill o gael eu cyd-leoli â thimau eraill, neu o rannu adnoddau ar draws adrannau. Codwyd materion yn gysylltiedig â diogelu data a chyfrinachedd; teimlwyd bod hyn yn amharu ar y graddau y gellid cadw a rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd hi'n ymddangos fel pe bai rhywfaint o anghysondeb yn y graddau a'r modd y llwyddwyd i oresgyn y rhain. Mynegodd yr awdurdodau ddyhead am fwy o arweiniad ynghylch hyn, o ran pa ddata y gellid eu rhannu a rhwng pa adrannau y gellid rhannu'r data hynny.

Cyfeiriwyd yn benodol at y gwasanaethau cymdeithasol, lle'r oedd un awdurdod wedi llwyddo i rannu data, ac awdurdodau eraill wedi wynebu rhwystrau diogelu data. Cyfeiriwyd hefyd at y broblem bod ansicrwydd ynghylch cynlluniau i gyfuno gwasanaethau o fewn awdurdodau. Cododd un awdurdod bryderon ynghylch sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol, gan fod awdurdodau yn defnyddio gwahanol systemau cyfrifiadurol. Yr oedd teimlad y byddai'r gwahanol systemau yn creu rhwystr drud a fyddai'n anodd ei oresgyn.

- 4.156 Roedd hi'n ymddangos bod barn yr awdurdodau ynghylch yr hyn y gallent ei gadw ar eu system yn amrywio. Mynegai rhai awdurdodau'n glir eu bod yn mewnbynnu nodiadau ychwanego i'w helpu gydag achosion, gan fanylu ar yr hyn yr oeddent wedi'i ganfod am yr unigolion, tra awgrymai eraill fod cyfyngiadau llym ar yr hyn y gellid, ac na ellid ei gadw. Dywedodd un awdurdod y bu'n rhaid iddo gael gwared â'r holl ddata ar oedran ar ôl cael gwybod bod gwaharddiad ar gadw'r data hynny.
- 4.157 Soniodd rhai awdurdodau fod anghysondeb rhwng sylfaen drethi gynyddol a gostyngiadau yng nghyllidebau awdurdod lleol, a olygai fod llai o adnoddau i gasglu'r dreth gyngor o nifer gynyddol o gartrefi. Soniodd un awdurdod am y Bonws Cartrefi Newydd sydd ar waith yn Lloegr. Er mai pwrpas y bonws oedd creu anogaeth i adeiladu cartrefi newydd er mwyn cynyddu refeniw, teimlai'r awdurdod hwn y byddai'n helpu i leihau'r pwysau o gasglu o gartrefi newydd drwy ddarparu'r incwm ychwanegol i'r cyngor cyn iddo ddechrau treiddio drwy gyfrifiad sylfaen drethi'r dreth gyngor. Oherwydd y modd y mae'r setliad ariannol presennol yn gweithio, roedd yr awdurdodau'n teimlo y byddai unrhyw gynydd yn sylfaen drethi'r dreth gyngor ar hyn o bryd yn leihau'r Grant Cynnal Refeniw i'r un graddau (gan dybio cyfradd casglu o 100 y cant). Gan hynny, roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi am unrhyw dwf mewn cartrefi newydd, yn rhannol o leiaf gan nad yw cyfradd casglu o 100 y cant yn bosib. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu camddealltwriaeth ynghylch y modd y gweithredir y Grant Cynnal Refeniw (RSG). Ceir perthynas gymharol rhwng sylfaen drethi awdurdod lleol a'i ddyraniad RSG, ond nid yw'r berthynas honno'n uniongyrchol.

"mae gennym ni gyfrifiad seiliedig ar dreth gyngor sy'n cyfrifo faint o dreth y gallwn ei godi yn y ddinas, felly pe baem yn cael cynnydd o £1 miliwn i sylfaen y dreth gyngor, byddai ein Grant Cynnal Refeniw yn gostwng £1 miliwn. Hynny yw, dydyn ni ddim yn elwa ar unrhyw dwf... Mae'n cael ei dynnu o'r Grant Cynnal Refeniw, ac mewn gwirionedd, mae hynny'n seiliedig ar gasglu 100 y cant o'r hyn yr ydyn ni'n ei godi

mewn biliau, felly mae unrhyw dwf yn golygu ein bod yn cael ein cosbi. Rydyn ni'n dda, ond ddim cystal â hynny, does neb yn casglu 100 y cant."

- 4.158 Cafwyd cyfeiriadau mynych at adnoddau yn gyffredinol, gyda llawer o awdurdodau'n disgrifio gostyngiadau mewn adnoddau staff oherwydd pwysau ar gyllidebau drwy'r holl gyngor. Teimlai rhai eu bod bellach yn cyrraedd pwynt tyngedfennol o ran perfformiad. Disgrifiai dau awdurdod effaith pwysau cynyddol ar forâl staff a phwysigrwydd ceisio cynnal morâl y staff wrth gyflawni rôl heriol gan wynebu'r cyhoedd:

"Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig cymryd amser yn ystod y dydd i gael cyfarfodydd staff, a chael sesiynau briffio'r staff, ac i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd. Mae hynny'n cadw morâl yn uchel yn fy marn i, achos mae casglu dyledion yn waith anodd. Mae yna gynnydd ar dreth gyngor nad yw pobl yn hoff ei thalu p'run bynnag. Mae'n heriol, mae pobl yn bod yn annifyr tuag atyn nhw, ac maen nhw'n derbyn hynny'n ddi-gŵyn".

"Maen nhw'n rhagweld y bydd yna [x] o gartrefi newydd yn y 10-15 o flynyddoedd nesaf, ac mae'r llywodraeth ganolog yn torri ein cyllidebau, felly'r hyn dwi'n ansicr yn ei gylch ydi sut ydw i'n mynd i gasglu'r dreth o'r cartrefi yna os nad oes gen i ddigon o adnoddau i wneud hynny, ac os nad ydw i'n casglu'r arian, fydd y Cyngor ddim yn gallu ei wario. Dydi Llywodraeth Leol ddim yn lle braf iawn i weithio ar hyn o bryd. Rai diwrnodiau, rwy'n teimlo fel diffodd y goleuadau a mynd adref, achos mae pawb yn sôn am doriadau o hyd."

- 4.159 Roedd rhai awdurdodau hefyd yn teimlo bod rhaglen cau llysoedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cael effaith niweidiol ar y system. Roedd y penderfyniad i gau'r llysoedd hefyd yn amharu ar hygyrchedd; gall llysoedd hefyd fod y tu allan i ardal y sir weinyddol gan olygu bod llai o ddyledwyr yn bresennol oherwydd costau teithio.
- 4.160 Dywedodd un awdurdod ei fod wedi profi oedi hir gydag achosion a anfonwyd i Dribiwnlys Prisio Cymru, a'r canfyddiad oedd mai ôl-groniad o achosion oedd wedi achosi hynny. Efallai y bydd angen ymchwilio ymhellach i brofiad awdurdodau wrth symud drwy Dribiwnlys Prisio Cymru.
- 4.161 Cododd dau awdurdod bryderon ynghylch tegwch y dreth oherwydd y canfyddiad bod amser hir wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i eiddo gael ei ailbrisio:

"fy mhryder i yw'r dreth ei hun, os na fyddwn yn ei chadw'n gyfredol ac yn ailbrisio, bydd hynny'n tanseilio unrhyw gyfiawnhad drosti"

- 4.162 Yn gysylltiedig â hyn, cwestiynai rhai awdurdodau degwch y system. Yr oedd ymwybyddiaeth bod lefelau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo isel ei werth yn tueddu i fod yn uwch mewn ardaloedd amddifadus, ac ystyriwyd mai'r rheswm am hynny oedd bod y sylfaen drethi yn llai.

"Mae'n rhaid i'r dreth barhau i fod yn ddilys, mae'n rhaid iddi aros yn deg....Mae'n rhaid iddi hefyd fod yn dreth sydd yn ddigon blaengar - hynny yw, mae'r rhai sydd ar y gwaelod yn talu mwy na'u cyfran o'r dreth o gymharu â'r rhai ar y brig. Fel arfer, mae'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd yn tueddu i fyw mewn tai llai yn tydyn? Mae mwy o'u hincwm yn mynd tuag at y dreth gyngor na phobl ar incwm uwch, oherwydd y modd y mae cymarebau'r dreth a'r bandiau'n gweithio."

- 4.163 Yn ogystal â hyn, dywedodd un awdurdod fod tenantiaid mewn tai cymdeithasol yn cael eu cosbi'n anfwriadol, gan ddweud mai asiantau gorfodi a thraddodi fydd yr unig opsiwn, o bosib, os na ddelir digon o wybodaeth am y tenant cyfredol.

"Y peth arall sy'n achosi problem i ni yw'r bobl mewn eiddo rhent. Os oes gennych denant mewn eiddo, p'un a yw'r landlord yn landlord cymdeithasol neu'n landlord preifat, a dydych chi ddim yn gwybod ble maen nhw'n gweithio. Yr unig ddewis sydd gennych chi yw defnyddio beili i'w cael nhw i dalu."

Cyfleoedd

- 4.164 Adroddodd pob awdurdod mai'r hyn a fyddai'n eu helpu fwyaf fyddai cael mynediad at ddata cyflogaeth CaThEM. Ar hyn o bryd, maen nhw'n dibynnu ar barodrwydd unigolion i ddarparu data cyflogaeth iddynt ar ôl sicrhau Gorchymyn Dyled. Fodd bynnag, pwysleisiai'r awdurdodau eu bod yn teimlo bod hynny'n aneffeithlon ac yn aneffeithiol. Yn aml, ni fydd unigolion yn darparu'r wybodaeth hon, sy'n creu costau pellach i'r unigolion os oes rhaid defnyddio asiantau gorfodi, neu'n golygu bod yn rhaid i'r awdurdod ddefnyddio mwy o adnoddau er mwyn ceisio cysylltu a gwneud trefniadau â'r unigolion. Roedd awdurdodau'n gyson yn eu dyhead i dderbyn yr wybodaeth hon yn awtomatig oddi wrth CaThEM ar ôl prosesu gorchymyn dyled. Cyfeiriai awdurdodau hefyd at y ffaith eu bod weithiau'n cael ceisiadau gan unigolion yn gofyn am gael atafaelu enillion cyn cael Gorchymyn Dyled, ond

nid yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd. Yr oedd dymuniad felly i allu gwneud hynny cyn gorchymyn dyled, os oedd unigolyn yn cytuno i hynny.

- 4.165 Cyflwynwyd dadl debyg ynghylch Atafaelu Budd-daliadau, gyda'r awdurdodau'n awyddus i allu atafaelu budd-daliadau heb orfod cael gorchymyn dyled, os oedd yr unigolyn yn cytuno i hynny. Dyma oedd un o'r argymhellion a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU yn yr Adolygiad Annibynnol o Gynlluniau Cymorth Lleol ar gyfer y Dreth Gyngor (Ollerenshaw 2016). Yn yr adolygiad hwnnw cydnabuwyd bod y gost a'r amser ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â sicrhau gorchymynion dyled yn gwaethygu'r broblem i unigolion, ac awgrymwyd y dylid bod modd gwirfoddoli i atafaelu budd-daliadau.
- 4.166 Mynegodd llawer o awdurdodau hefyd rwystredigaeth ynghylch y ffaith bod cyfyngiad ar ystod y budd-daliadau lles y gallent eu hatafael.
- 4.167 Yn gysylltiedig â hyn, teimlai rhai fod y broses o sicrhau gorchymyn dyled yn cymryd amser ac wedi dyddio. Awgrymwyd y gellid adolygu'r broses hon er mwyn gweld a ellid ei symleiddio. Fodd bynnag, pan ystyriwyd hyn yn y gweithdai, cyfeiriodd amryw o awdurdodau at y ffaith bod y Gorchymyn Dyled ei hun yn cyflawni diben drwy ddatgelu rhai o'r materion neu'r rhesymau pam nad oedd unigolion wedi talu hyd yma.
- 4.168 Cydnabuwyd bod technoleg yn cynnig cyfle. Yn gynyddol, roedd awdurdodau'n prynu modiwlau meddalwedd ychwanegol ar gyfer eu systemau cyfrifiadurol i'w galluogi i ddal a deall mwy o wybodaeth am eu hunigolion. Yr oedd teimlad mai po fwyaf o wybodaeth y gallai'r wybodaeth ei chyrchu, y lleiaf fyddai'r angen i ddefnyddio asiantau gorfodi. Soniodd un awdurdod ei fod yn cwrdd â'i gwmni meddalwedd i weld a fyddai unrhyw gapasiti iddo weithio'n 'ddoethach'; unrhyw ffordd y gallai wella ei systemau er mwyn cael mwy o fudd o'r wybodaeth a oedd ganddo. Crybwyllodd un awdurdod arall ei ddefnydd o dechnoleg adnabod llythrennau/nodau a chodau bar ar ffurflenni fel bod yr holl waith gwirio a diweddarau yn awtomatig wrth i unigolion ddychwelyd ffurflenni, gan ryddhau adnoddau i fynd ar drywydd y rhai nad ydynt yn dychwelyd gwybodaeth. Roedd un awdurdod wedi ystyried defnyddio data Experian i'w alluogi i wahaniaethu rhwng y rhai nad ydynt yn gallu talu a'r rhai sy'n gwrthod talu. Fodd bynnag, roedd hynny'n ddud gan nad oedd yr awdurdod ond yn gallu cyflawni newidiadau a oedd yn niwtral o ran cost.
- 4.169 Yr oedd y defnydd o dechnolegau pen blaen hefyd yn cynyddu, fel cyfrifon ar-lein oedd yn galluogi unigolion i dalu ar-lein, sefydlu debyd uniongyrchol ac, mewn un achos o leiaf,

awgrymu trefniadau talu. Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd llawer o awdurdodau'n dechrau defnyddio negeseuon testun ac e-bost i gysylltu ag unigolion. Fodd bynnag, cydnabuwyd y ffaith nad oedd y gronfa ddata ond gystal â'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys ynddi, ac os nad oedd pobl wedi darparu rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost, nid oedd yr opsiwn hwn yn ddichonadwy. Soniwyd hefyd am apiau ffôn fel cyfle posib yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar atgoffa pobl i dalu mewn pryd.

- 4.170 Soniodd rhai awdurdodau am yr angen i ddefnyddio gwahanol ffyrdd i gyrraedd a chyfathrebu ag unigolion. Dywedodd ambell awdurdod eu bod wedi dod ar draw sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael ymhlith y boblogaeth leol, a bod angen ystyried defnyddio dulliau cyfathrebu gweledol neu deilwra'r ohebiaeth er mwyn ymgysylltu â'r unigolion hyn. Soniodd eraill am yr angen i ddefnyddio sianelau cyfathrebu ar-lein er mwyn cyrraedd unigolion iau oedd yn hyddysg mewn TG, a allai ddymuno cyfathrebu â'r cyngor ar-lein. Nododd y rhan fwyaf o gynghorau fod eu gohebiaeth yn ysgrifenedig ac wedi'u hanfon drwy'r post fel arfer. Teimlai cynghorau fod angen darparu ar gyfer unigolion yr oedd yn well ganddynt gyfathrebu drwy lythyr, neu nad oedd ganddynt gyfrifiadur wrth law, na'r sgiliau i ddefnyddio un o bosib.
- 4.171 Un awgrym er mwyn helpu gyda'r broblem addysg oedd cynnwys llinell stori mewn opera sebon er mwyn hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch y dreth gyngor a'r cymorth sydd ar gael¹⁸.

"Efallai y bydd hyn yn gwneud i chi chwerthin, ond flynyddoedd yn ôl roedd gennym y sgriniau gwybodaeth gyhoeddus 52" lle gallem ddangos gwybodaeth gymunedol.... Pam nad yw pobl yn defnyddio pethau fel operâu sebon i berfformio sefyllfaoedd o fywyd go iawn...gwneud pobl yn ymwybodol, drwy linell stori, y gallent fod â hawl i dderbyn Budd-dal y Dreth Gyngor... Rydw i wedi bod yn casglu'r Dreth Gyngor ers blynyddoedd, a blynyddoedd yn ôl roedd yna linell stori [ar opera sebon]...cafodd Dot Cotton ei hanfon i'r carchar am beidio talu ei threth gyngor....ond gallen nhw wario

¹⁸ Enghraifft o hyn oedd creu opera sebon y Nigeria; 'Binding Duty'. Tynnai sylw at bwysigrwydd talu trethi mewn modd ymlaciol a chyfeillgar. Roedd y ddrama 26 pennod yn cynnwys sêr enwog o Nigeria, ac fe gyrhaeddodd gynulleidfa o 80 miliwn o ddinasyddion. yn wir, bwriedir i'r opera sebon barhau am ei bod mor boblogaidd.

arian yn hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch y dreth gyngor, ynghylch yr hyn sydd ar gael a'r hyn y mae angen i bobl ei wneud.... fel addysg gyhoeddus. Yn lle hynny, mae'r arian yn cael ei wario ar gyhoeddiadau."

- 4.172 Teimlai rhai awdurdodau fod y dulliau a oedd ar gael iddynt yn ddibynnol iawn ar orfodaeth; dulliau 'ffon' yn hytrach nag 'abwyd'. Cafwyd cwestiwn ynghylch a oedd posibilrwydd o ddefnyddio dulliau i annog yn hytrach na gorfodi pobl i dalu, er bod amryw o awgrymiadau ynghylch pa ddulliau a allai fod yn ddefnyddiol. Soniodd un awdurdod ei fod yn y gorffennol wedi cynnig talebau canolfan hamdden fel gwobr am dalu, ond na welodd unrhyw fudd yn sgil hynny. Yr oedd teimlad y gallai ymdrechion fel hyn gael eu targedu at y bobl anghywir, y rhai a fyddai wedi talu beth bynnag.
- 4.173 O ran y dulliau sy'n annog neu'n cymell unigolion i dalu, awgrymodd awdurdod arall y dylid defnyddio amnest mewn achosion difrifol; pe bai'r unigolyn yn cytuno i ymgysylltu â'r awdurdod a sefydlu cynllun talu, byddai ei hen ddyledion yn cael eu dileu. Gallai hyn fod yn fodd i awdurdodau ailymgysylltu ag unigolion nad oes ganddynt berthynas â hwy ar hyn o bryd, ac nad oes unrhyw obaith i sefydlu perthynas â hwy, a chynnig cyfle i unigolion ddechrau eto gyda'r bwriad o feithrin arferion da wrth reoli arian. Teimlai un awdurdod hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gydnabod a hyrwyddo strategaethau ymgysylltu, fel ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd (lleol a chenedlaethol), a rhoi cyngor a chymorth ar ddyledion. Er mai ond un awdurdod a awgrymodd hyn yn benodol, gallai cymhelliant ariannol i weithredu technolegau newydd er mwyn rhwyddhau'r broses o gysylltu ag unigolion hefyd helpu'r awdurdodau hynny a ddywedodd mai'r unig ffordd iddynt wella oedd drwy fuddsoddiadau a oedd yn niwtral o ran cost Gall hyn fod yn arwydd o ddiffyg ymwybyddiaeth ynghylch y cyllid sydd eisoes ar gael ac a fwriedir i'r diben hwn, fel Buddsoddi i Arbed.

"ond pe bai gan gynghorau fwy o gymhelliant ariannol posib i weithredu technolegau newydd sy'n defnyddio negeseuon testun neu e-bost ac ati er mwyn cyrraedd cwsmeriaid cyn iddi fynd yn rhy hwyr....Rwy'n meddwl y byddwch chi'n gweld na fydd y rhan fwyaf o gynghorau y dyddiau hyn yn prynu darn o feddalwedd sydd yn trin y dreth gyngor yn unig. Mae'r feddalwedd yn gwneud tua deg o bethau eraill i wahanol

adrannau o'r cyngor hefyd. Felly, mae hynny'n golygu ei bod yn ddrytach ond bod y gost wedi'i gwasgaru ar draws gwahanol adrannau."

- 4.174 Gofynnwyd hefyd am fwy o eglurder ynghylch y defnydd o ddisgresiwn, ym mha sefyllfaoedd y mae'n dderbyniol neu fel arall. Yn y gorffennol, bu canllawiau arfer da yn ddefnyddiol i lywio a chyfiawnhau penderfyniadau a phrosesau, yn enwedig mewn ymateb i ymholiadau a godir gan ASau er enghraifft.
- 4.175 O ran dulliau eraill o dalu, cododd un awdurdod y posibilrwydd o ystyried gwaith gwirfoddol i'r cyngor fel ffordd o dalu i rai a oedd yn ei chael hi'n wirioneddol amhosib gwneud hynny.
- 4.176 Roedd un awdurdod yn galw am y gallu i gael mwy o ymreolaeth ariannol. Cyfeiriai at fanteision gallu codi mwy o arian ei hun, ond hefyd at y gallu i gadw unrhyw arian ychwanegol fyddai'n cael ei godi. Byddai hyn yn golygu newid y setliad terfynol. Teimlai nifer fach o awdurdodau fod angen adolygu'r disgowntiau a'r esemptiadau cyfredol sydd ar gael i unigolion, fel y disgownt i bobl sengl.

"Mae yna bethau ariannol y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i roi mwy o hyblygrwydd. Gallai newid y setliad ariannol er mwyn sicrhau bod modd i ni gadw peth o'r incwm ychwanegol yna....Eleni, mae'r disgownt i bobl sengl yn costio [£x swm o fewn yr awdurdod lleol] inni. Felly, pe baen ni ond yn ei ostwng 5 y cant, byddai hynny'n [swm o £x] Felly'r hyn sydd ei angen arnom ni yw'r gallu i godi mwy o arian, oherwydd os nad ydan ni'n mynd i gael yr arian yna gan y Llywodraeth Ganolog, mae angen inni allu ei godi, ond mae angen inni allu ei gadw hefyd."

Arferion newydd

- 4.177 Nid yw'r enghreifftiau o arferion newydd a roddir yn yr adran hon yn hollgynhwysol o bellffordd; mae'n debygol y ceir llawer o arferion eraill arloesol na ddaethpwyd ar eu traws wrth gyflawni'r gwaith ymchwil, oherwydd ffocws cyfyngedig y gwaith hwnnw. Serch hynny, adroddwyd yr arferion hyn yn ystod y cyfweiliadau a'r gweithdai, a gallent gynnig syniadau a chyfeiriadau i'w hystyried gan awdurdodau. Fodd bynnag, dylid cydnabod nad yw llwyddiant yr arferion hyn wedi'i brofi na'i werthuso eto. Hefyd, crybwyllodd nifer o awdurdodau arferion yr oedd awdurdodau eraill eisoes wedi rhoi cynnig arnynt, ac na chafwyd rhyw lawer o fudd ohonynt. Byddai'r gwersi hyn yn werthfawr i'w rhannu, ac yn amlygu manteision rhannu

arferion newydd rhwng awdurdodau. Lle bo'n briodol, mae gwersi o awdurdodau eraill hefyd wedi'u cynnwys.

- 4.178 Mae'r arferion hyn yn trafod amrywiaeth o nodau, gyda rhai ohonynt yn canolbwyntio ar wella'r broses gasglu ac eraill yn anelu i wella perthnasoedd â dinasyddion. Caiff arferion eu rhannu yn ôl yr hyn y maent yn anelu i'w gyflawni.

Rhannu arfer da

- 4.179 Siaradodd rhai awdurdodau am werth dysgu oddi wrth awdurdodau eraill a rhannu arfer gorau ar draws fforymau rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd awdurdodau'n cynnal eu hymarferion meincnodi eu hunain lle byddant yn darparu ystadegau allweddol ac yn llunio adroddiadau a chymariaethau. Soniodd nifer o awdurdodau eu bod yn defnyddio'r hyn a ddysgir yn sgil hyn i addasu eu prosesau.

Addysg ac ymgysylltu â'r gymuned

- 4.180 Mae Sir Ddinbych wedi cynnal peilot lle bydd plant mewn ysgolion uwchradd yn dysgu rhywfaint am y dreth gyngor. Mae'r peilot ar hyn o bryd wedi'i dargedu at ddisgyblion blwyddyn 9 a 10, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd lle ceir lefel uchel o amddifadedd i ddechrau. Roedd awdurdod arall hefyd yn gweld gwerth mewn ymgysylltu ag ysgolion er mwyn dechrau hysbysu pobl ifanc am bwysigrwydd trethi ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus.
- 4.181 Adroddodd Castell-nedd Port Talbot ei fod wedi symleiddio ei systemau yn dilyn adolygiad LEAN. Sefydlodd yr awdurdod dîm ymgynghori bychan fu'n cyfweld ag unigolion a ddeuai i'r swyddfa am unrhyw reswm a oedd yn gysylltiedig â'r dreth gyngor (ôl-ddyledion, newid cyfeiriad, gwneud cais am ddisgownt). Byddai'r tîm yn ceisio sefydlu pam bod y rhai a chanddynt ôl-ddyledion wedi mynd i ddyled, a pha ffordd fyddai orau er mwyn rheoli'r ôl-ddyledion. Gofynnodd y tîm hefyd i'r unigolion beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws iddynt allu dweud, ac un o'r camau a weithredwyd ganddynt yn sgil hynny oedd y dewis i ymrwymo i gynllun talu wythnosol i gyd-daro â'r adeg pan fyddant yn derbyn eu hincwm. Mae hyn wedi cael ei weithredu gan y rhan fwyaf o awdurdodau bellach, ond gellid bod achos dros gynnal ymgynghoriad tebyg â'r cyhoedd ar ôl gweithredu Credyd Cynhwysol yn llawn, er mwyn deall sut y gellid bod angen newid prosesau a systemau eto yn y dyfodol.

"Bu'n rhaid defnyddio cryn dipyn o adnoddau i'w wneud o i ddechrau, a doedd yr holl gwsmeriaid ddim am gymryd rhan oherwydd yr amser yr oedd hi'n gymryd i gasglu'r wybodaeth, ond bu'n bendant o gymorth mawr inni sefydlu patrwm".

Cyfathrebu

- 4.182 Mae Conwy wedi sicrhau ymrwymiad i e-filiau gan 30 y cant o'i unigolion, sy'n golygu bod modd iddynt edrych ar eu cyfrifon ar-lein. Y mae hefyd wedi cyflwyno modiwl newydd lle gall unigolion gynnig eu trefniadau eu hunain a meddiannu eu dyledion. Mae hyn yn golygu y gall Conwy ymgysylltu ag unigolion o fewn eu paramedrau eu hunain a sicrhau ei fod y derbyn taliadau bob wythnos. Dywed Conwy fod hyn yn ffordd barchus ac anfeirniadol o ymdrin ag unigolion.
- 4.183 Ymdrechodd rhai awdurdodau'n benodol i sicrhau nad oedd eu gohebiaeth yn cael ei rhoi o'r neilltu. Crybwyllodd dau awdurdod yn benodol y camau yr oeddent wedi'u cymryd o ran defnyddio delweddau gweledol er mwyn annog unigolion i ymateb i ohebiaeth ysgrifenedig. Roedd un awdurdod wedi cynnwys delwedd o arian ar amlenni'r cyngor, tra'r oedd awdurdod arall wedi defnyddio papur lliw ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig. Fel y trafodwyd yn yr adran ar ddulliau, roedd sawl dull wedi cael ei brofi yn gysylltiedig â dirnadaeth o ymddygiad wrth gyfathrebu, ond bu canlyniadau'r dulliau hynny'n gymysg.
- 4.184 Nododd nifer fawr o awdurdodau eu bod wedi dechrau defnyddio negeseuon testun, neu'n ystyried gwneud hynny. Fodd bynnag, ychydig o fudd a welwyd ymhlith y rhai a oedd eisoes wedi mabwysiadu'r dull hwn. Adroddodd yr awdurdodau nad oedd costau post wedi lleihau'n sylweddol hyd yma, a bod arbrawf Dirnadaeth o Ymddygiad o ddefnyddio negeseuon testun wedi esgor ar ganlyniadau cymysg. Er bod cyfyngiadau clir yn gysylltiedig â'r defnydd o negeseuon testun, mae'n debygol y bydd yr effaith yn gwella wrth i'r dechnoleg ddatblygu. Er enghraifft, teimlai'r awdurdodau y byddai'r ymateb yn fwy cadarnhaol pe baent yn gallu teilwra'r negeseuon testun yn well. Hefyd, wrth i gymdeithas fabwysiadu dulliau di-bapur yn gynyddol, ac wrth i hysbysiadau electronig droi'n norm, gallai costau postio ostwng yn sgil hynny.

Ailddylunio gwasanaethau

- 4.185 Trafododd Powys eu cynlluniau presennol i ailddylunio gwasanaethau. Bydd y dull hwn yn rhoi'r unigolyn yn gyntaf ac yn edrych ar ei anghenion ariannol mewn modd cyfannol, yn lle

edrych ar bob agwedd ar wahân. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau eu bod yn derbyn cymaint o enillion ag sy'n bosib cyn ystyried asesiad o incwm. Fel hyn, bydd llai o fynd a dod o'r naill adran i'r llall, ac felly llai o debygolrwydd y bydd elfennau'n cael eu hepgor.

Crynodeb

- 4.186 Mae awdurdodau wedi sicrhau cyfraddau casglu cyson uchel dros gyfnod heriol lle mae unigolion a'r awdurdodau eu hunain wedi wynebu cyfyngiadau ariannol. Mae'r awdurdodau'n cydnabod y brwydrau a wynebir gan rai unigolion, ac mae'n amlwg eu bod yn ymdrechu i helpu lle bo modd. Fodd bynnag, ceir rhwystredigaeth glir hefyd ynghylch y ffaith nad yw rhai unigolion yn ymgysylltu, a'r feddylfryd 'pen yn y tywod', sydd yn lleihau'r cymorth y gall awdurdodau ei ddarparu. Yn aml, mae hyn wedyn yn creu mwy o gostau i unigolion drwy ffioedd gorfodi nad ydynt o fudd i'r awdurdod nac i'r unigolyn
- 4.187 Mae'r holl gamau adennill yn seiliedig ar yr un ddeddfwriaeth a chanllawiau, ond mae'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau yn amrywio. Er enghraifft, pwysleisiai rhai awdurdodau bwysigrwydd anfon nodynnau atgoffa buan ac aml, er mwyn atal dyledion rhag pentyrru, tra'r oedd eraill o'r farn mai hyblygrwydd oedd yn bwysig, a chan gydnabod patrymau gwaith amrywiol, y dylid rhoi mwy o amser a rhyddid i unigolion gael talu. Serch hynny, nid oedd y penderfyniad i fod yn brydlon neu'n hyblyg yn cael unrhyw effaith ar ddull dilynol yr awdurdodau o ymdrin â gorchmynion dyled a'r broses orfodi. Ymddengys fod y dulliau a'r ymagweddau wedi esblygu dros amser ac wedi cael eu haddasu i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol, yn hytrach na'u bod yn seiliedig ar ideoleg a damcaniaeth. Er enghraifft, crybwyllodd nifer o awdurdodau eu bod wedi colli aelodau penodol o staff a'u bod wedi addasu eu dulliau i gyd-fynd â'r tîm a oedd yn weddill.
- 4.188 Roedd hi'n clir o'r cyfweiliadau fod awdurdodau hefyd yn addasu ei dulliau i gyd-fynd â'u hardal leol a'r heriau o'u blaen. Roedd awdurdodau'n ystyriol o faterion fel poblogaethau amharhaol, cyfrannau uchel o bobl hŷn, ardaloedd amddifadus a lefel uchel o ddibyniaeth ar gyflogwyr lleol neilltuoel. Cyfrannai'r materion lleol hyn at y penderfyniadau yr oeddent yn eu gwneud drwy gydol y broses gasglu.

- 4.189 Roedd awdurdodau'n ymwybodol o fregusrwydd, a chan gydnabod natur unigryw achosion bregus, roeddent yn tueddu i adnabod nodweddion a ffurfio barn yn hytrach na chael polisi pendant. Pe bai unigolion yn cysylltu â hwy i fynegi pryder am faterion ariannol, byddai'r mwyafrif yn eu cyfeirio at asiantaethau cynghori allanol. Adroddai rhai fod y berthynas rhyngddynt ac asiantaethau cynghori dan straen ar adegau, ond y gallu i feithrin cyd-ddealltwriaeth oedd wrth wraidd y sefyllfaoedd hynny lle'r oedd y berthynas yn gweithio'n dda.
- 4.190 O ran effeithlonrwydd gwahanol ddulliau casglu, mynegai'r awdurdodau'n glir mai debyd uniongyrchol oedd y safon aur. Yr oedd yn rhoi sicrwydd i'r awdurdod ynghylch taliadau, ac yn golygu'r lleiaf o ymdrech i unigolion. Ymdrechai'r holl awdurdodau i gynyddu'r gyfran o gyfrifon a oedd ar gynlluniau debyd uniongyrchol, ac roedd llawer yn annog hyn drwy gynnig gwahanol ddyddiadau ac amlderau talu. Cynigiai awdurdodau amrywiaeth o ddulliau talu eraill i gynnig cymaint o hyblygrwydd ag a oedd yn bosibl wrth dalu, ond nid oedd yr un dull yn cael ei ystyried mor effeithlon â debyd uniongyrchol.
- 4.191 Yn dilyn gorchymyn dyled, atafaelebau enillion ac atafaelebau budd-dal oedd y dulliau mwy effeithlon ac effeithiol. Roedd y rhain yn gweithredu'n debyg i ddebyd uniongyrchol, heb fod angen llawer o ymdrech ar ran yr awdurdod na'r unigolyn. Fodd bynnag, roedd y naill a'r llall yn ddibynnol ar dderbyn gwybodaeth gan unigolion - gwybodaeth nad oedd yn cael ei chyflwyno yn aml.
- 4.192 Pe bai'r holl opsiynau hyn yn methu, byddai'r awdurdodau wedyn yn troi at asiantau gorfodi, ac roeddent yn cydnabod bod y rheiny yn llai effeithiol a dymunol o safbwynt yr awdurdod ac o safbwynt yr unigolion. Roedd y graddau yr oedd awdurdodau'n ymchwilio i gyfrifon cyn eu hanfon at asiantaethau gorfodi yn amrywio. Roedd hynny'n dibynnu ar yr adnoddau yr oedd ganddynt o gymharu â nifer y cyfrifon, a'u trefniadau ar gyfer dal a rhannu data. Pan fyddai'r awdurdodau'n teimlo eu bod wedi bod drwy'r holl wybodaeth a oedd ganddynt, ac nad oedd gohebiaeth bellach wedi llwyddo, byddent yn defnyddio asiantau gorfodi.
- 4.193 Yn hytrach na chyflawni'r rôl draddodiadol o gasglu, roedd asiantau gorfodi hefyd yn cael eu hystyried fel ffordd o gasglu mwy o wybodaeth. Teimlwyd eu bod yn gymwys i adnabod nodweddion bregus, ac i wneud argymhellion ynghylch cyfrifon yn sgil hynny. Yr oedd rhywfaint o anghysondeb ynghylch ffioedd pe bai cyfrifon yn cael eu hailberchnogi gan

awdurdodau lleol. Gallai hynny arwain at safbwynt mwy trugarog mewn rhai awdurdodau nag eraill.

- 4.194 Ar ôl y cam hwn, deuai'r gwahaniaethau o ran dulliau yn fwy amlwg. Pe na bai'r asiantau gorfodi yn llwyddo i ddatrys y cyfrifon, byddai'r holl awdurdodau'n archwilio'r cyfrifon unwaith eto. Byddai'r awdurdodau'n defnyddio llythyrau bygwth traddodi, a oedd yn cael eu hystyried yn effeithiol ar rai nad oeddent wedi ymgysylltu hyd hynny. Yr oedd rhywfaint o dystiolaeth bod nifer fach o awdurdodau yn anfon cyfrifon yn ôl at asiantau gorfodi. Byddai eraill yn parhau yn y cam ymchwiliol hwn, gan ymdrechu i gael mwy o wybodaeth am unigolion. Anfonai rhai wysion traddodi at nifer fach o drethdalwyr, tra byddai eraill yn mabwysiadu dull mwy cynhwysfawr, gan ddefnyddio traddodebau fel y cam nesaf yn eu proses safonol, ond gan bwysleisio unwaith eto mai dewis olaf oedd hyn.
- 4.195 Anaml y defnyddid gorchmynion arwystlo a methdaliad, oherwydd ystyrid bod angen llawer o adnoddau ar eu cyfer, a'u bod yn amhriodol yn y mwyafrif o achosion.
- 4.196 Ystyriai'r awdurdodau fod Diwygio Lles yn her aruthrol, ac roddent hefyd yn ymwybodol o gyfraddau treth cynyddol, lefelau isel o incwm a'r gostyngiad mewn adnoddau. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn gweld bod defnyddio technoleg a mynediad posibl at ddata cyflogaeth yn cynnig cyfleoedd.

5. Data perfformiad a meincnodi ar gyfer y Dreth Gyngor

Cyflwyniad

- 5.1 Yn y bennod hon, archwilir perfformiad awdurdodau o ran casgliadau ac ôl-ddyledion y dreth gyngor, ynghyd â'r gwahanol ddulliau casglu a gorfodi a ddefnyddir. Dechreuir y bennod drwy gyflwyno rhai o'r ystadegau perfformiad a gesglir gan Lywodraeth Cymru o awdurdodau lleol. Canolbwyntir wedyn ar rai o'r data meincnodi a ddarperir yn wirfoddol gan awdurdodau er mwyn iddynt allu cymharu a gwella eu perfformiad. Cyflwynir y data hyn yn nhrefn y broses gasglu a gorfodi: casglu, ôl-ddyledion, nodyn atgoffa, gorchymyn dyled, atafaelebau, cymryd rheolaeth ar nwyddau, traddodi, gorchymyn arwystlo, methdaliad^{19 20}.

Cyfraddau casglu

- 5.2 Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn uchel, ac ar y cyfan maent wedi cynyddu dros amser. O edrych ar gyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn²¹, 97.4 y cant oedd y gyfradd gasglu yng Nghymru yn 2016-17, y gyfradd gasglu uchaf ers cyflwyno'r dreth gyngor. Mae'n cynrychioli cynnydd 0.1 pwynt canran o gymharu â 2015-16. Yn Lloegr, 97.1 y cant oedd y gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn yn 2016-17.
- 5.3 Mae Tabl 5.1 yn dangos cyfraddau casglu'r dreth gyngor fesul awdurdod lleol yn y cyfnod 2010-11 hyd 2016-17. Cafwyd cynnydd o 0.8 pwynt canran yng nghyfradd Cymru dros y cyfnod hwn.

¹⁹Traddodebau, gorchmynion dyled a methdaliadau yw'r camau gorfodi a ystyrir yn 'ddewis olaf'; cyflwynir traddodebau i ddechrau gan eu bod yn cael eu defnyddio'n amlach, yn hytrach nag am eu bod yn gam llai difrifol.

²⁰Nid oes data ar gael ar ddyledion a ddilëwyd yn 2016-17.

²¹Y gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn yw'r swm a dderbynnir erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn dan sylw ar gyfer treth gyngor y flwyddyn ariannol honno, wedi'i dangos fel canran o'r debyd net sydd i'w gasglu ar gyfer treth gyngor y flwyddyn honno. Mae'n cynnwys rhagdaliadau a wnaed mewn blyneddau cynt ar gyfer y flwyddyn honno, ond nid yw'n cynnwys rhagdaliadau a wnaed y flwyddyn honno ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac nid yw ychwaith yn cynnwys talu unrhyw ôl-ddyledion.


Tabl 5.1 - Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor fesul Awdurdod Lleol (%)

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Cyfartaledd Cymru	96.6	96.7	96.7	97.0	97.2	97.2	97.4
Ynys Môn	96.4	96.4	96.6	97.1	96.8	97.6	97.4
Gwynedd	96.7	96.8	97.1	96.9	97.2	97.2	97.3
Conwy	96.9	96.8	96.7	96.8	97.0	97.2	97.3
Sir Ddinbych	98.2	98.0	98.0	97.7	97.6	97.6	97.7
Sir y Fflint	97.5	97.8	97.8	97.9	97.8	98.0	98.1
Wrecsam	96.9	96.5	96.1	96.8	97.2	97.5	97.5
Powys	97.3	97.4	97.4	97.6	97.6	97.7	97.6
Ceredigion	96.8	96.7	96.6	96.7	97.1	97.0	97.4
Sir Benfro	97.6	97.9	98.1	97.9	98.0	98.0	97.9
Sir Gaerfyrddin	97.6	97.1	96.7	97.0	97.1	96.6	97.1
Abertawe	96.0	96.2	96.7	96.8	97.2	97.3	97.3
Castell-nedd Port Talbot	97.2	97.0	97.1	97.3	97.5	97.9	98.0
Pen-y-bont ar Ogwr	96.5	96.8	96.7	97.1	97.3	97.1	97.5
Bro Morgannwg	97.1	97.3	97.6	97.5	97.9	97.9	97.8
Rhondda Cynon Taf	96.9	97.1	97.0	97.1	97.1	97.1	96.9
Merthyr Tudful	95.3	95.4	95.8	95.9	95.9	96.1	96.1
Caerffili	95.8	96.2	96.4	96.4	96.7	97.0	97.1
Blaenau Gwent	95.4	94.9	95.3	95.7	95.0	93.5	93.8
Torfaen	97.1	97.0	96.9	97.4	96.3	96.1	96.4
Sir Fynwy	97.0	97.1	97.2	97.9	97.5	97.8	98.1
Casnewydd	95.7	95.6	95.8	95.7	96.4	96.9	96.9
Caerdydd	94.5	95.1	95.3	96.3	97.0	97.3	97.5

Ffynhonnell - StatsCymru, ffurfienni casglu'r dreth gyngor

5.4 Fel y dangosir yn nhabl 5.1, ceir rhywfaint o amrywio yng nghyfraddau casglu gwahanol awdurdodau. Nid yw'r gwahaniaethau hyn o reidrwydd yn deillio o wahaniaethau mewn dulliau casglu. Ceir cysylltiad rhwng lefel yr amddifadedd incwm mewn awdurdod lleol a'i gyfradd gasglu. Mae siart 5.1 yn dangos plot gwasgaredig o amddifadedd incwm fel canran o'r boblogaeth o gymharu â chyfraddau casglu'r dreth gyngor. Ceir cydberthynas negyddol wan rhwng y ddwy elfen (ar y cyfan, po fwyaf yw'r amddifadedd incwm, yr isaf yw cyfraddau casglu'r dreth gyngor).

Siart 5.1 - Cyfraddau casglu'r dreth gyngor o gymharu ag amddifadedd incwm 2016-17




Ffynhonnell - StatsCymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Amddifadedd incwm, a ffurflenni casglu'r dreth gyngor.

Nid yw'r gydberthynas hon yn syml, ac mae'n glir bod ffactorau eraill yn dylanwadu ar gyfraddau casglu. Gall y rhain fod yn ffactorau sy'n gynhenid i'r awdurdod lleol fel lefel gyfartalog y dreth gyngor, lefel cyfartalog y dreth gyngor o gymharu ag incwm cyfartalog, yn ogystal â dulliau a thechnegau casglu a ddefnyddir gan adrannau casglu'r dreth gyngor. Mae'n bosib bod ffactorau eraill sy'n gysylltiedig ag amddifadedd yn chwarae rhan hefyd; o'i ystyried fel diffiniad ehangach, mae amddifadedd nid yn unig yn dibynnu ar incwm ond hefyd ar strwythur y teulu, ffynonellau incwm a strwythur tai (DWP 2004).

- 5.5 Mae Siart 5.2 yn dangos lefel y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D ar draws awdurdodau ar gyfer 2017-18. £1,420 yw'r dreth gyngor gyfartalog am eiddo Band D yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru. Mae'r gyfradd am eiddo Band D ar ei uchaf ym Mlaenau Gwent, sef £1,754, ac ar ei hisaf yn Sir Benfro, lle codir £1,128 am eiddo Band D.

Siart 5.2 - Y Dreth Gyngor ar gyfer Eiddo Band D, 2017-18




Ffynhonnell - StatsCymru

- 5.6 Gellir defnyddio'r sylfaen drethi a lefel yr amddifadedd fel esboniad rhannol am yr amrywio yn lefelau'r dreth gyngor. Mae sylfaen drethi awdurdodau lleol a chanddynt fwy o gartrefi yn y bandiau treth is (bandiau A-C) yn llai, felly mae angen iddynt godi cyfradd uwch o dreth gyngor ar yr eiddo hynny i godi digon o arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, o gymharu ag awdurdodau a chanddynt fwy o gartrefi yn y bandiau treth uwch.
- 5.7 Bydd fforddiadwyedd cymharol y dreth gyngor yn amrywio rhwng y naill le a'r llall ac yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Er enghraifft, ym Mlaenau Gwent, lle ceir cyfradd Band D uchel o gymharu ag awdurdodau eraill (£1,754), mae 83.3 y cant o'r eiddo yn perthyn i Fand A a fyddai'n talu cyfradd o £1,169 neu Fand B a fyddai'n talu £1,364. Yn Sir Fynwy, mae cyfradd y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D tua'r un faint â chyfartaledd Cymru (£1,466) ond dim ond 9.1 y cant sy'n perthyn i Fand A a B. Mae'r mwyafrif o aelwydydd yn Sir Fynwy yn perthyn i'r bandiau canolig i uchel (Bandiau C-G), ac yn talu cyfradd rhwng £1,304 a £2,200.

5.8 Mae'n amlwg bod lefelau cyffredinol y dreth gyngor sy'n daladwy yn dylanwadu ar gyfraddau casglu, gan fod lefelau uwch yn llai fforddiadwy i rai ar incwm isel. Mae Siart 5.3 yn dangos y berthynas rhwng lefelau a chyfraddau casglu'r dreth gyngor. Ceir perthynas negyddol wan rhwng cyfradd casglu'r dreth gyngor a chyfradd Band D; at ei gilydd, po fwyaf yw cyfradd Band D, y lleiaf yw'r gyfradd gasglu. Fodd bynnag, yn debyg i'r cysylltiad rhwng cyfraddau casglu ac amddifadedd, mae'n glir nad yw'r berthynas hon mor syml, a'i bod yn ddibynnol ar ffactorau eraill.

Siart 5.3 - Cyfraddau casglu'r dreth gyngor o gymharu â Band D y dreth gyngor 2016-17



Ffynhonnell - StatsCymru

5.9 Mae Tabl 5.2 yn dangos swm y dreth gyngor yr anfonwyd biliau ar ei gyfer ar ddechrau 2016-17 fesul awdurdod lleol, ôl-ddyledion a ddygwyd ymlaen, y ddyled a godwyd ar gyfer y flwyddyn, y swm a gasglwyd²², y swm a gafodd ei ddileu a'r ôl-ddyledion a oedd yn weddill. Mae'r siart hon yn rhoi syniad o raddfa'r casgliadau a'r ôl-ddyledion ym mhob awdurdod lleol. Yn ôl y disgwyl, yn yr awdurdod mwyaf (yn ôl maint ei boblogaeth), sef Caerdydd, y mae'r nifer fwyaf o ddebydau, casgliadau ac ôl-ddyledion.

²²Cyfanswm a gasglwyd/Cyfanswm yr anfonwyd biliau amdano = cyfradd gasglu

Tabl 5.2 - Casgliadau ac ôl-ddyledion y dreth gyngor 2016-17


<i>£ miloedd</i>						
	Ôl-ddyledion	Cyfanswm y Debydau	Symiau a gasglwyd yn ystod y flwyddyn	Ôl-ddyledion a gasglwyd	Cyfanswm a ddilëwyd	Cyfanswm yr ôl-ddyledion a oedd yn weddill ar 31/03/17
Cyfanswm Cymru	82,383	1,421,916	1,384,326	29,340	6,492	84,141
Ynys Môn	2,354	35,376	34,473	530	42	2,685
Gwynedd	2,772	66,469	64,705	581	161	3,794
Conwy	3,878	58,879	57,262	1,739	113	3,643
Sir Ddinbych	2,294	47,533	46,434	744	191	2,458
Sir y Fflint	2,674	75,688	74,238	1,141	232	2,751
Wrecsam	3,730	60,217	58,705	947	637	3,658
Powys	3,393	73,797	72,004	1,513	155	3,518
Ceredigion	2,680	37,928	36,959	1,011	200	2,438
Sir Benfro	1,448	51,285	50,197	205	218	2,113
Sir Gaerfyrddin	5,990	86,513	83,963	1,508	85	6,947
Abertawe	7,513	106,190	103,323	2,405	745	7,230
Castell-nedd Port Talbot	4,072	63,205	61,943	1,207	505	3,622
Pen-y-bont ar Ogwr	4,215	68,335	66,659	1,994	429	3,468
Bro Morgannwg	1,693	70,248	68,718	1,163	146	1,914
Rhondda Cynon Taf	5,352	98,045	95,039	2,165	427	5,766
Merthyr Tudful	3,701	24,058	23,130	883	205	3,541
Caerffili	3,044	61,601	59,820	1,558	210	3,057
Blaenau Gwent	3,497	27,247	25,564	1,211	122	3,847
Torfaen	2,757	38,093	36,703	1,116	113	2,918
Sir Fynwy	2,940	58,356	57,276	1,225	183	2,612
Casnewydd	4,065	58,521	56,713	1,464	265	4,144
Caerdydd	8,321	154,332	150,498	3,030	1,108	8,017

Ffynhonnell: StatsCymru

Sylwer: Nid yw'r symiau'n cynnwys symiau'n gysylltiedig â chostau llys a godwyd neu a gasglwyd.

5.10 Mae Siart 5.4 yn dangos nifer yr anheddau trethadwy fesul awdurdod.


Siart 5.4 - Nifer yr Anheddau Trethadwy 2017-18



Ffynhonnell - StatsCymru

5.11 Drwy gymryd y ddyled (a ddangosir yn Nhabl 5.2) a'i rhannu â nifer yr anheddau trethadwy (Siart 5.4), gallwn ystyried y modd y mae'r boblogaeth yn amrywio mewn gwahanol awdurdodau lleol. Mae Siart 5.5 yn dangos sut mae hyn yn amrywio. Dyled gyfartalog y dreth gyngor yng Nghymru fesul annedd drethadwy yw £62. Mae'n rhoi esboniad manylach o'r berthynas rhwng amddifadedd, lefelau'r dreth gyngor a dyled.

Siart 5.5 - Swm y dreth gyngor sy'n weddill fesul annedd drethadwy 2016-17



Ffynhonnell - Anheddau treth gyngor a ffurflenni treth gyngor StatsCymru

- 5.12 Ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent y mae'r gyfran uchaf o amddifadedd incwm (mesurwyd fel Amddifadedd Incwm MALIC fel canran o'r boblogaeth), a'r swm uchaf o ddyled fesul annedd drethadwy. Fodd bynnag, ceir lefelau uchel o amddifadedd incwm yn Rhondda Cynon Taf a Chaerffili hefyd, ond swm llai o ddyledion fesul annedd drethadwy. Ar ben arall y raddfa, mae'r awdurdodau a chanddynt y lefelau isaf o amddifadedd incwm (Powys, Sir Fynwy a Cheredigion) yn wasgaredig o ran y symiau o ddyled, gan ddangos mai un o'r ffactorau dylanwadol yn unig yw amddifadedd incwm.
- 5.13 O edrych ar lefelau treth gyngor Band D, ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent hefyd y mae rhai o'r lefelau uchaf o'r dreth gyngor, ac mae hynny o'i gyplysu ag amddifadedd incwm, yn esbonio eu safle yn Siart 5.5 i raddau helaeth. Yng Nghaerffili a Sir Benfro y mae'r dreth ar ei hisaf, a allai esbonio pam bod lefel eu dyledion yn is. Ceir rhai anghysondebau, er enghraifft, mae gan Fro Morgannwg a Sir y Fflint gyfraddau tebyg i gyfartaledd Cymru ym Mand D a lefelau amddifadedd incwm cymharol isel, ond mae eu hól-ddyledion yn arbennig o isel. Yn debyg i hyn, ceir cyfraddau uchel ym Mand D yn Rhondda Cynon Taf, a lefelau uchel o amddifadedd incwm, ond lefel isel o ddyled.

- 5.14 Mae'n glir bod yr anghysondebau ac, yn wir, y gwahaniaethau rhwng awdurdodau yn gyffredinol, yn ddibynnol ar ffactorau eraill a grybwyllwyd yn flaenorol. Er enghraifft, mae demograffeg neilltuol yn debygol o fod â rhan yn hyn (fel poblogaethau symudol mewn ardaloedd trefol, poblogaethau sy'n heneiddio, cyfran y tai cymdeithasol, cyflwr y farchnad lafur ar hyn o bryd ac yn y gorffennol). Fodd bynnag, mae'r dulliau casglu a ddefnyddir gan awdurdodau hefyd yn debygol o gael rhywfaint o effaith.

Dulliau Casglu

- 5.15 Dywed yr awdurdodau lleol eu bod yn rhagweithiol drwy gymharu data monitro er mwyn chwilio am wahaniaethau a meysydd i'w dysgu. Drwy ddefnyddio'r data hyn, ceir mwy o ddirnadaeth o'r gwahaniaethau yn eu dulliau o ymdrin â chasglu'r dreth gyngor. Fodd bynnag, dylid cofio mai data a ddarperir ar sail wirfoddol gan yr awdurdodau yw'r data hyn, ac na chynhelir cynifer o wiriadau ansawdd arnynt. Gan hynny, dylid defnyddio data meincnodi i gael syniad o arferion, yn hytrach nag er mwyn cael rhifau manwl gywir. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn cyflwyno data meincnodi gan ei fod ei dîm casglu treth gyngor ar gontract allanol. Mae data 2016-17 ar gael ar gyfer y broes casglu ôl-ddyledion yn dilyn gorchymyn dyled, ond data o 2013-14 yw'r data mwyaf diweddar ar strwythur timau a nodynnau atgoffâ.

5.16 Mae Tabl 5.3 yn cyflwyno ffigurau Cymru gyfan o ddata meincnodi 2016-17.

Tabl 5.3 - Data meincnodi awdurdodau lleol

	Cyfanswm Cymru
Anheddau Trethadwy	1,315,922
Biliau a anfonwyd - Mawrth 2016	1,357,168
Biliau wedi'u haddasu a anfonwyd 2016-17	1,520,112
Cyfanswm y Biliau	2,877,280
Hysbysiadau Atgoffa a Anfonwyd	439,944
Hysbysiadau terfynol	88,308
Cyfanswm yr Hysbysiadau	528,252
Gwysion am beidio â thalu	125,123
Gorchmynion dyled a ganiatawyd	92,547
Gwysion am beidio darparu gwybodaeth	-
Gorchmynion atafaelu enillion	18,961
Ceisiadau am ddiwydiadau i'r DWP	16,673
Atgyfeiriadau i asiantau gorfodi/casglwyr	55,151
Casglu taliadau cosb	-
Gwysion traddodi	326
Gorchmynion traddodi - dedfryd wedi'i gohirio	159
Gorchmynion traddodi - dedfryd wedi'i gosod	20
Gwarantau arestio wedi'u sicrhau - gyda mechnïaeth	118
Gwarantau arestio wedi'u sicrhau - heb fechnïaeth	116
Gorchmynion arwystlo	178
Gofynion statudol a anfonwyd	25
Deisebau a gychwynnwyd	9
Methdaliadau a sicrhawyd	4

Ffynhonnell: Data Meincnodi Awdurdodau Lleol

5.17 Drwy ddefnyddio data meincnodi'r dreth gyngor gallwn weld fod y dulliau casglu yn amrywio mewn sawl ffordd. Dengys data 2013-14 (nid yw'r data hyn ar gael ar gyfer 2016-17), gwelir bod timau casglu naw awdurdod wedi'u trefnu fel bo modd i'w swyddfeydd blaen a chefn weithredu ar wahân; swyddogaeth benodol ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid i ymdrin ag ymholiadau, taliadau a chasglu'r dreth gyngor, a swyddfa gefn sy'n ymdrin â'r broses adennill dyledion. Nid oedd y gweddill ohonynt yn rhannu eu swyddogaethau yn y modd yma. Roedd natur amrywiol y dulliau hefyd i'w gweld yn y cyfweiliadau, lle disgrifiodd awdurdodau wahanol fodelau ar gyfer gwaith mewnol; ceir mwy o fanylion am y perthnasoedd hyn ym Mhennod 4.

5.18 Fel y cyflëwyd yn y cyfweiliadau, dengys y data fod pwyslais awdurdodau ar ben blaen y broses gasglu yn amrywio. Roedd cymhareb y biliau a ddiwygiwyd fesul annedd drethadwy yn amrywio rhwng 0.8 a 2.4 (po isaf y gymhareb, y lleiaf yw'r diwygiadau)

Hysbysiadau atgoffa

- 5.19 Mae data meincnodi 2016-17 yn dangos od nifer y diwrnodiau gwaith rhwng dyddiad y rhandaliad a chyflwyno'r hysbysiad atgoffa cyntaf yn amrywio rhwng 10 a 28. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw berthynas amlwg rhwng pa mor aml yr anfonir hysbysiadau atgoffa a'r nifer o orchmynion dyled na chyfraddau casglu.

Gorchmynion dyled

- 5.20 Cafwyd cyfanswm o 92,547 o orchmynion dyled yng Nghymru yn 2016-17, gostyngiad o gymharu â 116,077 yn 2013-14. Yn 2016-17, roedd hyn yn amrywio rhwng 1,761 ac 11,421 ar draws yr awdurdodau. Roedd cyfran y gorchmynion dyled a ganiatawyd o gymharu â nifer yr anheddau trethadwy yn amrywio rhwng 4 y cant a 10 y cant, a 7 y cant oedd y ffigur cyfartalog.

Atafaelu enillion

- 5.21 Atafaelu enillion yw un o'r opsiynau y gellir eu defnyddio yn dilyn gorchymyn dyled. Yn eu cyfweiliadau, dywedodd awdurdodau mai dyma oedd eu dewis cyntaf er mwyn adennill dyled, gan mai dyna oedd y dull mwyaf effeithlon ac effeithiol. Wrth adolygu'r data hyn, dylid nodi y gall un gorchymyn dyled arwain at sawl cam gweithredu. Fel enghraifft syml, yn dilyn gorchymyn dyled, gallai awdurdod drefnu i atafaelu budd-daliadau i ddechrau, wedyn trefnu i atafaelu enillion os yw'r unigolyn yn symud i gyflogaeth, ac anfon asiant gorfodi wedi hynny os daw'r gyflogaeth i ben.
- 5.22 Yn 2016-17, cafwyd 18,961 o atafaelebau enillion, o gymharu ag 15,653 yn 2013-14. Yr oedd gwahaniaethau mawr yn nifer y gorchmynion atafaelu enillion a ganiatawyd. Roedd y rhain yn amrywio rhwng 85 a 2,760. Er mwyn cymharu gorchmynion atafaelu enillion ar draws awdurdodau, gallwn ddefnyddio nifer o anheddau trethadwy fel sylfaen. Nifer cyfartalog yr atafaelebau enillion fel cyfran o'r anheddau trethadwy oedd 1.3 y cant, ac nid oed hyn yn amrywio rhyw lawer ar draws awdurdodau.
- 5.23 Fel cyfran o orchmynion dyled, roedd atafaelebau enillion yn amrywio rhwng 3 y cant a 39 y cant, gyda chyfartaledd o 20 y cant. Efallai fod yr ystod hon yn destun syndod; byddem yn disgwyl rhywfaint o wahaniaeth oherwydd amgylchiadau lleol. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaethau yn dilyn patrymau cyflogaeth ar draws awdurdodau.

- 5.24 Gallai rhai o'r gwahaniaethau darddu o'r gyfran o geisiadau am wybodaeth a anfonwyd yn ôl i'r awdurdodau gan unigolion; po uchaf y gyfradd dychwelyd gwybodaeth, y mwyaf tebygol yw hi y byddai awdurdod yn gallu gwneud cais am atafaeleb enillion. Ni chasglwyd data ar gyfraddau dychwelyd gwybodaeth oddi wrth awdurdodau, ond codwyd hynny yn y cyfweiliadau. Gallai peth o'r gwahaniaethau hefyd darddu o faint yr wybodaeth hanesyddol sydd gan awdurdodau ar eu cofnodion. Gall awdurdodau sy'n casglu ac yn cadw gwybodaeth am atafaelebau o'r gorffennol ac yn gallu eu hailgychwyn heb gael gwybodaeth ychwanegol gan unigolion. Yn yr un modd, mae'n bosibl bod gan yr awdurdodau hynny y mae cyfran uwch o'u poblogaethau wedi mynd i ddyled yn flaenorol fwy o siawns o weithredu atafaelebau yn y dyfodol, oherwydd bydd ganddynt yr wybodaeth honno eisoes. Fodd bynnag, mae'n debygol mai cymysgedd o ffactorau lleol cymhleth, na ellir eu hechdynnu na'u hesbonio'n rhwydd, sydd wrth wraidd y gwahaniaeth.

Atafaelu budd-daliadau

- 5.25 Gellir gweld patrwm tebyg yn nefnydd awdurdodau o atafaelebau budd-dal. Cafwyd cyfanswm o 16,673 o geisiadau i atafaelu budd-daliadau yn 2016-17, sef gostyngiad o gymharu â 21,769 yn 2013-14. Roedd hyn yn amrywio rhwng 188 a 2,067 rhwng awdurdodau. Fel cyfran o anheddau trethadwy, cafwyd cyfartaledd o 1.3 y cant o atafaelebau budd-dal.
- 5.26 Roedd cyfran y gorchmynion dyled a ganiatâwyd ac a arweiniodd at gais i atafaelu budd-daliadau yn amrywio rhwng 5 y cant a 53 y cant, gyda chyfartaledd o 18 y cant.
- 5.27 Yn debyg i atafaelebau enillion, nid yw'n ymddangos bod cydberthynas rhwng y cyfraddau atafaelu enillion a lefelau amddifadedd neu daliadau treth gyngor mewn awdurdodau lleol. Er hynny, mae'r data yn cefnogi'r ddamcaniaeth bod y dulliau adennill y bydd awdurdodau'n dewis eu defnyddio a chyfraddau'r wybodaeth bersonol a ddychwelir i'r awdurdod yn fwy tebygol o esbonio cyfraddau'r atafaelebau budd-dal. Mae hyn oherwydd bod symiau tebyg o atafaelebau budd-dal ac atafaelebau enillion awdurdodau lleol wedi cael eu gweithredu. Hynny yw, roedd yr awdurdodau hynny a chanddynt gyfran uchel o atafaelebau enillion hefyd yn fwy tebygol o fod â chyfran uchel o atafaelebau budd-dal, a fel arall.


Asiantau Gorfodi

- 5.28 Cafodd cyfanswm o 55,151 o achosion eu trosglwyddo i asiantau gorfodi yng Nghymru yn 2016-17 a gostyngiad o 67,329 yn 2013-14. Mae hyn yn cynrychioli 4 y cant o anheddau trethadwy yng Nghymru yn 2016-17, gan amrywio rhwng 1 y cant ac 17 y cant ar draws yr awdurdodau. Gall hyn darddu o'r ffocws amrywiol ar draws gwahanol awdurdodau, fel penderfyniad rhai awdurdodau i weithredu prosesau systematig i hidlo llwythi achos cyn atgyfeirio i asiant gorfodi, neu benderfyniad awdurdodau i ostwng atgyfeiriadau er mwyn osgoi costau ychwanegol i'r awdurdod a'r unigolyn dan sylw. Fodd bynnag, gallai hefyd darddu o'r ffaith bod rhai awdurdodau'n ailatgyfeirio dyledion i asiantau gorfodi ar ôl ymdrechion cychwynnol aflwyddiannus, neu os yw amgylchiadau'r unigolyn yn newid. Gellir gweld hyn wrth edrych ar gyfran y gorchmynion dyled a gafodd eu hatgyfeirio ymlaen i asiant gorfodi yn ddiweddarach. 60 y cant oedd y ffigur hwn yng Nghymru yn 2016-17. Mae'r data yn dangos amrywio helaeth ar draws yr awdurdodau, o 9 y cant hyd at 198 y cant. Mae ffigur dros 100 y cant yn awgrymu bod achos yn cael ei anfon at asiant gorfodi fwy nag unwaith; roedd y ffigur fymryn dros 100 y cant mewn dau awdurdod ac yn 198 y cant mewn awdurdod arall.

Gwysion Traddodi

- 5.29 Mae cyfanswm y gwysion traddodi wedi gostwng o 480 yn 2013-14 i 326 yn 2016-17. Mae Siart 5.6 yn dangos nifer yr awdurdodau a anfonodd wysion traddodi yn 2016-17 o gymharu â 2013-14.

Siart 5.6 - Nifer yr awdurdodau a anfonodd wysion traddodi



Ffynhonnell - data meincnodi anghyhoeddedig awdurdodau lleol

- 5.30 Y nifer fwyaf o wysion traddodi a anfonwyd gan un awdurdod oedd 95 yn 2016-17, sy'n cymharu â 104 yn 2013-14; mae hyn i gyfrif am bron i draean o'r holl wysion traddodi. Mae Tabl 5.4 yn dangos sut mae'r modd y mae awdurdodau'n gweithredu wedi newid dros amser. Ni aeth pum awdurdod ar drywydd unrhyw wysion traddodi yn 2013-14 nac yn 2016-17, dechreuodd pump ohonynt fynd ar drywydd gwysion traddodi, peidiodd un â gwneud hynny, a pharhaodd y gweddill i anfon gwysion traddodi. Mae'n dangos nad oes tuedd bendant, ac mae penderfyniad awdurdod i fynd ar drywydd gwysion traddodi neu beidio yn amrywio ar draws Cymru a thros gyfnodau o amser.

Tabl 5.4 - Newid yn nifer yr awdurdodau sy'n mynd ar drywydd gwysion traddodi dros amser

Gwysion traddodi	Nifer yr awdurdodau
Wedi dechrau	5
Wedi rhoi'r gorau	1
Mwy	2
Llai	8
Dim Newid (dim gwysion)	5
Cyfanswm	21

Ffynhonnell - data meincnodi anghyhoeddedig awdurdodau lleol

- 5.31 Dengys data nad oes perthynas glir rhwng nifer y gwysion a anfonir a'r gyfradd gasglu. Fodd bynnag, fel y trafodwyd ym mhennod y canfyddiadau, ystyrir y bygythiad o draddodi yn arf werthfawr i awdurdodau, p'un a ydynt yn cychwyn gweithdrefn draddodi ai peidio.
- 5.32 O'r 326 o wysion traddodi a anfonwyd, rhoddwyd dedfryd ohiriedig i ychydig o dan hanner ohonynt (159, 49 y cant) a gorfodwyd dedfryd ar 20 (6 y cant)²³. Deuai bron i ddeuparth yr achosion lle gorfodwyd dedfryd o un awdurdod. Cafwyd cynnydd yn nifer y dedfrydau o 2013-14, lle rhoddwyd dedfryd ohiriedig i 104 o 484 (21 y cant) a dedfryd i 17 (3.5 y cant). O'r data, nid oes modd canfod ai proses well i ddethol achosion traddodi, neu wahaniaethau yn nulliau'r llysoedd Ynadon sydd wrth wraidd hyn.

Gorchmynion Arwystlo


- 5.33 Fel yr adlewyrchir yn y cyfweiliadau â'r awdurdodau, roedd y defnydd o orchmynion tâl yn llai cyffredin na'r defnydd o draddodebau, ac roedd y defnydd hwnnw wedi gostwng yn

²³Byddai'r gweddill wedi derbyn un o'r penderfyniadau canlynol; Gorchymyn llys gyda dedfryd ohiriedig, Dileu'r ddyled i gyd, neu gyfran ohoni, Dim gweithredu, Gohirio'r mater. Nid oes gwybodaeth ar gael am y niferoedd a dderbyniodd y penderfyniadau hyn.

sylweddol o 431 yn 2013-14 i 178 yn 2016-17. Mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn yn tarddu o un awdurdod a anfonodd 240 o orchmynion tâl yn 2013-14, ond 21 yn unig yn 2016-17.

- 5.34 Yn 2016-17, ni anfonodd wyth awdurdod unrhyw orchmynion tâl, anfonodd saith ohonynt ddeg neu lai, ac anfonodd chwe awdurdod fwy na deg (gweler Siart 5.7).

Siart 5.7 - Nifer yr awdurdodau a gyhoeddodd orchmynion arwystlo



Ffynhonnell - data meincnodi anghyhoeddiedig awdurdodau lleol 2013/14

Methdaliadau

- 5.35 Roedd y defnydd o fethdaliad yn llai cyffredin hefyd, gydag ond dau awdurdod yn sicrhau unrhyw fethdaliadau (o gymharu â thri awdurdod yn 2013-14); cyfanswm y methdaliadau a weithredwyd oedd 4 (o gymharu â 28 yn 2013-14). Roedd cyfweiliadau ag awdurdodau hefyd yn adlewyrchu pa mor anghyffredin oedd y defnydd o fudd-daliadau.

Crynodeb

- 5.36 Mae'r data a gyflwynir yn y bennod hon yn dangos bod cyfraddau casglu yn ystod y flwyddyn yn uchel ar draws yr awdurdodau lleol. Cyfradd casglu gyfartalog Cymru yn ystod y flwyddyn yw 97.4 y cant, ac mae'r holl awdurdodau o fewn 4 pwynt canran i'r cyfartaledd hwn. Mae'n glir bod rhai ffactorau'n effeithio ar gyfraddau casglu, fel amddifadedd incwm a lefelau'r dreth gyngor, ond heb fwy o ddata, nid oes modd canfod pa newidynnau sy'n cael y

mwyaf o effaith o'u *hystyried ochr yn ochr â newidynnau eraill*, na chanfod beth yw'r newidynnau hynny hyd yn oed.

- 5.37 Mae'r data yn tynnu sylw at y gwahanol ddulliau casglu a ddefnyddir gan yr awdurdodau. Gellir defnyddio data'r cyfweiliadau i esbonio'r gwahaniaethau'n rhannol, gyda rhai awdurdodau'n rhoi mwy o bwyslais ar brosesau gweinyddu a chasglu'r pen blaen, tra bo eraill yn pwysleisio'r angen i fuddsoddi eu hadnoddau mewn prosesau casglu ôl-ddyledion.
- 5.38 Mae'r data'n dangos rhywfaint o amrywio mewn arferion adennill ôl-ddyledion o'u hystyried yn erbyn nifer yr anheddau trethadwy, ond gellir gweld gwahaniaethau cliriach o'u hystyried fel cyfran o'r gorchmynion dyled. Mae hyn yn awgrymu sawl peth. Yn gyntaf, bod cyfraddau llwyddo awdurdodau yn amrywio o ran yr wybodaeth a ddychwelir yn dilyn gorchymyn dyled. Mae hyn i raddau helaeth yn esbonio sut mae rhai awdurdodau yn sicrhau cyfraddau uwch o atafaelebau nag eraill. Gan fod atafaelebau'n ael eu hystyried yn ddulliau effeithiol ac effeithlon o adennill dyledion, ac nad yw hynny'n achosi ffioedd gorfodi ychwanegol (yn dilyn ffi gychwynnol y gorchymyn dyled), ymddengys y byddai'n ddefnyddiol casglu data ychwanegol ar gyfraddau dychwelyd gwybodaeth gan unigolion sydd wedi mynd i ddyled, ac archwilio a oes rhesymau pam y gallai rhai awdurdodau fod yn fwy llwyddiannus yn hyn o beth.
- 5.39 Yn ail, gallai trosiant y boblogaeth fod yn uwch mewn rhai awdurdodau; mewn marchnad swyddi newidiol, mae pobl yn fwy tebygol o symud i mewn ac allan o gyflogaeth, gan achosi i atafaelebau fethu, neu olygu bod angen sawl atafaeleb, ar ôl un gorchymyn dyled. Un o'r pryderon a godwyd yn y cyfweiliadau oedd natur gyfnewidiol y gwaith a chyflogau isel, ynghyd â gallu'r system gasglu a'r system les i brosesu newidiadau'n ddigon cyflym.
- 5.40 Ceir gwahaniaethau clir hefyd rhwng arferion ar draws awdurdodau o ran y defnydd o asiantau gorfodi. At ei gilydd, mae'r defnydd o asiantau gorfodi wedi gostwng, ond mae sawl awdurdod yn anfon rhai achosion at asiantau gorfodi fwy nag unwaith. Mae'n bosibl mai trosiant y farchnad lafur sydd wrth wraidd hyn (pobl yn symud i mewn ac allan o swyddi o fewn yr un awdurdod), neu ailgylchu dyledion (lle anfonir yr achos i gwmni arall gan nad yw'r cwmni cyntaf wedi llwyddo) a allai fod yn fwy o destun pryder gan y byddai hynny'n achosi ffioedd lluosog am un achos.
- 5.41 Mae nifer y traddodebau, y methdaliadau a'r gorchmynion dyled oll wedi gostwng. Fodd bynnag mae mwy o awdurdodau bellach yn defnyddio traddodebau. O ddehongli ochr yn

ochr â'r data cyfweliadau, mae'n bosib mai'r rheswm am hyn yw bod rhai awdurdodau bellach wedi cymryd pob cam arall posib mewn ambell achos dethol, lle nodwyd bod sail ar gyfer hynny oherwydd gwrthodiad bwriadol neu esgeulustod beius. Fodd bynnag, nid yw'r data'n rhoi digon o wybodaeth i'n galluogi i ymchwilio i effeithiolrwydd pob dull.

6. Adolygiad o wefannau

- 6.1 Yn sgil yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfweiliadau, cynhaliwyd adolygiad o wefannau'r awdurdodau er mwyn canfod a oedd gwybodaeth yn hygyrch ac ar gael yn rhwydd. Dywedodd yr awdurdodau fod gwybodaeth am brosesau ar gael i'r cyhoedd ar-lein, a dywedent yn aml fod eu gwefannau'n cyfeirio defnyddwyr i asiantaethau cynghori.
- 6.2 Buom yn adolygu'r gwefannau mewn sawl maes allweddol:
- Cynllun - a oedd yn hawdd symud o amgylch y wefan, ac a oedd adrannau allweddol yn hawdd eu canfod.
 - Cyfeirio at gyngor - a oedd y wefan yn cyfeirio pobl at gyngor, ac a oedd penawdau clir ar gyfer hynny (ee, 'os oes angen cymorth arnoch', 'os ydych yn cael anhawster', 'os yw talu'n anodd')
 - Gwybodaeth ynghylch sut i ostwng eich bil - a oedd y wefan yn rhoi gwybodaeth am fudd-daliadau, gostyngiadau ac esemptiadau, manylion cyswllt
 - Gwybodaeth am wariant - sut y defnyddir y dreth gyngor, ac ar ba wasanaethau
 - Beth fydd yn digwydd os nad ydych yn talu -a yw'r wybodaeth wedi'i harddangos yn glir ynghyd â'r goblygiadau ee, costau ychwanegol ym mhob cam

Cynllun

- 6.3 O'r 22 o awdurdodau, barnwyd bod 8 o wefannau'n wael, 7 yn weddol a 7 yn dda.
- 6.4 Beth yw nodweddion gwefan dda? Ar ôl adolygu pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, penderfynwyd y gellid gwella gwefannau drwy fabwysiadu'r prif bwyntiau a ganlyn:
- Dylai'r cynllun fod yn glir a dylai fod yn hawdd symud o'r naill le i'r llall, gydag adrannau eglur a dolenni gwe cyfredol.
 - Dylid rhoi sylw i fformatau hygyrch - gan gynnwys print bras, clipiau sain, tudalennau cyfeillgar sy'n cynnwys nodweddion technoleg clyfar a lawrlwythiadau, a'r defnydd o ffeithluniau lle bo'n ymarferol.
 - Dylai'r cynnwys roi'r prif sylw i'r cwsmer, ee, penawdau adrannau sy'n gwneud synnwyr o safbwynt y cwsmer, sydd mewn trefn resymegol ac sy'n rhoi esboniad o bob adran. Dylid rhoi sylw hefyd i hygyrchedd ieithyddol.
 - Mae adran 'Prif Dasgau' yn ei gwneud hi'n haws symud o amgylch y wefan ac yn ei gwneud yn haws i'w defnyddio.

- Gallai adran cwestiynau cyffredin hefyd fod yn ddefnyddiol.

Cyfeirio at gyngor

- 6.5 Roedd nifer yr awdurdodau a gyfeiriai pobl at asiantaethau cynghori, a'r modd yr oeddent yn dewis gwneud hynny, yn amrywio. Nid oedd cyfanswm o ddeg awdurdod yn cyfeirio pobl at wasanaethau cynghori allanol. Mae hyn syndod ac ystyried bod y cyfweleion wedi mynegi bwriad clir i wneud hynny. Roedd dau awdurdod yn cyfeirio pobl at adrannau'r llywodraeth, ond nid oeddent yn eu cyfeirio at asiantaethau cynghori. Dim ond cyfeirio pobl at Cyngor ar Bopeth y mae dau awdurdod, ond nid yw un o'r cyfeiriadau hyn yn rhoi unrhyw esboniad o bwrpas y ddolen gyswllt na phwy a allai elwa arni. Mae wyth awdurdod yn cyfeirio pobl at amrywiaeth o asiantaethau cynghori.
- 6.6 Beth yw nodweddion gwefan dda? Byddai defnyddwyr ar eu hennill o gyflwyno'r newidiadau canlynol i'r gwefannau:
- Dylai'r adran gymorth fod yn amlwg â phennawd clir arni. Dylai ddefnyddio ieithwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, fel 'Rwy'n ei chael hi'n anodd talu', yn lle ieithwedd sydd yn canolbwyntio ar swyddogaethau'r awdurdod, fel 'gweithredu i adennill dyledion'.
 - I gyd-fynd â'r adran, dylid cael naratif neu esboniad sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn deall pa opsiynau sydd ar gael iddynt.
 - Mae gwybodaeth ychwanegol a ddarperir i Hawlwyr Newydd ac yn gysylltiedig â Diwygio Lles yn ddefnyddiol.

Gwybodaeth am sut i leihau eich bil

- 6.7 Dangosai canfyddiadau o'r cyfweiliadau fod awdurdodau'n anelu i helpu unigolion i leihau eu treth gyngor a hawlio cymaint o fudd-dal ag a oedd yn bosibl. Rhoddwyd enghreifftiau o gysylltiadau â'u hadrannau budd-dal ac o gynghori unigolion ar esemptiadau. Fodd bynnag, er gwaethaf y gweithgarwch hwn nid yw cynnwys y gwefannau'n adlewyrchu'r lefelau hyn o gyngor ar ôl cysylltiad personol. Roedd y rhan fwyaf o wefannau'n darparu gwybodaeth am esemptiadau a disgowntiau, ond nid oedd rhyw lawer yn cysylltu hynny â gwybodaeth am fudd-daliadau a chaledi.
- 6.8 Beth yw nodweddion gwefan dda?

- Er bod budd-daliadau yn aml yn cael eu trafod gan wahanol adrannau o'r awdurdod, o safbwynt y cwsmer byddai'n gwneud synnwyr cynnwys yr holl wybodaeth a allai leihau'r swm o dreth gyngor sydd i'w dalu, neu eu helpu i dalu.
- Gan hynny, dylai gwefannau gynnwys un adran sy'n trafod sut i leihau'r dreth gyngor, neu gymorth i dalu, gan gynnwys budd-daliadau, disgowntiau ac esemptiadau.
- Dylai manylion cyswllt yr awdurdod fod yn glir ac mewn lle amlwg fel bod defnyddwyr yn deall sut y gallant gael mwy o wybodaeth a chymorth.

Gwybodaeth am wariant y dreth gyngor

- 6.9 Yn y cyfweiliadau, crybwyllwyd yn aml yr angen i addysgu unigolion ynghylch y ffaith bod y dreth gyngor yn ddyled â blaenoriaeth, ac ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod drwy ddefnyddio'r dreth gyngor. Nododd nifer o awdurdodau eu bod wedi gostwng yr wybodaeth a anfonir gyda biliau gan fod cyfle bellach i ddarparu'r wybodaeth honno ar wefannau. Fodd bynnag, roedd darpariaeth yr wybodaeth ar-lilin yn amrywio'n helaeth.
- 6.10 Nid oedd gan bum awdurdod unrhyw wybodaeth am wariant wedi'i chysylltu â'u tudalennau am y dreth gyngor. Darparai dau ohonynt wybodaeth rannol (er enghraifft, heb esbonio beth yw'r dreth gyngor, neu gan hepgor gwybodaeth am gyllidebau). Roedd naw yn cynnwys gwybodaeth ar ffurf dogfen PDF, a chwech yn darparu gwybodaeth ar y tudalennau gwe eu hunain.
- 6.11 Beth yw nodweddion gwefan dda? O ystyried y gwerth a roddwyd ar addysg yn y cyfweiliadau fel ffordd o gynyddu taliadau, byddai'n rhesymegol defnyddio gwefannau'r awdurdod er mwyn helpu i gyflawni'r amcan hwn, heb ryw lawer o gostau nac ymdrech. Fel isafswm dylai gwefannau:
- Ddarparu gwybodaeth sylfaenol am yr hyn y mae'r dreth gyngor yn talu amdano ar ffurf hygrych a hawdd ei darllen. Gallai awdurdodau archwilio sut y gellid cael cwsmeriaid i berthnasu â hyn, er enghraifft, yn hytrach na darparu cyfanswm y cyllidebau a'r gwariant, gallai fod yn ddefnyddiol cael ffeithluniau neu gyfrifiannell yn dangos cyfraniadau unigol. Gall y maes hwn fod yn gymhleth, ac i gydnabod hynny dylai awdurdodau gynnwys dolenni i wybodaeth bellach i rai sydd am adnabod mwy.

Dylid ystyried y fformat a ddefnyddir ar gyfer hyn o ystyried y defnydd eang o dechnoleg ffonau clyfar.

- Darparu gwybodaeth am y ffaith bod y dreth gyngor yn ddyled â blaenoriaeth, ac ystyr hynny.
- Darparu gwybodaeth am hawliau dinasyddion a lefelau'r gwasanaeth cwsmeriaid y gellir eu disgwyl. Efallai y bydd awdurdodau am ystyried gweithredu siarteri cwsmeriaid.²⁴

Beth sy'n digwydd os nad ydych yn talu?

- 6.12 Mae'r agwedd hon yn hanfodol. Mae'n ddigon posib mai edrych ar wefannau y bydd pobl yn ei wneud yn gyntaf wrth geisio deall y dreth gyngor. Mae'n rhoi cyfle perffaith i ddarparu gwybodaeth berthnasol mewn modd sy'n annog unigolion i gysylltu â'r awdurdod wyneb yn wyneb, os oes angen. I'r rhai sy'n profi anhawster am y tro cyntaf, mae'r system yn debygol o fod yn amhosib ei deall; mae gan wefannau ran amlwg i'w chwarae er mwyn lleihau'r cymhlethdod ac ysgogi unigolion i weithredu.
- 6.13 Nid oedd naw awdurdod yn darparu unrhyw wybodaeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd os nad ydych yn talu'r dreth gyngor. Darparai dau ohonynt rywfaint o wybodaeth, ond dim ond gwybodaeth rannol oedd honno (heb sôn am y goblygiadau o ran costau neu heb fod yn ddigon manwl) Darparai dau fanylion, ond nid oedd y manylion hynny mewn lle amlwg, a darparai naw wybodaeth dda.
- 6.14 Beth yw nodweddion gwefan dda? Er mwyn helpu i fod yn fwy eglur a chynyddu dealltwriaeth, dylai gwefannau:
- Gynnwys pennawd clir y bydd defnyddwyr yn ei ddeall yn rhwydd, fel 'beth sy'n digwydd os nad ydw i'n talu'.
 - Cyflwyno'r broses gam wrth gam, gan ddarparu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd ym mhob cam. Gellid cyflwyno hyn ar ffurf siart lif.
 - Dangos yn glir y costau posibl yn ystod pob cam.
 - Defnyddio ieithwedd gyson, er enghraifft, asiantau gorfodi yn lle beili.

²⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/your-charter/your-charter>

- Cynnwys dolenni i ddogfennau allweddol (os ydynt ar gael), fel Cod Ymarfer y Cyngor, Polisi Adennill, Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid a dogfennau eraill sy'n effeithio ar gwsmeriaid. Dylid cyflwyno'r rhain ar ffurf ac mewn arddull sydd yn gyfeillgar â'r cwsmer.

Crynodeb

- 6.15 Dengys canfyddiadau'r cyfweiliadau fod awdurdodau gweithio ar lefel bersonol i ymgysylltu ag unigolion, rhoi cymorth a chyfeirio pobl i dderbyn cyngor ym mhob sefyllfa bosib. Fodd bynnag, ymddengys nad yw eu gwefannau ar y cyfan yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn nac i gefnogi gweithgarwch yr awdurdodau'n llawn. O adolygu'r gwefannau, gwelwyd bod llawer o le i wella ym mhob awdurdod; ni welwyd bod yr un awdurdod wedi llwyddo ym mhob un o'r pum maes y buom yn canolbwyntio arnynt.

7. Casgliadau

- 7.1 Yn yr adran hon ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r cyfweiliadau dros y ffôn a gynhaliwyd ag awdurdodau lleol, wedi'i gyfosod â thystiolaeth a gasglwyd o'r adolygiad o ddeunydd darllen presennol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn. Er nad yw'n systematig, mae'r adolygiad o dystiolaeth yn cynrychioli safbwynt cyffredinol gwasanaetha cynghori ar ddyledion ac arian y Trydydd Sector. Ychwanegwyd data meincnodi'r awdurdodau lleol eu hunain at y sylfaen dystiolaeth, ynghyd â safbwyntiau ansoddol staff refeniw a budd-daliadau sy'n gweithio o fewn awdurdodau lleol.
- 7.2 Amlygai'r adolygiad o ddeunydd darllen sawl maes a oedd yn destun pryder i asiantaethau cynghori ar ddyledion. Ceir ymgais yn y casgliadau hyn i ystyried safbwyntiau'r sector cynghori, ac i awgrymu meysydd lle gallai synergedd fodoli rhwng y canfyddiadau a'r cyfleoedd am ymchwil bellach.
- 7.3 **I ddechrau, yr oedd cydnabyddiaeth gyffredin fod proffil a pherfformiad yr economi leol yn effeithio ar allu unigolion i dalu ac, sgil hynny, ar allu awdurdodau lleol i gasglu'r dreth gyngor.** Mae hyn yn cyd-fynd 'r dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil a gynhaliwyd gan y sector cynghori, sy'n cyfeirio at effaith ffactorau economaidd lleol ar allu eu buddiolwyr i dalu. Yn gyson, nododd awdurdodau effaith amddifadedd ar allu unigolion i fodloni eu hymrwymadau. Yr oedd teimlad bod marchnad lafur newidiol, a oedd yn aml yn cynnwys gwaith heb sicrwydd o natur afreolaidd neu ar gyflog isel, incymau sy'n gostwng a siociau ariannol oll yn effeithio ar allu unigolion i dalu a gallu awdurdodau i gasglu yn ystod y flwyddyn. Roedd awdurdodau wedi gweithredu sawl mesur i gefnogi unigolion sy'n profi anawsterau. Roedd y rhain yn cynnwys cynnig trefniadau talu hyblyg, debyd uniongyrchol wythnosol, amryw o ddyddiadau ar gyfer debyd uniongyrchol a, mewn un awdurdod, defnyddio asiantau gorfodi i lleol i gynnig cyngor wedi'i gynllunio'n arbennig i rai sydd wedi colli eu swyddi yn dilyn cau diwydiant lleol.
- 7.4 **Bydd awdurdodau'n wynebu heriau cyson wrth ymgysylltu ag unigolion a'u hannog i ymdrin ag ôl-ddyledion ar y cyfle cyntaf.** Mae awdurdodau'n rhannu rhwystredigaeth a nodwyd gan asiantaethau cynghori ar ddyledion, sef nad yw unigolion yn tueddu i ymdrin â dyledion problemus nes bo'r sefyllfa wedi troi'n argyfwng. Soniai awdurdodau'n aml am brinder adnoddau, a dywedent y gellid bod wedi atal costau a straen diangen, a chynnydd mewn dyledion pe bai unigolion wedi cysylltu â'r awdurdod ynghynt. Adroddodd

awdurdodau eu bod yn prosesu nifer fawr o gyfrifon gydag adnoddau prin, a chan hynny, nad oeddent yn gallu nodi a chysylltu ag unigolion mewn modd rhagweithiol wrth iddynt ddechrau profi anawsterau. Pwysleisiodd yr awdurdodau ei bod hi bob amser yn well adnabod problemau'n gynnar a chymryd camau ataliol yn lle camau gorfodi, ond roeddent i raddau helaeth yn dibynnu ar unigolion i gysylltu â hwy i drafod eu sefyllfa.

7.5 Adroddodd yr awdurdodau nad oeddent ond wedi cyflwyno achosion dyled i asiantau gorfodi ar ôl mynd heibio trothwyon isafswm penodol, a phan nad oedd modd gweithredu mesurau eraill oherwydd diffyg gwybodaeth am gyfrifon. Ymddengys fod hyn yn anghyson â'r pryder a godwyd gan y sector cynghori fod mân ddyledion yn cael eu hanfon i asiantaethau gorfodi, lle byddai casglu yn esgor ar ffioedd. Dywedodd yr holl awdurdodau fod ganddynt drothwyon isafswm ar gyfer dyledion, ac na fyddai dyled o dan y trothwyon hynny'n cael ei hanfon i asiantaeth orfodi. Teimlai awdurdodau y dylid cyfyngu ar y defnydd o asiantau gorfodi a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd dethol, gan nad oedd hi'n fuddiol i'r unigolyn na'r awdurdod ysgwyddo costau adennill ychwanegol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau hefyd fod ganddynt ryw fath o weithdrefn hidlo ar waith er mwyn canfod cyfrifon a allai fod yn anaddas i'w cyfeirio i sylw asiantau gorfodi. Siaradodd yr awdurdodau'n gadarnhaol ynghylch eu perthynas ag asiantaethau gorfodi, ac roeddent yn teimlo bod Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd) (2014) wedi arwain at welliannau, gan gynnwys creu proses fwy cyson a thryloyw. Roedd llawer o awdurdodau'n croesawu cyflwyno camerâu i asiantau gorfodi eu gwisgo, ac ystyriwyd hefyd bod hynny wedi cyfrannu at leihau nifer y cwynion a gefnogir.

7.6 Roedd dull awdurdodau o ymdrin ag ailberchnogi dyledion y dreth gyngor yn amrywio. Mae tystiolaeth o'r sector cynghori'n awgrymu y gallai rhai awdurdodau fod yn amharod i ailberchnogi dyledion ar gais cynghorydd dyledion. Roedd rhai awdurdodau wedi datblygu a dilyn polisïau mewnol neu lawlyfrau gweithredu ar reoli dyledion, os oeddent yn parhau i fod yn gyfrifol am adennill dyledion. Fodd bynnag, yr oedd y trefniadau ar gyfer ailberchnogi dyledion yn amrywio yn dibynnu ar y cytundeb yr oedd yr awdurdod wedi'i sefydlu â'i asiantaethau gorfodi. Dywedodd rhai awdurdodau y byddent yn ceisio ailberchnogi dyledion, llai unrhyw ffioedd gorfodi, o ganfod bod unigolion yn fregus. Disgrifiai eraill drefniadau llai hyblyg gyda'u hasiantaethau gorfodi, lle gellid bod angen talu ffi wrth wneud cais i ailberchnogi dyled, neu lle gallai'r ymateb i hynny fod yn anodd. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu, os oes costau ychwanegol i'r cyngor yn sgil ailberchnogi, fod

hynny'n dylanwadu ar y penderfyniad i ailberchnogi'r ddyled ai peidio. Mewn nifer fach o achosion, ystyriai awdurdodau ffactorau eraill wrth benderfynu ailberchnogi dyled neu beidio, sef hanes cyfrif yr unigolyn a'i hanes o ryddhad rhag dyled, neu gytundeb gan yr unigolyn i sefydlu a chynnal debyd uniongyrchol.

- 7.7 **Prin oedd y prosesau a'r mecanweithiau o fewn awdurdodau er mwyn adennill dyled a ddychwelwyd gan asiantaethau gorfodi.** Am eu bod yn gyndyn o ddileu dyledion, mynegodd awdurdodau eu bod yn aml yn methu canfod mwy o wybodaeth am unigolion neu dulliau adennill a fyddai'n cynnig dewis arall posib yn lle cymryd camau gorfodi fel dewis olaf. O ganlyniad i hyn, adroddodd rhai awdurdodau eu bod wedi ailgyflwyno dyled i asiantau gorfodi eraill, neu ei chyflwyno eilwaith i'r un asiant gorfodi. Dywedodd eraill eu bod yn defnyddio dulliau eraill, fel sianelau cyfryngau cymdeithasol neu ymchwiliadau preifat er mwyn canfod gwybodaeth am unigolion a allai olygu bod modd iddynt ddefnyddio dulliau eraill o gasglu'r ddyled, neu gyfiawnhau'r angen i weithredu camau gorfodi fel dewis olaf.
- 7.8 **Roedd pob awdurdod yn ystyried bregusrwydd unigolion, ac yn ymdrechu rhywfaint i adnabod unigolion â nodweddion bregus. Yr oedd y graddau yr oedd awdurdodau yn ymdrechu i adnabod unigolion bregus mewn modd rhagweithiol, a'r adeg y byddai hynny'n digwydd yn y broses adennill, yn amrywio.** Yn yr un modd, adroddodd y aelodau o'r sector cyngori fod llwyddiant awdurdodau wrth adnabod unigolion bregus cyn cymryd camau gorfodi yn amrywio yn eu tyb hwy. Cydnabu'r awdurdodau eu bod yn aml yn methu adnabod unigolion bregus cyn gwneud cais am orchymyn dyled, a hynny gan fod cynifer o gyfrifon i'w cael ac oherwydd dibyniaeth yr awdurdodau ar brosesau awtomataidd i reoli'r niferoedd mawr hyn. Ar ôl derbyn gorchymyn dyled, fodd bynnag, disgrifiodd yr holl awdurdodau pa gamau ymarferol y maent yn eu cymryd i wirio bregusrwydd unigolion. Nododd awdurdodau fod yn rhaid iddynt atgyfeirio achosion i asiant gorfodi oherwydd diffyg gwybodaeth am hanes cyfrifon a chudd-wybodaeth arall. Roedd yr asiant gorfodi yn aml yn ffynhonnell o wybodaeth gyfoethog a oedd wedi'u galluogi i adnabod unigolion bregus a chysylltu â hwy.
- 7.9 **Adroddodd awdurdodau eu bod wedi cymryd camau i adnabod dangosyddion bregusrwydd neu unigolion â nodweddion bregus.** Roedd ymchwil a gynhaliwyd gan y sector cyngori yn awgrymu bod effeithiolrwydd awdurdodau wrth adnabod a chefnogi

unigolion bregus yn amrywio, ac argymhellai y dylai awdurdodau ddatblygu polisi bregusrwydd er mwyn gwella cysondeb. Roedd mwyafrif yr awdurdodau wedi peidio datblygu polisi bregusrwydd neu fabwysiadu dull arall rhagnodedig. Yn lle hynny, aethant ati i ddisgrifio'r sgysiau yr oeddent wedi'u cael ag unigolion, asiantaethau cynghori ac asiantaethau gorfodi er mwyn ystyried yr hyn sy'n arwydd o fregusrwydd y mhob achos, ac effaith hynny ar allu unigolion i dalu yn y tymor byr a'r tymor hir. Roedd dulliau awdurdodau o adnabod bregusrwydd wedi'u dylunio i fod yn hyblyg, fel bo modd rhoi'r sylw pennaf i farn a doethineb o fewn maes cymhleth. Dywedodd yr awdurdodau hefyd eu bod wedi elwa ar hyfforddiant ar fregusrwydd a ddarparwyd gan amrywiaeth o asiantaethau cynghori ar ddyledion, cyrff o'r Trydydd Sector a chyrff proffesiynol, yn ogystal â rhai asiantaethau gorfodi.

7.10 Dywedodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau eu bod yn cyfeirio'r rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd talu eu treth gyngor at wasanaethau cynghori ar ddyledion a rheoli arian.

Mae tystiolaeth o'r sector cynghori yn awgrymu y gall yr wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan awdurdodau fod yn brin. **Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth o anghysondeb ar draws awdurdodau lleol wrth ddarparu gwybodaeth a chyfeirio, yn enwedig ar-lein.**

Disgrifiodd awdurdodau y camau y maent yn eu cymryd i ddarparu gwybodaeth gyfeirio i unigolion. Wrth adolygu cynnwys ar-lein awdurdodau, fodd bynnag, roedd yr wybodaeth ar gyfer cyfeirio pobl i asiantaethau cynghori ar ddyledion yn am yn annigonol neu'n aneglur.

7.11 Pwysleisiai rhai awdurdodau pa mor bwysig oedd ymdrechu'n benodol i gasglu proffil a gwybodaeth gyswllt gyfredol gan unigolion, er mwyn sicrhau bod y biliau a gyhoeddir yn flynyddol yn gywir, ac er mwyn prosesu disgowntiau ac esemptiadau yn y modd cywir. Roedd nifer llai o awdurdodau hefyd yn annog unigolion i ddiweddarau a rheoli eu cyfrif ar-lein. Disgrifiai awdurdodau eraill y pwysau ar adnoddau wrth reoli swmp y ffurflenni papur oedd yn dod i mewn ar adegau penodol yn y cylch adennill, ac i rai roedd hyn yn golygu eu bod yn anfon gohebiaeth allan yn llai aml.

7.12 Mae pob awdurdod yn cynnig opsiynau talu hyblyg a lluosog, a phob awdurdod hefyd yn cynnig trefniadau ad-dalu hyblyg os yw unigolyn wedi cysylltu â'r awdurdod, neu os oes ganddo hanes da o gyflawni ymrwymadau blaenorol. Debyd uniongyrchol yw'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithio o dalu, ac mae'r holl awdurdodau'n

annog hynny. Dylid nodi na aethpwyd ati yn y gwaith ymchwil hwn i ymdrin â phryder a godwyd yn y deunydd darllen presennol, sef nad yw asiantaethau gorfodi yn ymdrechu'n ddigonol i gytuno ar drefniadau ad-dalu fforddiadwy a chymesur.

- 7.13 **Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau'n teimlo y byddai'n fuddiol gallu gweithredu proses atafaelu enillion neu fudd-daliadau, cyn gwneud cais am orchymyn dyled. Y teimlad oedd y byddai'r gallu hwn, pe bai'r unigolyn yn gwneud cais amdano o'i wirfodd, yn fodd i osgoi costau diangen i'r unigolyn a'r awdurdod, yn lleihau'r swmp o orchmynion dyled i'w prosesu ac yn sicrhau bod dyled yn cael ei chasglu yn y modd mwyaf effeithlon.** Yn dilyn y gorchymyn dyled, mae'r holl awdurdodau'n ceisio trefnu i atafaelu enillion neu fudd-daliadau cyn mynd ar drywydd unrhyw ddulliau eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar dderbyn gwybodaeth am gyflogaeth a budd-daliadau yn ôl gan unigolion; adroddodd awdurdodau fod cyfraddau dychwelyd yr wybodaeth hon yn amrywio, a bod cyfraddau dychwelyd isel yn aml yn golygu nad oedd yr opsiwn hwn yn ddichonadwy.
- 7.14 **P'un a yw awdurdodau'n defnyddio traddodebau ar hyn o bryd ai peidio, roedd yr holl awdurdodau'n gwerthfawrogi eu gallu i ddefnyddio hynny fel bygythiad pan oedd angen, gyda'r bwriad o sbarduno cyswllt a thrafodaethau ag unigolion a oedd yn gwrthod talu neu ymgysylltu. Roedd yr awdurdodau hynny a ddefnyddiai draddodebau yn pwysleisio pa mor bwysig oedd mabwysiadu dull detholus o adnabod a chymeradwyo lleiafrif o achosion, a chanfod tystiolaeth ar eu cyfer.** Roedd y rhai a ddewisai beidio mynd ar drywydd traddodeb naill ai'n troi at gamau gorfodi eraill fel cynnig olaf os oedd y symiau'n fach, neu'n parhau i weithio ar hen achosion. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt ryw lawer o ddewis yn y tymor hir ond dileu'r ddyled.
- 7.15 **Yn ôl yr Awdurdodau, ychydig iawn o achosion traddodi a gyrhaeddai'r llys, ac roedd barn yr Awdurdodau yn gymysg ynghylch effeithiolrwydd hynny.** Cefnogir hyn gan y data meincnodi. Disgrifiai rhai awdurdodau amgylchiadau lle'r oedd unigolion, yn ystod y gwrandawriad yn y llys, wedi cynnig talu'r ddyled yn llawn gan olygu bod symiau sylweddol o arian yn cael eu hadennill. Disgrifiai awdurdodau eraill wrandawiadau llys a arweiniodd at

drefniadau ad-dalu nad oeddent yn ddigonol i ad-dalu'r ddyled, neu weithrediadau traddodi lle cafwyd nad oedd modd adennill y ddyled, ac mai'r unig ddewis oedd ei dileu.

8. Argymhellion

8.1

Mae'r argymhellion hyn yn seiliedig ar safbwyntiau'r Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau o awdurdodau lleol. Gan hynny, fe'u lluniwyd ar sail y dystiolaeth a gafwyd gan un grŵp o randdeiliaid yn unig. Er gwaethaf ymdrechion i ddefnyddio canfyddiadau o waith ymchwil arall perthnasol (ee, y gwaith ymchwil a gyflawnwyd gan y sector cynghori), cwmpas y astudiaeth hon oed llenwi bwlch neilltuol yn y sylfaen o dystiolaeth ynghylch arferion awdurdodau lleol. Ni cheisiwyd cynnwys safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol eraill fel dinasyddion a chanddynt brofiad o orfodaeth dyledion awdurdod lleol, asiantaethau cynghori ar ddyledion neu asiantaethau gorfodi. Gellid dadlau bod safbwyntiau a phrofiadau'r rhanddeiliaid hyn wedi'u cynrychioli'n gymharol dda ymhlith y dystiolaeth a geir eisoes.

Wrth ystyried yr argymhellion, mae'n bwysig cofio bod cwmpas y gwaith ymchwil hwn yn gyfyngedig, ac mai golwg unochrog ydyw o'r materion dan sylw. .

Awdurdodau Lleol

1. Dylai awdurdodau lleol gael polisi cytunedig ar gyfer casglu a rheoli ôl-ddyledion sy'n amlinellu'r safonau gofynnol y byddai disgwyl i awdurdodau eu bodloni wrth gasglu ac adennill y dreth gyngor. Dylai hyn gynnwys disgwyliadau ynghylch y modd y mae awdurdodau'n gweithio gyda'r sector cyngor am ddim, asiantau gorfodi allanol a thrydydd partïon eraill.

2. Dylai awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth a chanllawiau ar rannu a dal data, a sefydlu dull cytunedig a chyson sy'n cydymffurfio â rheoliadau. Yr oedd dulliau lleol awdurdodau o ymdrin â rhannu a dal data yn amrywio'n helaeth. Y gwahaniaethau hyn oedd i gyfrif am amrywiaeth o wahanol arferion a oedd gan gynghorau er mwyn rhannu data ar draws adrannau, a'r gwahanol ffyrdd o weithio gydag asiantaethau cynghori ar ddyledion. Byddai canllaw i awdurdodau yn cynghori ynghylch yr hyn a ganiateir a'r hyn sy'n ddichonadwy, ac ynghylch sut y bydd cyflwyno'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn effeithio ar eu harferion.

3. Dylai gwybodaeth a chyngor cyfeirio fod yn eglur, a dylid darparu'r wybodaeth honno mewn modd hygyrch a chyson ar draws yr holl sianelau cyfathrebu. Dylid adolygu cynnwys y we yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Yn rhan o hyn, dylid dangos yn glir beth yw diben casglu'r dreth gyngor a'r broses ar gyfer gwneud hynny, gwybodaeth am y modd y mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario, yr hyn sy'n digwydd os bydd unigolion yn mynd i ddyled a'r costau cysylltiedig. Dylai cynnwys y wefan hefyd fod yn addas i'r cwsmer, gan ofalu bod yr ieithwedd, y ffordd o fynd o amgylch y wefan a'r dogfennau ategol yn hygyrch ac yn rhesymegol i unigolion.

Fel arfer gorau, argymhellir y dylai awdurdodau gynnwys cyfeiriad clir i asiantaethau cyngor ar ddyledion ar bob hysbysiad atgoffa a gorfodi, ar wefannau ac ar blatfformau eraill ar-lein, a phryd bynnag y bydd unigolyn sy'n ei chael hi'n anodd talu'r dreth gyngor yn cysylltu â hwy.

4. Dylai awdurdodau adolygu eu contractau neu eu Cytundebau Lefel Gwasanaeth ag asiantau gorfodi er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaeth gorau bosib. Yn benodol, dylai awdurdodau adolygu eu trefniadau ar gyfer aillberchnogi dyledion, a'r ffioedd yn gysylltiedig â hynny. Dylai awdurdodau hefyd adolygu arferion asiantaethau gorfodi er mwyn cytuno ar drefniadau ad-dalu fforddiadwy a chymesur ar gyfer y cyfrifon y maent yn gyfrifol amdanynt.

5. Dylai awdurdodau ymchwilio i'r amrywiaeth eang yng nghyfraddau dychwelyd ceisiadau am wybodaeth a gyhoeddir ar ôl sicrhau gorchymyn dyled. Archwilio a yw gwahanol arferion yn effeithio ar gyfraddau dychwelyd, a ellid gwella cyfraddau, ac a fyddai hyn yn amharu ar nifer y gorchmynion dyled a weithredir drwy atafaelu enillion neu fudd-daliadau.

Llywodraeth Cymru

6. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio pa mor ddichonadwy yw hyrwyddo mynediad awdurdodau lleol at ddata cyflogaeth CaThEM fel bo modd gweithredu atafaelebau enillion pan fo'n briodol. Dywedai awdurdodau lleol yn gyson fod angen mynediad gwell a chynharach at wybodaeth er mwyn gweithredu'r dull mwyaf effeithlon o adennill ac atal ffioedd rhag cynyddu o safbwynt yr unigolyn a'r cyngor.

7. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal adolygiad o brosesau Atafaelu Enillion/Atafaelu Budd-daliadau a chasglu a ellir mynd i'r afael ag unrhyw un o'r canlynol:

- Rhoi arweiniad ar weithdrefnau atafaelu enillion cyfredol i roi cyfrif am natur newidiol gwaith (ee, contractau heb sicrwydd, cyflog isel, dim oriau)
- Adolygu trothwyon atafaelu enillion i roi cyfrif am dreuliau unigolion, yn hytrach nag incwm yn unig.
- Archwilio'r posibilrwydd o ganiatáu atafaelu enillion/budd-daliadau cyn gorchymyn dyled, os yw'r dyledwr yn gwneud cais am hynny o'i wirfodd
- Archwilio'r posibilrwydd o atafaelu drwy ddidynnu o amrywiaeth ehangach o fudd-daliadau lles

7. Cyflawni gwaith pellach i archwilio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir yn syth cyn gweithredu dulliau gorfodi fel dewis olaf. Wrth wneud hyn, dylid ystyried a yw unrhyw ddulliau'n llwyddo i leihau'r defnydd o gamau gorfodi fel dewis olaf. Dylai archwilio'r ffyrdd amgen a ddefnyddir gan awdurdodau i gasglu gwybodaeth bellach am unigolion, fel sianelau'r cyfryngau cymdeithasol ac ymchwiliadau preifat, a cheisio cadarnhau pa gamau cyfreithlon y gellir eu cymryd.

8. Egluro'r broses o wneud penderfyniadau yn gysylltiedig â gweithredu camau gorfodi fel dewis olaf. Rhoi arweiniad ar y dulliau y gellid eu defnyddio ac ym mha amgylchiadau. Egluro unrhyw weithdrefnau y dylid cadw atynt ac, os oes modd, trothwyon penderfynu i'w sefydlu cyn bwrw ymlaen ag unrhyw benderfyniad ynghylch gweithredu camau gorfodi fel dewis olaf. Dylai hefyd geisio rhoi arweiniad ynghylch yr amgylchiadau lle gallai fod yn briodol defnyddio'r broses draddodi, methdaliad a gorchmynion codi tâl.

Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol

9. Ar y cyd ag awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu ymgyrch addysg sy'n anelu i wella'r ddealltwriaeth o'r hyn y mae'r dreth gyngor yn talu amdano, a goblygiadau peidio talu'r dreth gyngor. Ystyried a yw'n well cyflawni hyn yn rhan o'r agenda cynhwysiant ariannol neu ar ffurf ymgyrch ar wahân. Cyfeiriodd awdurdodau lleol yn gyson at yr angen i addysgu unigolion ynghylch diben y dreth gyngor, goblygiadau peidio talu'r dreth gyngor a'i statws fel dyled â blaenoriaeth. Gwelai'r holl gynghorau y byddai'n fuddiol addysgu ac ymgysylltu ag unigolion. Roeddent am wneud mwy o hynny, ond nid oedd ganddynt ddigon o adnoddau i wneud hynny'n effeithiol.

10. Ar y cyd ag awdurdodau lleol, dylai awdurdodau lleol gytuno ar ddull o gynyddu'r wybodaeth a rennir yn gysylltiedig ag arferion arloesol, gwaith ymchwil a threialon. Ystyried defnyddio cronfa Buddsoddi i Arbed i gefnogi arferion newydd os ydynt yn debygol o arbed costau.

11. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol adolygu eu trefniadau ar gyfer monitro perfformiad, eu dangosyddion a'u prosesau casglu data er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Cwestiynai'r awdurdodau a oedd y dangosyddion a'r cylch monitro perfformiad cyfredol yn ystod y flwyddyn yn rhoi adlewyrchiad llawn o'r ffiniau y mae awdurdodau'n gweithredu oddi mewn iddynt o ran demograffeg a'r sylfaen drethi, a'r swm o arian a gaiff ei adennill y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol.

12. Ar y cyd â'r Trydydd Sector, dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ystyried rhesymoli dull o weithio â'r sector cyngori rhad ac am ddim, gan adeiladu ar yr arfer da sy'n bodoli eisoes, er mwyn paratoi i weithredu Credyd Cynhwysol. Mynegodd pob awdurdod bryder ynghylch cynyddu cyfraddau'r dreth gyngor a fforddiadwyedd y dreth gyngor yn y dyfodol. Mynegodd llawer ohonynt fod angen dull wedi'i gynllunio'n arbennig o weithio gydag asiantaethau cyngori a chymdeithasau tai i ymwreiddio prosesau newydd cyn gweithredu Credyd Cynhwysol. Mae rhai ohonynt eisoes wedi sefydlu gweithgorau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'u Canolfan Byd Gwaith, eu cynghorwyr dyledion a'u cymdeithasau tai lleol.

Ymchwil Bellach

13. Ystyried ystod y data y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio gan awdurdodau, ac a ellid ychwanegu at y rhain er mwyn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd. Dylid ystyried casglu a chyhoeddi data ar orfodi a dulliau casglu.

14. Ymchwilio i effaith cau llysoedd ar y gallu i adennill ôl-ddyledion y dreth gyngor. Nododd yr awdurdodau fod cau llysoedd wedi amharu ar hyblygrwydd eu proses adennill. Dylai'r gwaith ymchwil archwilio'r problemau a wynebir gan ddyledwyr yn ogystal ag awdurdodau.

Cyfeiriadau

Ashton, A., Francis, M. and Woudhuysen, A. 'Still too poor to pay: three years of localised council tax support in London' (2016), Grŵp Gweithredu yn erbyn Tlodi Plant ac Ymddiriedolaeth Zaccheaus 2000

Berthoud, R., Bryan, M. a Bardasi, E. (2004), 'The Dynamics of Deprivation: the relationship between income and material deprivation over time', Department of Work and Pensions (DWP). *Ar gael ar-lein:*

https://www.researchgate.net/profile/Mark_Bryan2/publication/265280066_The_Dynamics_of_Deprivation_The_Relationship_Between_Income_and_Material_Deprivation_Over_Time/links/56f3b56c08ae95e8b6cbd6e9.pdf

Collection of Council Tax Arrears Good Practice Protocol, (2009), Y Gymdeithas Llywodraeth Leol mewn Partneriaeth â CLILC, Cyngor ar Bopeth, Advice UK

Council Tax Debt in Scotland: A Growing Problem (2016), StepChange Debt Charity

Council tax debts: How to deal with the growing arrears crisis tipping families into problem debt (2015), Elusen Dyledion StepChange

Council Tax: Guidance to local councils on good practice in the collection of Council Tax arrears, (2013), DCLG

Creditor and Debt Collector Conduct: what's making debt problems worse? (2016), Elusen Dyledion StepChange

Curl, A. and Kearns, A., 'Financial Difficulty and Mental Wellbeing in an Age of Austerity: the experience in deprived communities' (2015), *Social Policy and Society*, 14 (2), tud 217-240

Cymhwyso dirnadaeth o ymddygiad i'r Dreth Gyngor yng Nghymru (2016) Llywodraeth Cymru

Fair Debt Collection Policy, (2012), Cyngor Bwrdeistref Bedford

Gregory, L., (2009), 'Spending time locally: the benefit of time banks for Local Economies', *Local Economy*, 24 (4), tud 323-333

How have low-income families been affected by changes to council tax support? (2014), Joseph Rowntree Foundation (JRF)

Introducing Test and Build – a behavioural insights venture (2017) Y Tîm Dirnad Ymddygiad

Key Changes to Council Tax Support in 2016/17, (2016), NPI a'r Joseph Rowntree Foundation

Lambeth's Use of Randomised Control Trials (2015), Y Gymdeithas Llywodraeth Leol

Modelu'r angen am gyngor ar Bynciau Lles Cymdeithasol (2017), Llywodraeth Cymru

National Standards for Enforcement Agents, (2012), Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ)

Ollerenshaw, E. (2016) *Three Years On: An Independent Review of Local Council Tax Support Schemes*. Available online:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/514767/Local_Council_Tax_support_schemes_-_review_report.pdf

Ozanne L. K. (2010) 'Learning to exchange time: Benefits and obstacles to time banking', *International Journal of Community Currency Research*, Cyf. 14, tud. A1-16

Rewiring Public Services Council Tax Support: The story so far (2013) Local Government Association

Seyfang, G., (2003), 'With a little help from my friends.' Evaluating time banks as a tool for community self-help.' *Local Economy*, 18 (3), tud. 257-264

Tegwch i Bawb: Gwellu sut y cesglir dyledion y dreth gyngor yng Nghymru, (2016), Cyngor ar Bopeth Cymru

The impacts of Council Tax Support reduction on arrears, collection rates and court and administration costs (2014), New Policy Institute (NPI)

Valek, L.,a Tarasova, O. (2014) 'Intercultural Learning and Communication in Time Bank Environment', *Procedia - Social and Behavioral Sciences*, Cyf. 152, tud. 958-962.

Atodiad A

Dyledion Teg: Canllaw Cyfweld

Arferion Casglu'r Dreth Gyngor

Y cyfwelydd i lywio'r ymatebwr i feddwl am yr arferion y mae'n eu mabwysiadu i gynorthwyo dinasyddion i ad-dalu'r dreth gyngor, gan gydbwyso hynny â phwysigrwydd sicrhau bod cymaint o dreth yn cael ei chasglu ag sy'n bosibl â'r adnoddau sydd ar gael i'r ALI:

- Sut fydddech chi'n disgrifio eich profiad o reoli casgliadau'r dreth gyngor?
 - Beth sy'n gweithio'n dda?
 - Pa heriau ydych chi'n eu hwynebu?

Ysgogi:

- *Cyfathrebu â dinasyddion*
- *Gwaith partneriaeth (ee, yn fewnol, yn allanol ag Asiantaethau Cyngori ar Ddyledion))*
-

Arferion Casglu Dyledion y Dreth Gyngor

- Sut fydddech chi'n disgrifio eich profiad o reoli'r broses o adennill dyledion y dreth gyngor yn effeithiol?

- Beth yw'r ffactorau sy'n galluogi hyn?
- Beth yw'r rhwystrau?

Ysgogi:

- *Yn fewnol (o ran gweinyddiaeth, polisi, adnoddau)*
- *Yn allanol (o ran dinasyddion, asiantaethau cyngori, deddfwriaeth, rhannu data ac adrannau eraill y llywodraeth)*

Polisiâu a phrosesau

- **Disgrifiwch y camau y byddwch yn eu cymryd pan na fydd dinesydd yn talu'r dreth gyngor**

- **Hysbysiad, nodyn atgoffa, rhybudd terfynol - wedyn (atafaelu enillion, atafaelu budd-daliadau, achos, dileu - pa bryd, a sut fyddwch chi'n penderfynu?)**
- **Unrhyw gysylltiad â dinasyddion ar wahân i lythyrau? Os felly, ar ba bryd?**
- Sut mae'r ALI yn ymdrechu, os o gwbl, i wahaniaethu rhwng y dinasyddion hynny nad ydynt yn gallu bodloni eu hymrwymadau a'r rhai sydd yn gwrthod gwneud hynny?

Ysgogi

- *A oes gan yr ALI ddiffiniad o fregusrwydd? (diffiniad, nodweddion)*
- *Sut mae'r ALI yn cymhwyso ei ddealltwriaeth o fregusrwydd (sail resymegol ar gyfer defnyddio dull arbennig, proses)*
- *Sut mae'r ALI yn cysylltu ag asiantaethau cynghori allanol? (proses, cyfathrebu, a ydynt yn derbyn tystiolaeth o fregusrwydd oddi wrth asiantaethau cynghori allanol ?))*
- *Ydych chi'n ceisio gwahaniaethu rhwng y rhai sydd yn mynd i ddyled am y tro cyntaf, a'r rhai sydd wedi mynd i ddyled o'r blaen? Os felly, sut ydych chi'n trin yr wybodaeth hon?*

- Sut fydddech chi'n disgrifio dull yr ALI o ymdrin â defnyddio camau gorfodi?
 - Oes gan yr ALI bolisi ynghylch pryd i gymryd cam/camau gorfodi?
 - A yw'r ALI yn nodi pa gamau i'w cymryd gyntaf ac ar gyfer pa grwpiau penodol?

Ysgogi

- *Sut mae'r ALI yn gweithredu mesurau gorfodi? (sail resymegol, mecanweithiau, proses)*
- *A yw'r ALI yn defnyddio asiantau gorfodi mewnol ac/neu asiantau gorfodi allanol*
- *A yw'r ALI yn mabwysiadu trothwy isaf ar gyfer dyledion?*

Os defnyddir asiantau gorfodi allanol:

- Sut fydddech chi'n disgrifio eich perthynas ag asiantau gorfodi allanol?
 - Beth sy'n gweithio'n dda?
 - Beth sydd ddim yn gweithio'n dda?
 - Sut y gellid gwella'r berthynas/perthnasoedd?

Ysgogi

- *Monitro perfformiad ac ymddygiad*

- *Gweithredu ar sail pryderon*

- **(os nad atebwyd yn flaenorol)** Sut fyddwch chi'n penderfynu pa ddull casglu i'w ddefnyddio?

- Fforddiadwyedd a bregusrwydd
- Cymesuredd
- Isafswm dyledion
- Cost y dull gorfodi i'r cyngor a'r swm o ddyled y gall ei adennill drwy'r dull

- I ba raddau y gallwch asesu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y dulliau casglu dyledion yr ydych yn eu defnyddio?

Ysgogi

- *Addysgu'r cyhoedd / darparu gwybodaeth*
- *Ceisiadau am dâl*
- *Gorchmynion talu*
- *Camau gorfodi (defnyddio beiliau, ffioedd gorfodi, gwysion llys, carchar)*

Cyfathrebu

Y cyfwelydd i lywio'r cyfwelai i feddwl am y dulliau a'r prosesau y mae'r ALI yn eu mabwysiadu i gychwyn cyfathrebu, i barhau i gyfathrebu, neu i gyfathrebu o'r newydd â dinasyddion ynghylch eu dyled treth gyngor.

- Sut mae'r cyngor yn sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o'r modd y gallant ac y dylent gysylltu i drafod eu dyled dreth gyngor?

- Pryd a sut fyddwch chi'n cyfathrebu â dinasyddion ynghylch eu hymrwymadau treth gyngor?

Ysgogi

- *Ceisiadau am dâl* (dull/dulliau)
- *Gorchmynion talu* (dull/dulliau)
- *Cam(au) gorfodi* (dull/dulliau)

- Pa sianelau ydych chi'n eu cynnig i ddinasyddion i'w galluogi i gyfathrebu â chi ynglŷn â'u treth gyngor?

Ysgogi

- *Llinell ffôn uniongyrchol neu anuniongyrchol*
- *Ar-lein, e-bost, y post, arall*

Cyngor

Y cyfwelydd i lywio'r cyfwelai i feddwl am berthnasoedd, adnoddau a phrosesau sydd gan y Cyngor i weithio gydag asiantaethau cynghori ar ddyledion.

- Ydych chi'n cymryd unrhyw gamau i annog dinasyddion i ofyn am gyngor ynghylch y dreth gyngor sy'n ddyledus ganddynt?

Ysgogi

- *Gan yr Awdurdod Lleol (ee, llinell gymorth uniongyrchol, trefn gwyno)*
- *Gan wasanaethau cynghori (ee, Cyngor ar Bopeth)*
- *Pryd?*
- *Sut fyddwch chi'n eu hannog (cyfeirio mewn llythyr? galwad ffôn?)*
- *Ydych chi'n targedu unrhyw grwpiau penodol?*
- Sut fydddech chi'n disgrifio eich perthynas/perthnasoedd â gwasanaethau cynghori ar ddyledion/materion ariannol lleol?
- *Beth sy'n gweithio'n dda?*
- *Beth sydd ddim yn gweithio mor dda?*
- *Sut y gallai perthnasoedd fod yn well?*

Canllawiau, hyfforddiant ac arfer da

Y cyfwelydd i lywio'r cyfwelai i feddwl am yr hyfforddiant, yr adnoddau a'r arfer da y mae'r ALI yn eu defnyddio yn sail ar gyfer ei ddull cyfredol o ymdrin ag adennill dyledion y dreth gyngor, a pha gymorth neu gamau a allai fod eu hangen yn y dyfodol i ddatblygu ei ddull.

- Pa hyfforddiant, canllawiau ac arfer da fyddwch chi'n gwneud defnydd rheolaidd ohonynt i ddatblygu, neu yn sail ar gyfer eich dull?

Ysgogi

- *Ydy'r ALI yn defnyddio Cod Ymarfer/ Polisi Dyledion Corfforaethol?*
 - *A yw'r ALI yn defnyddio'r Datganiad Ariannol Cyffredin (DAC)?*
 - *A yw'r ALI yn ymwybodol o ganllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y defnydd o Asiantau Gorfodi?*
-
- *A yw Awdurdodau Lleol yn wynebu unrhyw heriau wrth gymhwyso hyfforddiant, canllawiau ac arfer da?*
 - *Adnoddau / capasiti*
 - *Sgiliau a hyfforddiant*
 - *Polisi a deddfwriaeth*

Ysgogi

- *Cod Ymarfer / Polisi Dyledion Corfforaethol*
 - *Datganiad Ariannol Cyffredin*
- Canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y defnydd o Asiantau Gorfodi*

- *Pa heriau ydych chi'n meddwl y byddwch yn eu wynebu wrth gasglu dyledion y dreth gyngor yn effeithiol yn y dyfodol?*

Ysgogi

- *Pa gymorth a allai fod ei angen arnoch i ymdrin â'r heriau hyn?*
-
- *Pa gyfleoedd sydd ar gael yn eich tyb chi i wella casgliadau'r dreth gyngor yn y dyfodol?*

Ysgogi

- *Pa gymorth a allai fod ei angen arnoch i fanteisio ar y cyfleoedd hyn?*